Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

PRIF GWNSTABL HEDDLU DYFED-POWYS

# DATGANIAD O GYFRIFON




AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
31 MAWRTH 2020

## Cynnwys


Adroddiad Naratif ..... 3

Datganiad o Gyfrifoldebau ..... 32

Adroddiad archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Gwnstabl Dyfed-Powys ..... 33

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ..... 36

Mantolen ..... 37

Cronfa Bensiwn yr Heddlu ..... 38

Nodiadau i'r Cyfrifon ..... 39

1. Polisïau cyfrifyddu ..... 39
2. Addasiadau Cyfnod Blaenorol ..... 42
3. Safonau Cyfrifyddu sydd wedi cael eu cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto ..... 42
4. Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu ..... 43
5. Rhagdybiaethau a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif ..... 43
6. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd ..... 43
7. Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi ..... 44
8. Offerynnau Ariannol ..... 44
9. Dyledwyr Byrdymor ..... 45
10. Credydwyr Byrdymor ..... 46
11. Trefniadau Cydweithio ..... 46
12. Cydnabyddiaeth swyddogion ..... 51
13. Costau archwilio allanol ..... 53
14. Partïon cysylltiedig ..... 54
15. Prydlesau ..... 54
16. Buddiannau terfynu ..... 55
17. Cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig ..... 55
18. Rhwymedigaethau Digwyddiadol ..... 64
19. Natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol ..... 65

Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd 2019-20 ..... 66

# Adroddiad Naratif

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Nod yr adroddiad naratif hwn yw rhoi gwybodaeth am y materion pwysicaf a nodwyd o fewn cyfrifon y Prif Gwnstabl ar gyfer y gwasanaethau a ddarparwyd gan Brif Gwnstabl Dyfed-Powys.

1.2 Creodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ddwy gorfforaeth undyn o fewn pob ardal heddlu, sef y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae gan bob unigolyn gylch gwaith statudol clir ac ar wahân. Caiff y Comisiynydd ei ethol gan y cyhoedd ac, felly, mae'n cynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona. Etholwyd Mr Dafydd Llywelyn yn Gomisiynydd ym mis Mai 2016. Penodwyd Mr Mark Collins yn Brif Gwnstabl Dyfed-Powys gan y Comisiynydd ym mis Rhagfyr 2016. Caiff Datganiad o Gyfrifon arall ei lunio sy'n nodi Cyfrifon Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl.

1.3 Fel rhan o ystod o fesurau, mae Deddf Coronafeirws 2020 wedi gohirio etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a oedd i fod i gael eu cynnal ym mis Mai 2020, ac a fydd bellach yn cael eu cynnal mewn un flwyddyn ar 6 Mai 2021. Mae'r Ddeddf yn ymestyn cyfnod swydd y deiliad presennol am un flwyddyn ac yn lleihau cyfnod y swydd ar gyfer y deiliad nesaf o un flwyddyn.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif amcan, y strategaethau a'r prif risgiau y mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys yn eu hwynebu. Mae'n rhoi sylwadau ynglŷn â sut mae adnoddau wedi cael eu defnyddio er mwyn cyflawni canlyniadau a ddymunir yn unol â'r amcanion a'r strategaethau hyn.

1.5 Mae'n ceisio rhoi dadansoddiad teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad ariannol a gweithredol, y gellir ei ddefnyddio i roi cyd-destun i'r wybodaeth ariannol a geir yn y datganiadau ariannol er mwyn gwella dealltwriaeth y darllenwr.

1.6 Bydd yr adroddiad naratif yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Trosolwg o'r Sefydliad ac Amgylchedd Allanol
- Llywodraethu a Pherfformiad Gweithredol
- Model Sefydliadol
- Perfformiad Ariannol
- Risgiau, cyfleoedd a'r Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig
- Ymateb a Goblygiadau Pandemig y Coronafeirws
- Sail gwaith paratoi a chyflwyno

## 2.0 Trosolwg o'r Sefydliad ac Amgylchedd Allanol

2.1 Gan rychwantu 4,188 o filltiroedd sgwâr, ardal Heddlu Dyfed-Powys yw'r mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Gyda 13,842 milltir o ffyrdd, dau borthladd mawr, 350 milltir o arfordir ac ardaloedd mawr o gefn gwlad, mae'r ddaearyddiaeth yn creu galw sylweddol a heriau o ran adnoddau.



2.2 Mae’r boblogaeth breswyl o 518,062 wedi’i gwasgaru dros ardaloedd gwledig helaeth, trefi marchnad a gwyliau, yn ogystal ag ardaloedd mwy poblog. Mae twristiaeth yn creu galw unigryw, wrth i nifer fawr o dwristiaid ymweld â threfi allweddol. Mae hyn yn golygu goblygiadau sylweddol o ran cyfraddau troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phlismona’r ffyrdd.

2.3 Siaredir Cymraeg gan 40.9% o drigolion Dyfed-Powys o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 28.4%. Mae’r Heddlu yn ymrwymedig i sicrhau bod y gweithlu yn gynrychioliadol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu fel bod y cyhoedd, lle bo hynny'n bosibl, yn cael y cyfle i gyfathrebu â ni yn Gymraeg.

2.4 Mae sgiliau'r gweithlu a lefelau adnoddau yn hollbwysig o ran delio â'r galw a'r ddeddfwriaeth sy'n newid ac yn datblygu o hyd. Mae'r Prif Gwnstabl yn rheoli'r Heddlu drwy drefniadau llywodraethu mewnol, gyda'r Comisiynydd yn goruchwylio ac yn craffu ar ran y cyhoedd.

2.5 Yn groes i dueddiadau cenedlaethol, mae niferoedd Swyddogion Heddlu Dyfed-Powys wedi aros yn gymharol sefydlog dros y 10 mlynedd diwethaf, er i 2018/19 weld gostyngiad bwriadol bach o ganlyniad i gynllun diswyddiadau cynnar gwirfoddol ar gyfer Swyddogion yr Heddlu. Cafodd hyn ei gynllunio a'i reoli'n ofalus er mwyn sicrhau bod sgiliau allweddol yn cael eu cadw. Cyfrannodd y cynllun £1.2 miliwn o ostyngiadau mewn costau a hwylusodd waith cynllunio ar gyfer olyniaeth i sicrhau cymysgedd sgiliau effeithiol a da. O ganlyniad, mae nifer y swyddi Staff Cymorth yr Heddlu sydd wedi’u cyllidebu wedi codi ers hynny i 701. Mae'r gweithlu hefyd yn cynnwys 148 o Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCH) a 98 o gwnstabliaid gwirfoddol. Bydd goblygiadau ymrwymiad y Llywodraeth i recriwtio 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol ledled Cymru a Lloegr erbyn Mawrth 2023 yn cael effaith ar y niferoedd hyn ar gyfer y dyfodol a chyfeirir at hyn yn Adran 4 a 6.

| **Home Office Police Workfore Statistics as at 31st March each year** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| Police Officers | 1,195 | 1,157 | 1,131 | 1,112 | 1,123 | 1,176 | 1,149 | 1,160 | 1,186 | 1,145 |
| Police Staff | 720 | 673 | 606 | 606 | 600 | 536 | 584 | 622 | 633 | 651 |
| Police Community Support Officer | 83 | 80 | 97 | 143 | 150 | 147 | 135 | 143 | 145 | 146 |
| Total | 1,998 | 1,911 | 1,834 | 1,860 | 1,873 | 1,858 | 1,868 | 1,925 | 1,963 | 1,941 |
| | | | | | | | | | | |
| England and Wales Total | 248,397 | 237,250 | 224,272 | 218,052 | 214,024 | 212,380 | 205,860 | 203,135 | 204,330 | 206,569 |

2.6 Mae'r hinsawdd ariannol yn parhau i fod yn heriol ac mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld gostyngiadau o 21% neu £13 miliwn mewn arian grant canolog rhwng Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 a 2019/20. Bu'n rhaid i'r Heddlu arbed £29.5 miliwn dros y cyfnod hwn ac mae ganddo gynllun effeithlonrwydd ac arbedion helaeth i'r dyfodol, ond bydd hefyd yn ofynnol arbed mwy er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, o ystyried y pwysau o ran costau a ddisgwylir yn arbennig mewn perthynas â chostau pensiwn. Yn y cyd-destun hwn, mae gan yr Heddlu hefyd rai anghenion sylweddol o ran buddsoddi cyfalaf dros y deng mlynedd nesaf mewn perthynas â safleoedd newydd a systemau TGCh, yn ogystal â gwaith cynnal a chadw parhaus hanfodol.

2.7 Mynegwyd llawer o sylwadau annibynnol dros y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â chynaliadwyedd, cyllid a chadernid yr Heddlu yn ogystal â'r baich cynyddol sydd arno. Mae'r pwysau'n parhau i ddeillio o natur gyfnewidiol plismona a throseddu. Yn fwy diweddar, mae amrywiaeth cymhleth o oblygiadau a chanlyniadau ariannol ac economaidd pellgyrhaeddol wedi codi o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws. Mae'r rhain yn amlygu’r sefyllfa ddifrifol ac ansicr iawn y mae Dyfed-

Powys, gwasanaeth yr heddlu, gwasanaethau cyhoeddus a'r wlad gyfan yn ei hwynebu.

2.8 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i fynegi pryderon ynglŷn â'r effaith a'r risgiau sylweddol sy'n bygwth cymunedau yn ardal Dyfed-Powys. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2020/21 yn manylu ymhellach ar agweddau, er mae'n rhaid nodi y cafodd ei gymeradwyo cyn pandemig y Coronafeirws, felly nid yw'n adlewyrchu goblygiadau penodol hyn eto: [http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/9094/2021-mtfp-and-precept-report-for-panel-final-for-publication.docx](http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/9094/2021-mtfp-and-precept-report-for-panel-final-for-publication.docx)

2.9 Ochr yn ochr â'r cyd-destun ariannol anodd hwn, mae'r galw yn parhau i gynyddu ac yn dod yn fwyfwy cymhleth. Mae nifer y troseddau cofnodedig wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf er bod newidiadau i'r ffordd y caiff troseddau eu cofnodi yn genedlaethol wedi cael effaith fawr ar hyn. Mae pob heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi profi cynnydd tebyg gyda'r cynnydd mwyaf nodedig mewn troseddau treisgar.

2.10 Gofynnir i swyddogion a staff yr heddlu ddelio ag ystod eang o faterion pwysig sy'n effeithio ar y cyhoedd.

| | | |
|---|---|---|
| Antisocial Behaviour | Fraud | Property crime |
| Brexit | Governance | Resources |
| CCTV | Justice | Roads policing |
| Children and young people | Mental health | Sexual crime |
| Crime investigation | Modern Day Slavery | Specialist capabilities |
| Cyber crime | Neighbourhood policing | Stop and search |
| Digital technology | Organised Crime | Terrorism |
| Domestic abuse | Police Effectiveness | Violent crime |
| Drugs and alcohol | Police legitimacy | Workforce |
| Firearms | 999 Response | Youth and Policing |

2.11 Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddatblygu'n gyflym er mwyn ei alluogi i ymateb i risgiau newydd, bygythiadau a newidiadau mewn technoleg, y mae llawer ohonynt wedi gofyn am ffyrdd newydd o weithio.

2.12 Datblygodd yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gynllun cyflenwi ar gyfer 2017-21 i ategu Cynllun yr Heddlu a Throseddu a chrëwyd Gweledigaeth ar gyfer 2025. Yna cafodd cynlluniau cyflenwi manwl eu datblygu i ategu'r dogfennau strategol lefel uchel hyn. Mae'r cynlluniau'n cydnabod yr amgylchedd gweithredol ac ariannol anodd, yr angen i barhau i fuddsoddi er mwyn sicrhau gwasanaethau cynaliadwy a'r angen i sicrhau bod gan yr heddlu adnoddau ac asedau cyfatebol i ateb y galw'n briodol.

2.13 Gyda chefnogaeth y Comisiynydd, mae'r Heddlu wedi buddsoddi'n sylweddol mewn plismona digidol, gan sicrhau y gall swyddogion rheng flaen a SCCHau ddefnyddio systemau'r heddlu drwy ddyfeisiau data symudol a chamerâu fideo a gaiff eu gwisgo ar y corff, yn ogystal â chyflwyno systemau telemateg mewn cerbydau er mwyn ymateb yn well i ddigwyddiadau. Mae systemau teledu cylch cyfyng wedi parhau i gael eu cyflwyno'n eang ar draws yr ardal, gan weithio fel ataliad yn ogystal ag arf gwerthfawr ac effeithiol i'w ddefnyddio mewn ymchwiliadau troseddol.

2.14 Nid yw plismona yn wasanaeth sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, ond mae cryn dipyn o'r gwaith a wneir ledled y pedair Sir yn cael ei wneud mewn partneriaeth

ag Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Tân, Byrddau Iechyd Lleol a llawer o bartneriaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector. Hefyd, caiff nifer o wasanaethau pwysig, fel Ymateb Arfog ac ymateb i'r bygythiad o Droseddau Cyfundrefnol a Therfysgaeth, eu darparu ar y cyd â Heddluoedd eraill.

2.15 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i gyfrannu at weithgareddau plismona cenedlaethol, gyda swyddogion a staff yr Heddlu'n cael eu galw i helpu gyda nifer o ddigwyddiadau plismona proffil uchel yn ystod y flwyddyn, fel gwaith a gafodd ei ad-dalu, gan gynnwys:

- Dathliadau 75 mlynedd ers D-Day - Mehefin 2019
- Ymchwiliad i farwolaethau 39 o bobl o Fiet-nam mewn lori oer yn Essex
- Cynhadledd NATO - Rhagfyr 2019
- Ymweliad Arlywydd yr UD - Mehefin 2019
- Cynhadledd y Blaid Geidwadol - Manceinion
- Amryw o Brotestiadau Hinsawdd
- Uwchgynhadledd Buddsoddi Affrica - Ionawr 2020
- Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe V Dinas Caerdydd - Hydref 2019

2.16 Yn fwy lleol, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymdrin â nifer o ymgyrchoedd a digwyddiadau mawr, wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio, gan gynnwys:

- Ymchwiliad i berson coll o Nantgaredig Caerfyrddin
- Ymchwiliadau niferus i weithgarwch sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau gan gynnwys gwaith mewn cysylltiad â'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i ganfod ac adennill gwerth £60m o gocên o gwch hwylio yn Abergwaun. Plediodd dau ddyn a ddaliwyd ar fwrdd y cwch yn euog ac fe'u dedfrydwyd i 19.5 a 13.5 o flynyddoedd.
- Nifer o ddigwyddiadau trasig eraill a oedd wedi cyflwyno heriau gweithredol sylweddol a gofynion anghyffredin o ran adnoddau
- Nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru a Gŵyl y Gelli

2.17 Hefyd, ddechrau 2020 gwelwyd yr argyfwng a ddatblygodd yn sgil y Coronafeirws, gyda Sefydliad Iechyd y Byd yn datgan ei fod yn bandemig ar 12 Mawrth 2020. Bu effaith yr ymateb i hyn yn ddigynsail yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol, gan effeithio'n fwyaf sylweddol ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Llywodraeth Leol a'r Sector Gofal ond hefyd yn benodol ar blismona.

2.18 Cymerodd Dyfed-Powys ystod o gamau cynnar i sicrhau ei fod yn barod i ymateb ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Roedd y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd yn sylweddol i sicrhau bod pob agwedd ar berfformiad gweithredol a sefydliadol a darparu gwasanaethau yn optimaidd ac yn ddynamig i ymateb yn briodol i'r sefyllfa a oedd yn datblygu'n gyflym, gydag iechyd a lles y gweithlu yn gwbl hanfodol. Mae'r trefniadau hyn wedi'u hamlinellu ymhellach yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae adran ychwanegol wedi'i chynnwys yn rhan 7 yr adroddiad naratif hwn i dynnu sylw at rai o'r materion ehangach o ran y sefydliad a darparu gwasanaethau, ynghyd â'r goblygiadau ariannol.

## 3.0 Llywodraethu a Pherfformiad Gweithredol

3.1 Mae trefniadau Llywodraethu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gymhleth. Cafodd y trefniadau eu hadolygu'n feirniadol yn ystod 2018/19 ac maent yn parhau i ddatblygu er mwyn sicrhau gwaith rheoli, goruchwylio a chraffu effeithiol gan y sefydliad. Mae

Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhan o'r Datganiad o Gyfrifon hwn, sy'n manylu ar y trefniadau sydd ar waith i sicrhau gwaith craffu ac atebolrwydd cadarn gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd yn nodi'r egwyddorion, y strwythurau a'r prosesau ar gyfer llywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys, ar y cyd ac ar wahân, a chaiff hyn ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol.

3.2 Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gylch gwaith statudol clir ac ar wahân. Diogelir annibyniaeth weithredol y Prif Gwnstabl mewn deddfwriaeth. Mae ganddo gyfrifoldeb statudol am reolaeth, cyfeiriad a darpariaeth gwasanaethau plismona gweithredol Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r Prif Gwnstabl yn atebol o dan y gyfraith am arfer pwerau'r heddlu ac i'r Comisiynydd am ddarparu gwasanaeth plismona effeithlon ac effeithiol a rheoli adnoddau a gwariant yr heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl yn dal ei Swydd o dan y Goron ac mae'n gyfrifol am gadw Heddwch y Frenhines.

3.3 Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfrifoldeb statudol am sicrhau bod yr heddlu yn effeithlon ac yn effeithiol a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni ei swyddogaethau. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am bennu cyllideb flynyddol yr heddlu (gan gynnwys y praesept) a sicrhau y rhoddir cyfrif am arian cyhoeddus a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Y Comisiynydd yw perchennog statudol yr holl asedau cyfalaf ac ef sy'n dal yr holl gronfeydd a'r balansau.

3.4 Y Comisiynydd sydd hefyd yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau strategol Heddlu Dyfed-Powys drwy lunio'r Cynllun Heddlu a Throseddu, sicrhau bod materion busnes yn cael eu cyflawni yn unol â'r gyfraith a bod safonau priodol yn cael eu cyrraedd a'u cynnal.

3.5 Mae Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd yn ddogfen bwysig sy'n nodi pedair blaenoriaeth a phum egwyddor gyflawni allweddol, sef:

| Blaenoriaethau | Egwyddorion Cyflawni |
|---|---|
| Cadw Cymunedau'n Ddiogel | Sicrhau Gwerth am Arian |
| Diogelu'r Rhai Agored i Niwed | Ymgysylltu â'r Cyhoedd |
| Amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol | Gweithio gyda'n Gilydd |
| Cysylltu â chymunedau | Cefnogi Dioddefwyr |
| | Cydraddoldeb a Thegwch |

3.6 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi parhau i atgyfnerthu'r gydberthynas gadarn a phroffesiynol rhwng y ddwy swyddogaeth ac maent yn rhannu'r un weledigaeth ar gyfer gwella Heddlu Dyfed-Powys a'r gwasanaeth y mae'n ei roi i'r cyhoedd.

3.7 Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am helpu'r Comisiynydd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae ei drefniadau cyflawni gweithredol, ei fframweithiau monitro perfformiad a'i benderfyniadau ariannu yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn. Adroddir ar hynt y cynllun bob chwarter yng nghyfarfodydd y Bwrdd Atebolrwydd Plismona; cyfarfod cyhoeddus yw hwn lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dwyn y Prif Gwnstabl a'i uwch dîm i gyfrif. Mae'r Adroddiad diweddaraf ar Berfformiad ar gael yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod diwethaf yn:

[http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/bwrdd-atebolrwydd-yr-heddlu/](http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/bwrdd-atebolrwydd-yr-heddlu/)


3.8 Mae nifer o fetrigau maint ac allbwn yn cael eu monitro fel rhan o'r trefniadau sicrwydd a llywodraethu. Mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi dangosyddion o gynnydd a pherfformiad yn erbyn y blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae Byrddau priodol o fewn y strwythur Llywodraethu'n monitro perfformiad ac yn craffu arno gan ganolbwyntio'n benodol ar welliant a dysgu.

3.9 Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi parhau i ateb galwadau 999 ymhell o fewn y targed 10 eiliad a osodir gan y Cod Ymarfer ar gyfer y Gwasanaeth Galwadau Brys Cyhoeddus (PECS). Mae perfformiad o ran cyflymder cyfartalog ateb galwadau 101, yn ogystal â'r galwadau nas atebir, wedi dirywio ers yr un cyfnod y llynedd. Mae cynllun amlweddog ar waith i wella perfformiad â galwadau 101. Mae'r cynlluniau a gynigir yn cynnwys newidiadau i systemau TGCh, prosesau Canolfan Gyswllt yr Heddlu (CGH) (a phrosesau'r Heddlu'n ehangach), gwella gwaith partneriaeth mewnol a lledaenu newid diwylliannol. Nid yw nifer y galwadau am wasanaeth a dderbyniwyd yn ein Canolfan Gyswllt wedi newid fawr ddim yn y pedair blynedd diwethaf. Rhagwelir y bydd y galw ac adnoddau'n newid wrth i'r CGH ddarparu sianelau cyswllt digidol ychwanegol drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r hafan ar-lein unigol yn y flwyddyn i ddod.

3.10 Mae amseroedd ymateb i alwadau am wasanaeth, yn unol â'r flaenoriaeth a roddir iddynt, yn dda iawn. Mae rhai heriau daearyddol i'w hwynebu mewn lleoedd fel Llanbedr Pont Steffan a Sir Faesyfed ond mae'r amseroedd ymateb yn llawer gwell o gymharu â heddluoedd eraill.


3.11 Mae'r siart canlynol yn dangos bod cyfanswm y troseddau cofnodedig wedi cyrraedd uchafbwynt ym mis Gorffennaf 2019. Dechreuodd gostyngiad o ran troseddu o fis Rhagfyr 2019 a pharhaodd yn gyson. Daeth cyfyngiadau symud i rym ledled y DU ar 23 Mawrth oherwydd y sefyllfa COVID-19. Mae cyfradd y troseddau'n dangos dechreuad gostyngiad a barhaodd i mewn i fis Ebrill 2020

*Cyfanswm y troseddau cofnodedig dros amser*




3.12 Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn Troseddau Trefn Gyhoeddus, Troseddau Treisgar a Throseddau Amrywiol yn erbyn Cymdeithas. Nodir cynnydd hefyd yn y categori Meddu ar Arf. Er eu bod yn fach o ran nifer, o ystyried difrifoldeb y troseddau ac, yn wir, y ffocws cenedlaethol ar droseddau'n ymwneud â chyllyll, mae'r Heddlu'n ymrwymedig i gofnodi'r holl droseddau o'r fath a delio â nhw'n effeithiol. Bu gostyngiad o 15% mewn troseddau Lladrad a Dwyn. Yn gyffredinol, bu cynnydd o 5.7% mewn troseddu o gymharu â 2018/19.

*Cymharu categorïau troseddau 2018/19 a 2019/20*




3.13 Bellach, mae gan y rhan fwyaf o ymchwiliadau elfen o seiber-ddibyniaeth o ran y ffordd y mae'r drosedd yn cael ei chyflawni. Wrth i nifer y dyfeisiau gynyddu ac wrth i gapasiti storio ehangu, mae brysbennu ac asesu cynnar yn hanfodol er mwyn blaenoriaethu ymchwiliadau ac ymdopi â'r galw. Mae gwaith i ddiwygio prosesau o fewn yr Uned Troseddu Digidol a Seiberdroseddu (DCCU) wedi sicrhau bod gwaith brysbennu effeithiol yn digwydd wrth atafaelu ac wrth drosglwyddo i'r DCCU. Mae'r gallu i ddelio ag ymchwilio i ddyfeisiau digidol sy'n ymwneud â throseddau lefel is hefyd wedi cynyddu, trwy hyfforddi Archwilwyr Troseddfannau i adalw data o ddyfeisiau symudol yn unol â safonau ISO. Mae hyn, ynghyd â mesurau eraill, wedi helpu i wella capasiti'n sylweddol gan arwain at ostyngiad o ran llwyth gwaith o fewn y DCCU, ac mae wedi galluogi gwell gwasanaeth i ddioddefwyr drwy brosesau cyflymach.

3.14 Mae Llinellau Cyffuriau yn parhau i fod yn fygythiad cenedlaethol gyda Grwpiau Troseddu Trefnedig o ddinasoedd mawr yn targedu cymunedau gwledig ac yn cipio rheolaeth ar farchnadoedd cyffuriau lleol. Mae ymyrraeth gynnar gan Heddlu Dyfed-Powys i darfu ar weithgarwch wedi helpu i leihau'r effaith niweidiol o fewn ardal yr Heddlu. Mae creu byrddau Trais Difrifol a Throseddu Cyfundrefnol ym mhob Sir wedi helpu i ddatblygu dull amlasiantaeth o ymdrin â'r bygythiad hwn ac amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed sy'n cael eu targedu gan y grwpiau hyn.

3.15 Gwneud yr hanfodion yn dda yw un o brif ymrwymiadau'r Prif Gwnstabl ac mae hyn yn berthnasol i bob maes gwaith. Ar gyfer 2019/20, penderfynwyd bod Plismona Bro a Cham-drin Domestig yn feysydd â blaenoriaeth y mae tîm y Prif Swyddogion ac uwch-arweinwyr eraill yn canolbwyntio arnynt er mwyn ysgogi gwelliannau i ddiogelu ein cymunedau ymhellach.

3.16 Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi rhoi blaenoriaeth i godi safonau ymchwiliadau ar gyfer yr holl fathau o droseddau a gofnodwyd, gan roi pwyslais penodol ar droseddau mwy difrifol lle gall ymchwiliadau barhau am gyfnodau estynedig. Arweiniwyd y gwaith hwn gan y Pennaeth Troseddu ac mae wedi arwain at leihad sylweddol mewn achosion byw sydd dros 12 mis oed. Rhoddwyd sylw arbennig i Drais a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO) oherwydd y trawma a brofir gan ddioddefwyr. Rheolir yr ymchwiliadau hyn yn effeithiol gan uwch-arweinwyr a chynhelir cyfarfodydd RASSO rheolaidd gyda Gwasanaeth Erlyn y

Goron i adolygu unrhyw achosion sydd wedi methu ac i graffu ar benderfyniadau'r heddlu ynghylch unrhyw achosion "dim gweithredu pellach (NFA)".

3.17 Er mwyn adeiladu ymhellach ar y mesurau a roddwyd ar waith i wella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr troseddau, a oedd yn cynnwys sefydlu Desg Fregusrwydd, mae Uned Asesu Risg Eilaidd (SRAU) wedi'i datblygu i ymateb yn effeithiol i'r cynnydd mewn achosion o gam-drin domestig ac achosion a gyfeirir at y Pwyllgor Asesu Risg Amlasiantaeth. Mae'r SRAU yn cynnig dull cyson o raddio digwyddiadau domestig ac yn darparu cynllun rheoli risg amserol ac effeithiol drwy drafodaethau amlasiantaeth dyddiol. At hynny, caiff staff eu hyfforddi i gwblhau Asesiad Sgrinio ar gyfer Stelcian ac Aflonyddu.

3.18 Mae'r Ganolfan Fregusrwydd yn dwyn ynghyd swyddogaethau allweddol gan gynnwys yr Uned Atgyfeirio Ganolog, yr SRAU, yr Uned Rheoli Troseddwyr a'r Uned Lleihau Niwed. Rhagwelir y bydd hyn yn gwella ein hymateb i'r holl ddioddefwyr sy'n agored i niwed. Drwy ddatblygu uned Brysbennu ac Asesu, bydd yr Heddlu'n gallu adolygu pob Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth gan ddarparu asesiad cyson o fygythiad, risg a niwed. Bydd hyn yn galluogi ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael â bregusrwydd lefel is gan fabwysiadu dull sy’n gweithio drwy lens Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae gweithio gyda phartneriaid a chynnal adolygiadau ar y cyd wedi ysgogi diddordeb gan Awdurdodau Lleol i ffurfio rhan o'r broses Brysbennu ac Asesu. Gellir gwneud hyn yn gorfforol neu drwy ddulliau rhithwir gan ddefnyddio'r feddalwedd a brynwyd yn ddiweddar ac sydd o'r radd flaenaf, gan liniaru rhai o'r heriau daearyddol sy’n berthnasol i ardal Dyfed-Powys.

3.19 Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae'r cyfraddau collfarnu yn Nyfed Powys ar gyfer llys y Goron a'r llys ynadon wedi parhau'n gyson uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Er bod y cyfraddau collfarnu wedi amrywio'n chwarterol, mae'r tueddiadau wedi aros yn sefydlog h.y. 82.4% i 86.9% yn Llys y Goron ac 87.2% i 90.9% (data Ch3 oedd yr uchaf yng Nghymru) yn llys yr ynadon.

3.20 Rydym yn defnyddio dwy ffynhonnell o wybodaeth allweddol i ganfod barn y cyhoedd ar blismona lleol. Y rhain yw Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr sy'n rhoi safbwynt y cyhoedd ar blismona a'r Arolwg o Foddhad Dioddefwyr sy'n rhoi gwybod am brofiad dioddefwyr o blismona. Caiff yr Arolwg Troseddu ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a chaiff yr Arolwg o Foddhad Dioddefwyr ei gynnal gan staff yr heddlu o fewn Heddlu Dyfed-Powys, gwasanaeth a gomisiynir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Yn gyffredinol, mae'r Arolwg o Foddhad Dioddefwyr yn awgrymu bod dioddefwyr yn fodlon ar y profiad cyfan ond mae rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr am hynt ymchwiliadau i droseddau yn faes y nodir yn gyson y mae angen ei wella.


1. Canlyniadau Troseddau

O ystyried troseddau a gafodd eu dwyn i'n sylw ac y pennwyd canlyniad (terfynol) iddynt yn 2019/20, pennwyd canlyniad i 65.7% (19,911) ohonynt o fewn 30 diwrnod i ni gael gwybod amdanynt. Mae hyn yn gynnydd o 2.7% o gymharu â 2018/19. Mae nifer y troseddau y pennir canlyniad iddynt o fewn 30 diwrnod yn dibynnu'n fawr ar y math o drosedd, a'i natur. Y tebyg yw y bydd yn cymryd mwy o amser i bennu canlyniad ar gyfer troseddau mwy cymhleth, megis troseddau rhyw a lladrad (35.7% a 43.5%, yn y drefn honno), na throseddau a ystyrir yn llai cymhleth, megis

difrod troseddol a throseddau sy'n ymwneud â threfn gyhoeddus (75.9% a 71.8%, yn y drefn honno).

2. <u>Boddhad dioddefwyr</u>

Cynhaliwyd 615 o gyfweliadau dros y ffôn yn 2019/20 er mwyn nodi i ba raddau roedd dioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fodlon ar y gwasanaethau plismona a gawsant. Mae'r graff isod yn canolbwyntio ar bum agwedd ar daith ein dioddefwyr. Dim ond tri arolwg a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020, gan i'r cyfyngiadau cenedlaethol o ganlyniad i COVID-19 olygu na allai arolygu dioddefwyr troseddau barhau gan nad oedd yn dasg a oedd yn addas ar gyfer gweithio gartref. Oherwydd y niferoedd bach, felly, nid yw ffigurau Mawrth wedi'u cynnwys yn y set ddata derfynol a nodir isod.





3.21 O ran Boddhad Dioddefwyr, roedd 75.1% yn fodlon ar eu profiad cyfan ond mae'r Heddlu'n cydnabod bod gwaith i'w wneud i ganolbwyntio ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr. Ymddengys bod cyfraddau boddhad is o ran cael y wybodaeth ddiweddaraf yn dylanwadu ar gyfradd boddhad profiad cyfan unigolyn. Mae boddhad â chyfraddau triniaeth yn parhau'n gyson uchel.

3.22 Er gwaethaf nifer o newidiadau o ran personél yn nhîm Prif Swyddogion yr Heddlu dros y flwyddyn, mae'r Heddlu a'r Comisiynydd wedi parhau i weithio'n galed gyda'i gilydd i oresgyn heriau parhaus a gwnaed cynnydd mewn nifer o feysydd pwysig. Mae ffocws ar ymgysylltu â'r cyhoedd a chydweithio i ddiogelu pobl fregus wedi arwain at newid mewn ffocws, i ddarparu gofal eithriadol i ddioddefwyr fel y'i cydnabyddir yn genedlaethol bellach.

3.23 Mae canfyddiadau'r cyhoedd yn parhau i fod yn uchel o gymharu â mannau eraill yn y wlad gyda 63% yn barnu bod gwaith Heddlu Dyfed-Powys yn dda neu'n ardderchog (Data CSEW Rhagfyr 2019):

*<u>Canfyddiadau'r Cyhoedd - Da neu Ardderchog</u>*




3.24 Yn ystod mis Hydref 2018, cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (yr Arolygiaeth) yr arolygiad PEEL integredig blynyddol cyntaf o'r heddlu. Cafodd y canfyddiadau eu cyhoeddi ddiwedd mis Ebrill 2019 gyda'r graddau canlynol:

| Adran | Prawf | Canlyniad |
|---|---|---|
| Effeithiolrwydd | Pa mor effeithiol yw'r heddlu wrth leihau troseddau a chadw pobl yn ddiogel? | Da |
| Effeithlonrwydd | Pa mor effeithlon y mae'r heddlu'n gweithredu a pha mor gynaliadwy yw'r gwasanaethau mae'n eu darparu i'r cyhoedd? | Angen Gwella |
| Dilysrwydd | Pa mor ddilys y mae'r heddlu yn trin y cyhoedd a'i weithlu? | Angen Gwella |

3.25 Er bod y graddau'n siomedig, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gwbl ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth plismona o'r radd flaenaf i gymunedau Dyfed-Powys. Mae'r Heddlu wedi buddsoddi llawer o amser i geisio sicrhau dealltwriaeth well o'r materion y tynnwyd sylw atynt ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â nhw. Y gwanwyn hwn, derbyniodd yr Heddlu wahoddiad gan yr Arolygiaeth i dreialu eu fframwaith PEEL Asesu Parhaus yr haf hwn. Fodd bynnag, oherwydd dechrau'r pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020, ataliwyd yr holl weithgarwch arolygu gan yr Arolygiaeth hyd nes y ceir hysbysiad pellach. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw amserlen ar gyfer ailgychwyn hyn.

3.26 Roedd yr Arolygiaeth wedi cydnabod y cynnydd sylweddol y mae'r Heddlu'n ei wneud wrth ailstrwythuro gwasanaethau er mwyn cynnig cymorth arbenigol i gymunedau. Mae hefyd yn galonogol clywed canmoliaeth i waith y staff yng Nghanolfan Gyswllt yr Heddlu, sy'n llwyddo i adnabod pobl agored i niwed yn gyson. Mae'r Arolygiaeth hefyd wedi darparu adborth cadarnhaol ar y cynnydd a wnaed o ran y cyfeiriad strategol newydd a'r model ar gyfer Plismona Bro. Dyfarnwyd bod yr Heddlu'n dda wrth drin y cyhoedd yn deg sy'n dyst i'r gwaith a wneir bob dydd i gefnogi a diogelu cymunedau Dyfed-Powys.

3.27 Mae'r Comisiynydd a Grŵp y Prif Swyddogion yn glir iawn eu bod am gael diwylliant lle mae pawb yn teimlo y gallant leisio eu barn a herio ond roedd yn amlwg bod gwaith i'w wneud mewn perthynas â phryderon am degwch. Cynhaliodd yr Heddlu arolwg staff yn ystod 2019/20 gyda chyfradd ymateb o 52.5%. Mae'r canfyddiadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd gan Brifysgol Durham sy'n cynnal y gwaith ymchwil.

3.28 Yn ddiweddar, ailgyflwynodd yr Heddlu gais am achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae'r broses hon yn golygu cael asesiad annibynnol o’r Heddlu i gyd gan gynnwys ei arferion gwaith, ei arweinyddiaeth a'i ddiwylliant. Braf iawn yw nodi y dyfarnwyd y Wobr Aur fawreddog i'r Heddlu gan Buddsoddwyr mewn Pobl ym mis Ebrill 2020. Llai na 7% o’r sefydliadau sy’n ymgeisio ar gyfer y lefel hon o achrediad sy’n llwyddo, felly mae hyn yn gyflawniad sylweddol ac mae'n amlygu’r gwelliannau a wnaed mewn perthynas â'r dull o arwain, lles y staff a’r prosesau rheoli pobl.

3.29 Ategir hyn gan yr arolwg staff, a gynhaliwyd ar yr un pryd. Mae'r rhain yn rhoi cyfle gwych i Brif Swyddogion ddysgu am farn y gweithlu a gweithredu yn sgil hynny. Ategir hyn yn aml gan Sioeau Teithiol y Prif Swyddogion ac ychwanegir atynt ymhellach gan waith ymgysylltu ar-lein gan Brif Swyddogion ar lwyfannau megis "Holi’r Prif Swyddog”, y cyfryngau cymdeithasol a “Blog Grŵp y Prif Swyddogion”. Bydd y Prif Swyddogion yn adolygu'r adborth gan Buddsoddwyr mewn Pobl ynghyd â chanlyniadau'r arolwg staff er mwyn nodi a mynd i'r afael â phob cyfle i wella ymhellach.

3.30 Mae'r Heddlu wedi parhau i ad-drefnu gwasanaethau er mwyn ateb y galw ac wedi mynd gryn dipyn o'r ffordd i gyflawni llawer o'r egwyddorion cyflawni sy'n sail i'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Heddlu Dyfed-Powys sydd ag un o’r lefelau isaf o droseddau cofnodedig ac felly dyma un o’r lleoedd mwyaf diogel i fyw yng Nghymru a Lloegr gydag ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn parhau i fod yn uchel iawn. Fodd bynnag, cydnabyddir bod tirwedd plismona yn newid drwy'r amser, a bod llawer o waith i'w wneud o hyd i ateb heriau yn y dyfodol yn ogystal â mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn Adroddiad diweddaraf yr Arolygiaeth.

## 4.0 Y Model Sefydliadol

4.1 Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi'i drefnu ar sail ddaearyddol a swyddogaethol. Cefnogir y Prif Gwnstabl gan Dîm o Brif Swyddogion sy'n cynnwys y Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Dangosir prif gyfrifoldebau'r tair rôl sy'n cefnogi'r Prif Gwnstabl yn y tabl isod:

| Dirprwy Brif Gwnstabl | Prif Gwnstabl Cynorthwyol | Cyfarwyddwr Cyllid |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Pobl | Plismona Lleol | Cyllid Corfforaethol |
| Adran Gyfreithiol | Ymchwiliadau | Fflyd |
| Rheoli Gwybodaeth | Ymateb Arbenigol | Caffael |
| Cydweithredu ac Effeithlonrwydd | Canolfan Gyswllt | Systemau Gwybodaeth a Thecholeg |
| Cyfathrebu Corfforaethol | Cymorth Gwyddonol | Uned Cymorth Busnes |
| Ymddeol Oherwydd Salwch | Cyfiawnder Troseddol | |
| Ymgyrchoedd Mawr | Partneriaethau | |
| Iechyd a Diogelwch | | |
| Safonau Proffesiynol | | |

4.2 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, roedd gan Heddlu Dyfed-Powys 1,149 o Swyddogion yr Heddlu, 148 o Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu a 701 o Staff yr Heddlu, wedi'u cyllidebu. Dangosir dadansoddiad o'r dosbarthiad staffio yn y tabl isod:

**Breakdown of Budgeted Positions 2019-20**

| | Police Officers FTE | PCSO FTE | Police Staff FTE | Total FTE |
|---|---|---|---|---|
| Local Policing | 578 | 148 | 9 | 734 |
| Investigations | 297 | - | 159 | 456 |
| Operational Suppotr (Including Call Handling) | 166 | - | 155 | 321 |
| Criminal Justice | 1 | - | 51 | 52 |
| Scientific Support | 4 | - | 20 | 24 |
| Professional Standards | 9 | - | 14 | 23 |
| Other Headings including Business Support | 29 | - | 265 | 294 |
| Seconded and Funded Areas | 66 | - | 27 | 93 |
| | **1,149** | **148** | **701** | **1,999** |

| Swyddi wedi'u Cyllidebu 2019-20 | Swyddogion yr Heddlu FTE | SCCH FTE | Staff yr Heddlu FTE | Cyfanswm FTE |
|---|---|---|---|---|
| Plismona Lleol | 577 | 148 | 9 | 734 |
| Ymchwiliadau | 297 | 0 | 159 | 456 |
| Cymorth Gweithredol (gan gynnwys Ymdrin â Galwadau) | 166 | 0 | 155 | 321 |
| Cyfiawnder Troseddol | 1 | 0 | 51 | 52 |
| Cymorth Gwyddonol | 4 | 0 | 20 | 24 |
| Safonau Proffesiynol | 9 | 0 | 14 | 23 |
| Arall gan gynnwys Cymorth Busnes | 29 | 0 | 265 | 294 |
| Meysydd Secondiad ac wedi'u Hariannu | 66 | 0 | 27 | 93 |
| **Cyfanswm** | **1,149** | **148** | **700** | **1,997** |

4.3 Mae ymgyrchoedd recriwtio wedi cael eu cynllunio a'u rheoli'n ofalus yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau'r lefel orau bosibl o adnoddau, argaeledd sgiliau arbenigol a dosbarthu staff yn gymesur ar sail ddaearyddol. Mae trefniadau hyfforddi newydd wedi bod ar waith ers mis Mawrth 2019 o dan Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu sy'n golygu bod cwnstabliaid dan hyfforddiant yn parhau i gael eu recriwtio bob blwyddyn gyda darparwyr cyrsiau allanol yn darparu elfennau creiddiol o'u hyfforddiant.

4.4 Ym mis Ionawr 2020, croesawodd yr Heddlu ei garfan gyntaf o 22 o recriwtiaid a benodwyd o dan raglen Ymgyrch Uplift y Swyddfa Gartref sydd â'r nod o gynyddu nifer y Swyddogion Heddlu a gyflogir yn genedlaethol o 20,000 erbyn Mawrth 2023. Mae angen i hyd at 6,000 o Swyddogion fod yn eu gwaith erbyn mis Mawrth 2021 ac mae'r Heddlu wedi cael dyraniad o 42 o swyddi cwnstabl o'r dyraniad cychwynnol a gyhoeddwyd. Mae rhaglen recriwtio gynhwysfawr ar waith nid yn unig i gefnogi'r swyddogion ychwanegol ond hefyd i gymryd lle swyddogion sy'n gadael y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn. Er gwaethaf yr heriau a achosir gan bandemig y Coronafeirws, mae'r Heddlu ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed hwn. Bydd hyn yn golygu y bydd nifer y Swyddogion yn cynyddu i 1,181 erbyn y dyddiad hwn.

## 5.0 Perfformiad Ariannol

5.1 Mae'r Datganiad o Gyfrifon hwn yn dangos perfformiad ariannol y Prif Gwnstabl a chafodd ei baratoi ar sail arfer cyfrifyddu priodol sy'n bodloni gofynion Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r cyllidebau sy'n cael eu rheoli a'u monitro o ddydd i ddydd gan fod y rhain yn hepgor rhai elfennau megis dibrisiant a symudiadau ar rwymedigaethau pensiwn nad oes angen o dan statud eu cyllido'n llawn yn ystod y flwyddyn.

5.2 Mae cost gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos bod £138.1 miliwn wedi cael ei wario ar ddarparu gwasanaethau plismona i gyhoedd Heddlu Dyfed-Powys yn 2019/20 cyn ystyried effaith dyfarniad McCloud / Sargeant ar gostau pensiwn gwasanaeth yn y gorffennol.

5.3 Mae'r Datganiad yn darparu dadansoddiad o brif elfennau’r costau. Mae'r elfennau wedi'u diwygio o gymharu â blynyddoedd blaenorol i adlewyrchu newidiadau o ran adroddiadau ariannol sydd wedi'u gweithredu'n fewnol gan yr Heddlu yn ystod 2019/20. Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan at ddibenion cymharu. Er enghraifft, gellir gweld mai ar Swyddogion yr Heddlu y gwariwyd yr elfen fwyaf, a oedd yn cyfrif am £64.472 miliwn o'r cyfanswm yn 2019/20.

5.4 Mae cost y gwasanaeth yn gyffredinol tua £9 miliwn yn fwy na'r ffigur cyfatebol a wariwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol. O'r cynnydd hwn, gellir priodoli oddeutu £3.2 miliwn i chwyddiant cyflogau a phrisiau, gellir priodoli £3.0 miliwn i gynnydd yng nghyfraniadau pensiwn swyddogion yr heddlu, gyda'r gweddill yn briodoladwy i gynnydd wedi’i gyllidebu mewn taliadau ar gyfer asiantaethau a chontractau ar gyfer gwasanaethau cenedlaethol a chydweithredol, cynnydd wedi’i gyllidebu ar gyfer staff yr heddlu yn ogystal â mewn categorïau eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflog gan gynnwys TGCh. Adroddwyd effaith dyfarniad McCloud / Sargeant ar gostau pensiwn yn y gorffennol ar gyfer y cynlluniau swyddfa a chynlluniau staff wedi’u nodi ar wahân ond o fewn cost gyffredinol y gwasanaeth oherwydd eu harwyddocâd.

5.5 Mae'r Fantolen yn rhoi cipolwg ar asedau a rhwymedigaethau'r Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2020. Mae'r holl asedau cyfalaf (fel adeiladau a cherbydau) a chronfeydd wrth gefn yn eiddo i'r Comisiynydd ac felly nid ydynt wedi’u cynnwys.

5.6 Y swm mwyaf ar Fantolen y Prif Gwnstabl yw'r rhwymedigaeth hirdymor o £1,442 miliwn (£1,371 miliwn yn flaenorol) mewn perthynas â rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol i swyddogion a staff yr heddlu. Dyna'r swm y byddai angen ei neilltuo ar ddyddiad y fantolen ar gyfer taliadau pensiynau'r holl swyddogion a staff presennol ac ymddeoledig yn y dyfodol. Cyfrifwyd y ffigur hwn yn annibynnol ar sail actiwaraidd ac mae'n ystyried lefelau cyflog, chwyddiant, cyfraddau marwolaethau ac ati yn y dyfodol. Mae wedi cynyddu £71 miliwn yn ystod y flwyddyn yn bennaf oherwydd newidiadau mewn tybiaethau ariannol a demograffig, effaith dyfarniad McCloud / Sargeant ac effaith Pandemig y Coronafeirws ar werth prisiadau asedau'r Cynllun Llywodraeth Leol. Bydd y Llywodraeth yn talu am holl gostau pensiwn presennol swyddogion yr heddlu, a chostau yn y dyfodol, ac felly mae’n ddyledwr sy’n gwrthbwyso, fel y dangosir yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl.

5.7 Mae manylion a dadansoddiadau pellach mewn perthynas ag eitemau’r Fantolen wedi'u cynnwys yn y nodiadau i'r cyfrifon.

*Dadansoddiad o Berfformiad Ariannol ac Amrywiannau 2019/20*

5.8 Pennodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyllideb o £105.595 miliwn fel Cyllideb Refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 a ymgorfforodd ddefnydd o gronfeydd wrth gefn o £0.981 miliwn yn ogystal ag arbedion ariannol o £2.932 miliwn a dynnwyd o'r cyllidebau llinell sylfaen. Roedd yr arbedion hyn y gellir eu troi'n arian i'w cyflawni ar draws nifer o fentrau gan gynnwys strwythurau'r gweithlu, trefniadau cydweithio, datblygiadau TGCh, cynhyrchu incwm a gostyngiadau sylweddol mewn gwariant nad yw’n ymwneud â chyflogau a ddarparwyd drwy fentrau caffael a mentrau lleihau costau eraill.

5.9 Roedd y gyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth o 2% ar gyfer dyfarniadau cyflog swyddogion a staff a chynnydd o 2% mewn chwyddiant cyffredinol ar gostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau. Profodd y dybiaeth hon i fod yn heriol gyda chynnydd cyflog o 2.5% yn cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Cartref ar gyfer

Swyddogion yr Heddlu a chytunwyd hefyd ar gynnydd o 2.5% ar gyfer staff yr Heddlu yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Hefyd, ym mlwyddyn ariannol 2019/20, gweithredwyd canlyniad prisiad pensiwn swyddogion yr heddlu a arweiniodd at gynyddu cyfraniadau pensiwn cyflogwyr ar gyfer swyddogion o 24.2% yn 2018/19 i 31% yn 2019/20, er bod grant penodol newydd wedi'i ddyrannu i liniaru tua hanner y costau ychwanegol.

5.10 O'r gyllideb gyfan, pennwyd £99.6 miliwn fel y gyllideb ar gyfer y Prif Gwnstabl. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth swm o £1.302 a dalwyd gan y Swyddfa Gartref fel grant pensiwn penodol i wrthbwyso'n rhannol y cynnydd mewn costau y cyfeiriwyd ato uchod.

5.11 Ar ôl cydnabod maint yr heriau ariannol yr oedd yr Heddlu yn eu hwynebu, sefydlodd y Prif Gwnstabl grŵp Cyllid Aur yn ystod 2018/19. Parhaodd y grŵp Aur hwn tan yn agos at ddiwedd 2019; fe'i cadeiriwyd gan y Prif Gwnstabl ac roedd pob uwch reolwr yn bresennol er mwyn sicrhau bod ymagwedd gydlynol a chlir iawn tuag at reolaeth ariannol a dealltwriaeth ar draws y sefydliad. Mae gwaith y grŵp hwn bellach wedi'i gynnwys yn llawn yn y trefniadau llywodraethu diwygiedig gyda'r Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a Dyfodol sydd newydd ei sefydlu.

5.12 Sefydlwyd pedwar is-grŵp penodol, ac mae'r rhain yn parhau i weithredu gyda chynrychiolaeth benodol.

- **cynllun ariannol tymor canolig** i ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn, arbedion effeithlonrwydd, lefelau cyllid ac adnoddau yn y dyfodol
- **goramser** i gynnal adolygiad beirniadol o drefniadau a gofynion;
- **caffael** i gynnal adolygiad beirniadol o drefniadau a gwariant ar gontractau a chyflenwadau a gwasanaethau
- **cynhyrchu incwm** i geisio cyfleoedd a manteisio i'r eithaf arnynt.

5.13 Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2019/20 ac yn ei chymharu â'r gyllideb wreiddiol. Paratoir y Datganiad hwn ar sail wahanol i'r wybodaeth a gynhwysir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'n adlewyrchu'r cyllidebau sy'n cael eu rheoli a'u monitro o ddydd i ddydd o fewn yr Heddlu ac yn hepgor rhai elfennau megis dibrisiant a symudiadau ar rwymedigaethau pensiwn nad oes angen o dan statud eu cyllido'n llawn yn ystod y flwyddyn.

5.14 Dangosir cyllideb ddiwygiedig hefyd yn y datganiad o amrywiant hwn sy'n adlewyrchu cyllidebau a symudiadau ychwanegol a broseswyd yn ystod y flwyddyn. Caiff trosglwyddiadau eu prosesu yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn cael ei diweddaru'n amserol. Cafodd y newidiadau i'r gyllideb y cyfeirir atynt isod eu diweddaru a'u cyhoeddi yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd Plismona a'r Byrddau Atebolrwydd Plismona cyhoeddus chwarterol a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn.

| Datganiad Amrywiannau | Cyllideb Wreiddiol £'000 | Cyllideb Ddiwygiedig £'000 | Gwirioneddol £'000 | Amrywiant (Cadarnhaol am Arbediad) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Holl Gostau Cyllideb Refeniw'r Comisiynydd** | **5,977** | **5,939** | **5,951** | **-12** |
| **Prif Gwnstabl** | | | | |
| Cyflogau a Lwfansau'r Heddlu | 62,667 | 62,665 | 62,334 | 331 |
| Goramser Swyddogion yr Heddlu | 1,712 | 1,712 | 1,499 | 213 |
| Gwyliau Banc | 625 | 625 | 622 | 3 |
| Cyflogau a Lwfansau Staff yr Heddlu | 27,817 | 27,870 | 27,908 | -38 |
| Goramser Staff yr Heddlu | 196 | 141 | 98 | 43 |
| Costau Pensiynau | 1,609 | 1,609 | 1,647 | -38 |
| Recriwtio a Hyfforddi | 1,053 | 1,021 | 1,232 | -211 |
| Costau Eraill nad ydynt yn Ymwneud â Chyflog | 8,868 | 9,448 | 9,257 | 191 |
| Dadansoddi Galwadau a Gwaith Fforensig | 1,976 | 2,107 | 2,174 | -67 |
| Taliadau Cydweithredu | 3,309 | 3,321 | 2,990 | 331 |
| Grantiau | -6,658 | -6,136 | -6,371 | 235 |
| Incwm | -2,052 | -3,069 | -3,460 | 391 |
| Ariannu Cyfalaf | 776 | 842 | 911 | -69 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | -981 | -1,012 | -1,460 | 448 |
| Didyniadau | 0 | -190 | -226 | 36 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Adrannol - yr Heddlu** | **100,917** | **100,954** | **99,155** | **1,799** |
| Cyfrif Dal - Gan Bwyll | 0 | 0 | 400 | -400 |
| Gan Bwyll - Trosglwyddiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn | 0 | 0 | -400 | 400 |
| Cyfrifon Dal Eraill | 3 | 4 | -1 | 5 |
| Grant Pensiynau – Penodol | -1,302 | -1,302 | -1,302 | 0 |
| **Cyfanswm y Gyllideb – yr Heddlu** | **99,618** | **99,656** | **97,852** | **1,804** |
| **Gwariant Net gan yr Heddlu a'r Comisiynydd** | **105,595** | **105,595** | **103,803** | **1,792** |
| Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn a Chyllid Cyfalaf | | | | |
| Swm y Gronfa Gyfalaf a Ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | -3,150 | -1,548 | -822 | -726 |
| **Cronfa Gyfalaf - Cyllid Refeniw Uniongyrchol** | **3,150** | **1,548** | **822** | **726** |
| Gostyngiad yn y Defnydd Arfaethedig o Gronfeydd Refeniw | 0 | 0 | 416 | -416 |
| Creu Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi - COVID-19 | 0 | 0 | 650 | -650 |
| Gwariant nad yw'n Gwella a ariennir gan Refeniw | 0 | 0 | 191 | -191 |
| Cyllid Refeniw Uniongyrchol i Leihau Benthyca | 0 | 0 | 535 | -535 |
| **Cyfanswm Symudiadau Cronfeydd Refeniw** | **0** | **0** | **1,792** | **-1,792** |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | **105,595** | **105,595** | **105,595** | **0** |

Mae'r sefyllfa alldro derfynol a nodwyd yn y Datganiad o Amrywiant uchod yn dangos bod cyllideb Refeniw'r Comisiynydd yn agos at y targed ar y cyfan, gan ei bod £12k yn uwch na'r nod. Mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i chynnwys yng Nghyfrifon y Grŵp.

5.15 Mae'r Datganiad yn dangos bod costau'r Prif Gwnstabl £1,804k islaw'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn. Rhoddir esboniad o'r prif resymau dros yr amrywiannau mwyaf sylweddol yn erbyn y gyllideb ar gyfer 2019/20 isod:

i. Cyflogau a Lwfansau Swyddogion yr Heddlu: At ei gilydd, roedd tanwariant o £331k yn y gyllideb hon ar ddiwedd y flwyddyn. Mae effaith costau ychwanegol y dyfarniad cyflog o 2.5% a ddaeth yn daladwy o fis Medi 2019 wedi ei gwrthbwyso i raddau helaeth gan swyddi gwag, ymddeoliadau cynharach a throsglwyddiadau swyddogion yr heddlu. Roedd y cynnydd hwn 0.5% yn uwch na'r 2% a ragwelwyd yn y gyllideb.

ii. Goramser Swyddogion a Staff yr Heddlu: Cyfyngwyd ar wariant goramser ymhell o fewn y gyllideb am y flwyddyn er gwaethaf gweithgarwch eithaf sylweddol ar rai digwyddiadau mawr yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Goramser wedi bod yn allweddol o ran sicrhau arbedion o £213k a £43k yn y penawdau goramser ar gyfer swyddogion a staff yr heddlu, yn y drefn honno.

iii. Penawdau Lwfansau a Gwyliau Banc Swyddogion yr Heddlu: Rheolwyd y penawdau hyn yn dda ac fe’u cadwyd o fewn y gyllideb am y flwyddyn; cofnodwyd arbedion o £2k mewn perthynas â gweithio ar Wyliau Banc.

iv. Cyflogau a Lwfansau Staff yr Heddlu: Roedd y rhain £38k dros y gyllideb o ganlyniad i daliadau ar alwad ychwanegol a rhai ailraddiadau hanesyddol ar gyfer staff.

v. Costau Pensiynau Swyddogion yr Heddlu: Roedd taliadau pensiwn £38k yn fwy na'r gyllideb o ganlyniad i benderfyniadau ynghylch dyfarniadau sefydlogrwydd ac anafiadau a gymerwyd ym mis Mawrth ar sail feddygol.

vi. Recriwtio a Hyfforddi: Gorwariodd yr Heddlu o £211k ar y gyllideb yn erbyn y penawdau hyn. Aed i gostau ychwanegol wrth recriwtio, asesu a hyfforddi i gefnogi Rhaglen Ymgyrch Uplift yn ystod y flwyddyn. Recriwtiwyd carfan ychwanegol o 22 o swyddogion ym mis Ionawr i gefnogi'r fenter Genedlaethol i gynyddu niferoedd swyddogion o 20,000 erbyn Mawrth 2023 a 6,000 erbyn Mawrth 2021. Cafodd y costau ychwanegol hyn eu gwrthbwyso i ryw raddau gan Grant ychwanegol o £203k (gweler isod).

vii. Costau Eraill nad ydynt yn Ymwneud â Chyflog: Cofnodir arbediad o £191k yn erbyn y pennawd hwn. Gohiriwyd y caffaeliadau a gynlluniwyd mewn perthynas â System Cyfryngau Digidol (£160k) a phrynu oergelloedd newydd at ddibenion arddangosion troseddau (£47k) hyd at flwyddyn ariannol 2020/21 o ganlyniad i broblemau cyflenwi a chaffael.

viii. Dadansoddi Galwadau a Gwaith Fforensig: Disgwylid i gyfyngiadau mewn perthynas â gwaith Fforensig Digidol a’r maes Cymorth Gwyddonol Fforensig arwain at arbedion yn erbyn y cyllidebau hyn, ond cawsant eu gwrthwneud gan gostau ychwanegol yn gysylltiedig â gweithgarwch gweithredol penodol ar ddiwedd y flwyddyn gan adael gorwariant bach o £67k ar ddiwedd y flwyddyn.

ix. Taliadau Asiantaethau a Chydweithredu: Ni wireddwyd y tanwariant a ragamcanwyd mewn perthynas â thaliadau cydweithredu gyda'r Uned Troseddau Trefnedig Rhanbarthol a phrofwyd tanwariant yn erbyn cyllid a neilltuwyd ar gyfer y Cyd-Uned Arfau Saethu a arweiniodd at danwariant net o £332k yn gyffredinol yn erbyn pob pennawd yn ymwneud ag asiantaethau. Yn ogystal, gweithredwyd rhai newidiadau o ran staffio yn ystod y flwyddyn a leihaodd gostau net y tîm cydweithredu canolog.

x. Grantiau: Roedd penawdau grantiau ar y trywydd iawn i raddau helaeth yn ystod y flwyddyn yn gyffredinol. Fel y nodwyd uchod, cafodd yr Heddlu gyllid Grant ychwanegol o £203k yn y flwyddyn mewn perthynas â Rhaglen Ymgyrch Uplift nad oedd wedi cyllidebu ar ei chyfer sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r amrywiant o £235k yn gyffredinol.

xi. Incwm: Cafodd yr Heddlu £391k ychwanegol yn erbyn y swm a gyllidebwyd erbyn diwedd y flwyddyn a wnaeth wrthdroi'r duedd a adroddwyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn rhagamcanu diffyg. Yn y diwedd, roedd y diffyg mewn incwm a ragwelwyd mewn perthynas â derbyniadau llog, trwyddedau arfau saethu, incwm costau erlyn a derbyniadau cydgymorth yn is na’r dybiaeth ddarbodus. Cafodd yr Heddlu hefyd hysbysiad ym mis Mawrth 2020 bod y Swyddfa Gartref wedi darparu £1 miliwn o gyllid ychwanegol i Heddlu De Cymru er mwyn talu costau'r Rhaglen PEQF (Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona) yn lle cyfraniadau Prentisiaeth. Yn dilyn cyflwyno hawliad dyfarnwyd £250k i Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer 2019/20.

xii. Ariannu Cyfalaf: Mae'r Tabl uchod yn dangos gorwariant net o £69k yn erbyn taliadau cyllido cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Arbedwyd swm o £120k yn erbyn y gyllideb hon mewn perthynas ag ad-dalu dyledion a thaliadau llog o ganlyniad i'r penderfyniad i beidio â benthyca yn y flwyddyn oherwydd llithriant mewn gwariant cyfalaf ac yn lle'r sefyllfa gyffredinol o ran gwariant yn erbyn y gyllideb. Yn ogystal, cymeradwywyd trosglwyddiad o £403k o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi gan y Comisiynydd i gefnogi nifer o gynlluniau cyllid cyfalaf cymwys yn ystod y flwyddyn a oedd yn cynnwys prynu cerbydau ychwanegol ac offer fideo ar gyfer ceir.

xiii. Trosglwyddiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn: Ynghyd â'r defnydd cynlluniedig o'r gronfa benodol i gefnogi'r gyllideb refeniw, gweithredodd yr Adran Gyllid nifer o drosglwyddiadau o Gronfeydd Penodol wedi'u Clustnodi ac arian ar gyfer symiau a gymeradwywyd gan y Comisiynydd mewn perthynas â nifer o gynlluniau cyfalaf a refeniw cysylltiedig a gweithgareddau fel y nodwyd uchod. Roedd cyfanswm y trosglwyddiad o'r cronfeydd wrth gefn £448k yn uwch na'r hyn a neilltuwyd yn y gyllideb ddiwygiedig.

5.16 Mae cyllideb yr Heddlu hefyd yn cynnwys cyfrifon dal sy’n hunan-gydbwyso mewn perthynas â Gan Bwyll, Ailhyfforddi Gyrwyr, swyddi a ariennir ar y cyd a Secondiadau. Roedd y rhain yn cyrraedd y nod i raddau helaeth o'u cymharu â'r gyllideb. Roedd angen trosglwyddo £400k o'r cronfeydd wrth gefn i wrthbwyso costau'r Cynllun Gan Bwyll a ariannwyd o Gronfa Benodol a oedd yn cael ei chynnal ar ran Gan Bwyll i gefnogi ei weithgareddau yn y dyfodol mewn perthynas â chyfalaf a refeniw.

5.17 Yn gyffredinol, mae'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn gadarnhaol iawn, sy’n ymddangos yn bur dderbyniol o ystyried maint yr heriau ariannol sydd i ddod mewn

perthynas â gweithgarwch a chostau parhaus parthed y Coronafeirws yn 2020/21 a'r heriau ariannol yn y dyfodol a ddaw yn ei sgil yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ac o Ymgyrch Uplift ac ystyriaethau fformiwla gyllido. Mae'r heddlu wedi arfer cryn reolaeth ariannol a gofal yn ystod y flwyddyn er gwaethaf rhai heriau gweithredol ac ariannol sylweddol gan gynnwys dyfarniadau cyflog a oedd yn uwch nag y cyllidebwyd ar eu cyfer. Mae'r Heddlu hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas ag Ymgyrch Uplift, gan recriwtio 22 o swyddogion ychwanegol ym mis Ionawr 2020 fel rhan o'r rhaglen hon. Yn weithredol ac yn sefydliadol, mae'r Heddlu wedi parhau i berfformio'n gryf ac wedi gwneud llawer o welliannau fel yr amlinellir yn Adran 4.0 uchod.

5.18 Mae adran olaf y Tabl uchod yn dangos y symudiadau net ar gronfeydd wrth gefn a chyllid cyfalaf o gymharu â'r gyllideb. Roedd gwariant cyfalaf yn is na’r proffil yn gyffredinol a oedd yn golygu bod y trosglwyddiad o'r Gronfa Gyfalaf a glustnodwyd tua £726k yn is na'r disgwyl.

5.19 Trafodwyd y sefyllfa alldro Derfynol yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a gynhaliwyd ar 11 Mai 2020. Roedd y Bwrdd Plismona eisoes wedi ystyried ac wedi derbyn papur a argymhellodd, yn amodol ar y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, y dylid creu cronfa Covid-19 newydd o £650k, fel mesur darbodus dros dro yn niffyg unrhyw sefyllfa gadarn o ran cyllid cenedlaethol. Roedd y papur yn amlinellu'r costau ychwanegol sylweddol a oedd yn ymwneud â chaffael Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a'r costau yr aed iddynt wrth reoli'r gwaith plismona a’r ymateb sefydliadol cychwynnol i bandemig y Coronafeirws, a ddaeth i gyfanswm o £150k ar gyfer 2019/20. Ceisiodd hefyd ragweld y goblygiadau ariannol yn fisol hyd at fis Medi 2020 gan ystyried ystod o gostau, effeithiau ar incwm ynghyd â meysydd lle y gellid gwneud arbedion posibl. Cymerodd yr heddlu gamau cyflym i sicrhau bod lefelau priodol o Gyfarpar Diogelu Personol ar gael i sicrhau diogelwch y gweithlu.

5.20 Yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ar 11 Mai 2020, cytunwyd hefyd y dylid gweithredu Trosglwyddiad Refeniw Uniongyrchol ychwanegol er mwyn atal yr angen i'r Comisiynydd fenthyca i ariannu gwariant cyfalaf ym maes Ystadau yn 2019/20. Roedd hyn yn gyfanswm o £535k ar gyfer y flwyddyn. Hefyd, roedd angen ystyried ariannu gwariant nad yw'n gwella mewn perthynas â chynlluniau cyfalaf y gyllideb Refeniw gydag arferion cyfrifyddu priodol, sy’n cyfateb i £190k ac a fyddai hefyd yn lliniaru yn erbyn benthyciadau ar gyfer prosiectau TGCh yn y dyfodol.

5.21 Mae hyn wedi gadael gostyngiad net yn yr angen i drosglwyddo cyllid o'r Gronfa Refeniw wedi’i Chlustnodi o £416k a fydd yn cael ei ddefnyddio i wrthbwyso'r pwysau cyllidebol cyffredinol a ddisgwylir yn y blynyddoedd i ddod. Cytunwyd y byddai'r sefyllfa hon yn cael ei hailystyried yn yr Hydref pan fydd y darlun o ran cyllid cenedlaethol i gefnogi pandemig y Coronafeirws a'r pwysau a'r goblygiadau ariannol y sonnir amdanynt uchod wedi dod yn gliriach, gobeithio.

5.22 Roedd y sefyllfa alldro refeniw derfynol yn cynnwys nifer o drosglwyddiadau i mewn ac allan o gronfeydd wrth gefn, fel y dangosir yn y tabl canlynol. Gellir gweld bod cyfanswm y cronfeydd wrth gefn wedi gostwng o £16.2 miliwn i £14.6 miliwn yn ystod y flwyddyn, sef gostyngiad o £1.641 miliwn.

| Reserve Category | Opening Bal 1/4/19 | Closing Bal 31/3/20 | Net Movement (-ve = Use of Reserve) | Original Budgeted - Movement | Difference | Reason |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| General Reserves | 4,032 | 4,032 | 0 | 0 | 0 | No Use of General Reserves budgeted or needed |
| **Total General Reserve** | **4,032** | **4,032** | **0** | **0** | **0** | |
| | | | | | | |
| Go Safe Revenue Reserve | 531 | 313 | -218 | 0 | -218 | Go Save - Utilisation of Reserve in year |
| Earmarked Revenue Reserve | 1,336 | 774 | -562 | -977 | 415 | Net contribution from reserves |
| COVID 19 Reserve | 0 | 650 | 650 | 0 | 650 | New Reserve to offset Covid 19 cash flows |
| Sustainability and Transformation Reserve | 494 | 494 | 0 | 0 | 0 | No Eligible Spending against this Reserve |
| Drug Intervention Prog Reserve | 135 | 135 | 0 | -40 | 40 | No Eligible Spending against this Reserve |
| Driver Retraining Scheme Reserve | 1,294 | 870 | -424 | -368 | -56 | Additional allocations Authorised |
| Incentivisation Revenue Reserve | 218 | 162 | -56 | -39 | -17 | Additional allocations Authorised |
| Collaboration Revenue Reserve | 389 | 262 | -127 | 0 | -127 | To Meet Eligible Collaoration Spending |
| Chief Constable Operational Fund | 385 | 485 | 100 | 100 | 0 | As budgeted reached threshold of £500K |
| **Total Earmarked Revenue Reserves** | **4,782** | **4,145** | **-637** | **-1,324** | **687** | |
| | | | | | | |
| Other Earmarked Capital Reserves | 5,786 | 4,964 | -822 | -3,150 | 2,328 | |
| Go Safe Capital Reserve | 1,190 | 1,008 | -182 | 0 | -182 | Purchase of Vehicles - GO Safe |
| **Earmarked Capital Reserve** | **6,976** | **5,972** | **-1,004** | **-3,150** | **2,146** | |
| | | | | | | |
| **USEABLE RESERVES SUBTOTAL** | **15,790** | **14,149** | **-1,641** | **-4,474** | **2,833** | |
| | | | | | | |
| General Capital Grant | 426 | 426 | 0 | 0 | 0 | No Eligible Spending against this Grant |
| **Capital Grants Unapplied** | **426** | **426** | **0** | **0** | **0** | |
| | | | | | | |
| **TOTAL USEABLE RESERVES** | **16,216** | **14,575** | **-1,641** | **-4,474** | **2,833** | |

5.23 Mae sefyllfa derfynol y cronfeydd wrth gefn ar gyfer y Comisiynydd yn dangos ffigur o £14.575 miliwn a ddaliwyd ar 31 Mawrth 2020. Mae hyn yn cynnwys swm o £4.964 miliwn i gefnogi ymrwymiadau'r gyllideb gyfalaf yn y dyfodol, cronfa gyffredinol wrth gefn o £4.032 miliwn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a swm o £0.774 miliwn sydd ei angen i ariannu cyfraniadau a diffygion refeniw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a ragwelir yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys balans o £1.321 miliwn a ddelir ar ran partneriaeth diogelwch ffyrdd "Gan Bwyll" a £0.262 miliwn a ddelir ar gyfer trefniadau cydweithio rhanbarthol. Mae nifer o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a ddelir i gefnogi prosiectau penodol gan gynnwys cronfeydd wrth gefn i gefnogi prosiectau cynaliadwyedd a thrawsnewid gwerth £0.494 miliwn, a chronfa weithredol o £0.485 miliwn i helpu'r heddlu i ddelio â chyfnodau prysur a thawel mewn gweithgarwch gweithredol. Mae cronfa wrth gefn newydd o £0.650 miliwn wedi'i chreu i dalu costau Covid-19 ychwanegol o ran PPE a chostau eraill fel mesur dros dro nes daw'r darlun ar Gyllid Cenedlaethol ar gyfer 2020/21 ac ar setliadau yn y dyfodol yn gliriach.

## 6 Risgiau, Cyfleoedd a'r Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig

6.1 Caiff risgiau eu rheoli ar bob lefel yn y sefydliadau drwy'r Strwythur Llywodraethu a defnyddir Cofrestr Rheoli Risg i gofnodi, rheoli a lliniaru'r prif risgiau a allai effeithio ar y gwaith o gyflawni canlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen fyw a gaiff ei diweddaru o leiaf unwaith yr wythnos. Ymhlith y prif risgiau sy'n parhau i'n hwynebu ddiwedd 2019/20 mae:

- Cofnodi Troseddau a'r Arolygiaeth yn peri pryder
- Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu – oedi a chywirdeb data ac uniondeb
- Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu ac Asedau Gwybodaeth – anghysondeb o ran setiau data
- Cadernid ariannol a chyflawni cynlluniau arbed Llywodraethu a rheolaethau ariannol mewn perthynas â gweithgareddau Cydweithio
- Cynaliadwyedd marchnadoedd fforensig allanol
- Mae cofrestr risg benodol wedi'i sefydlu i ystyried risgiau sy'n deillio o bandemig y Coronafeirws

6.2 Caiff y Gofrestr Risg ei monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod risgiau yn cael eu dyrannu i berchennog sy'n gyfrifol am gymryd camau lliniaru priodol. Ceir rhagor o fanylion am reoli risg yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd a gynhwysir fel rhan o'r ddogfen hon.

6.3 O ran y Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi wynebu heriau ariannol sylweddol ers 2010 oherwydd gostyngiadau yn y cyllid gan lywodraeth ganolog ynghyd â phwysau costau a newidiadau parhaus yn y galw am wasanaethau plismona.

6.4 Ym mis Medi 2019, datganodd y Llywodraeth ei bod wedi "troi'r dudalen ar gyni" gyda'r Canghellor yn cyhoeddi ymrwymiad i daclo trosedd a chadw pobl yn ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer 6,000 o swyddogion heddlu ychwanegol ledled Cymru a Lloegr fel rhan o ymrwymiad ehangach i recriwtio 20,000 o swyddogion ychwanegol. Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y dyraniadau cychwynnol ar gyfer Ymgyrch Uplift ar 9 Hydref 2019, gan arwain at 42 o swyddogion ychwanegol ar gyfer Dyfed-Powys. Nid oes unrhyw arwydd eto ynghylch yr ail garfan o swyddogion ychwanegol.

6.5 Wrth amlinellu'r setliadau, cydnabu'r Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Plismona yr ymgysylltiad cynhyrchiol a gawsant â'r gwasanaeth, a oedd wedi rhoi darlun cliriach o natur newidiol y galwadau a'r galluoedd sydd eu hangen i ymateb yn gadarn i'r heriau. Talwyd teyrnged ganddynt hefyd i heddluoedd a staff yr heddlu ledled y wlad am eu dewrder, eu hymroddiad a'u gwaith caled eithriadol, ac amlinellwyd bwriad i ddarparu'r adnoddau yr oedd ar y gwasanaeth eu hangen er mwyn mynd i'r afael â throseddu, delio'n gadarn â'r troseddwyr sy'n ecsbloetio pobl fregus a gwella canlyniadau i ddioddefwyr troseddau.

6.6 Y setliad grant ar gyfer Dyfed-Powys yn 2020/21 oedd £56.617m, sef £4.967m yn uwch na 2019/20. Roedd y setliad hwn yn cynnwys parhau â'r grant penodol o £1.302m a gyflwynwyd i liniaru'n rhannol y pwysau a ddeilliai o'r newidiadau i gyfradd cyfraniadau cyflogwyr ar gyfer pensiynau Swyddogion yr Heddlu. Mae'r setliad hefyd yn cynnwys cynnydd mewn cyllid craidd o £3.768m ynghyd â grant penodol wedi'i glustnodi o £1.190 miliwn i gefnogi costau recriwtio a seilwaith y swyddogion

ychwanegol. Roedd y setliad hefyd yn adlewyrchu gostyngiad sylweddol yn nyraniad y grant cyfalaf o £325k i £85k.

6.7 Yn dilyn proses graffu fanwl a thrafodaethau ynglŷn â thybiaethau ariannol, risgiau sy'n parhau i fygwth y blaenoriaethau o ran cymunedau a buddsoddi, cyflwynodd y Comisiynydd ei gynnig praesept ar gyfer 2020/21 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar 7 Chwefror 2020. Roedd y broses hon yn cynnwys nifer o seminarau a chyflwyniadau i'r Comisiynydd, ei staff, Bwrdd Gweithredol Heddlu Dyfed-Powys, cynrychiolwyr o Archwilio Cymru (a elwid gynt yn Swyddfa Archwilio Cymru), y Cyd-bwyllgor Archwilio, ac Aelodau’r Panel Heddlu a Throseddu.

6.8 Cefnogwyd cynnig y Comisiynydd yn unfrydol, a oedd yn codi'r praesept cyfartalog ar gyfer eiddo band D o £12 i £260.56, cynnydd o 4.83% sy’n codi cyfanswm praesept o £58.793m. Bydd hyn yn rhoi cyfanswm cyllid canolog a lleol o £115.402m sy'n cynrychioli cynnydd o 7.96% ar lefelau ariannu yn 2019/20.

6.9 Mae hyn, unwaith eto, yn golygu mai praesept Heddlu Dyfed-Powys, sef £260.56, yw'r isaf yng Nghymru o gymharu â £272.71 yn Ne Cymru, £273.39 yng Ngwent a £290.61 yng Ngogledd Cymru. Mae'n werth tynnu sylw hefyd at y ffaith bod Dyfed-Powys wedi cael y cynnydd isaf ond pedwar ym mhraesept y dreth gyngor ledled Cymru a Lloegr ers 2012/13.

6.10 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys cynnydd tybiedig o 5% yn y praesept o flwyddyn i flwyddyn ac yn ymgorffori twf tybiedig o 2.25% mewn cyflog a phwysau chwyddiant o 2021/22 ymlaen gan fodelu pwysau cynnydd a chostau uwch hysbys a grantiau penodol a allai gael eu colli. Hefyd, mae wedi cynnwys y lleihad parhaus yn y cyfraniad blynyddol o gronfeydd wrth gefn a chynnydd ychwanegol mewn cyfraniadau o ran cyllid a thaliadau cyfalaf i gefnogi'r Blaenraglen Gyfalaf. Mae gwariant ychwanegol pellach ar nifer o flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ynghyd â'r costau ychwanegol sy'n deillio o newidiadau i bensiynau'r heddlu, wedi cael eu cynnwys.

6.11 Mae'r Heddlu'n parhau i nodi mesurau effeithlonrwydd ac mae ganddo gynllun lleihau costau sy'n anelu at fanteisio ar fentrau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gan gynnwys y Bwrdd Masnachol Cenedlaethol, Cwmni TGCh yr Heddlu a gweithgarwch cydweithio drwy Gymru gyfan. Mae'r cynllun hwn yn tybio y caiff y gweithlu a'r sylfaen costau eu had-drefnu drwy effeithlonrwydd a chynhyrchiant ond bydd rhaid parhau i ddatblygu hyn i alluogi'r Comisiynydd a'r Heddlu i bennu sefyllfa Ariannol Tymor Canolig gytbwys a ariennir ar gyfer refeniw a chyfalaf gan warchod safon y gwasanaeth a roddir i gymunedau Dyfed-Powys.

| CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG – REFENIW | 20-21 £M | 21-22 £M | 22-23 £M | 23-24 £M | 24-25 £M | 25-26 £M |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid Canolog a Lleol | | | | | | |
| Cyllid Canolog Rhagamcanol** | -56.6 | -57.7 | -58.8 | -59.9 | -61.0 | -62.2 |
| Praesept Lleol | -58.8 | -62.2 | -65.9 | -69.7 | -73.8 | -78.1 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **-115.4** | **-119.9** | **-124.7** | **-129.6** | **-134.8** | **-140.3** |
| Gwariant Refeniw | 116.7 | 121.6 | 126.8 | 131.9 | 136.5 | 141.8 |
| **Gwariant Refeniw** | **116.7** | **121.6** | **126.8** | **131.9** | **136.5** | **141.8** |
| Cynllun Lleihau Costau yn y Dyfodol | | | | | | |
| Cysylltiedig â Chyflog | -0.1 | -0.1 | -0.1 | -0.1 | -0.1 | |
| Cynhyrchu Incwm / Caffael | -0.7 | -0.2 | -0.2 | -0.1 | -0.1 | -0.1 |
| Rheolaeth Ariannol | -0.1 | | | | | |
| Asedau / Prosiectau Cynaliadwyedd | -0.3 | -0.3 | -0.2 | -0.1 | | |
| Gwelliannau Cynhyrchiant | -0.1 | -0.4 | -0.4 | -0.5 | -0.1 | -0.1 |
| **Gostyngiadau Cynlluniedig Blynyddol** | **-1.3** | **-1.0** | **-0.9** | **-0.8** | **-0.3** | **-0.2** |
| Gwariant Net Cynlluniedig | 115.4 | 120.6 | 125.9 | 131.1 | 136.2 | 141.6 |
| **Diffygion yn y dyfodol** | **0.0** | **0.7** | **1.2** | **1.5** | **1.4** | **1.3** |

** yn cynnwys grantiau penodol ar gyfer pensiynau ac Ymgyrch Uplift

6.12 Pennodd y Comisiynydd raglen gyfalaf o £69.469 miliwn ar gyfer 2020/21 i 2024/25 sy'n cynnwys buddsoddiad yn yr Ystadau, y Fflyd a seilwaith TGCh ar gyfer prosiectau lleol a chenedlaethol. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cael ei flaenoriaethu tuag at flaenoriaethau strategol, gwariant na ellir ei osgoi, meysydd sy'n lleihau gwariant refeniw yn y dyfodol ac mae'n cydnabod yr angen i baratoi'n ddigonol er mwyn wynebu gofynion newidiol plismona yn yr unfed ganrif ar hugain.

6.13 Bu lleihad sylweddol yn y cyllid cyfalaf craidd a ddyrennir gan y Swyddfa Gartref dros y blynyddoedd diwethaf ac ar gyfer 2020/21 mae hyn wedi gostwng o £325k i £85k yn unig. Mae'r rhaglen gyfalaf yn golygu y bydd y cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn cael eu disbyddu ac mae’n cynnwys gofynion benthyca allanol o £49.1 miliwn. Bydd y rhan fwyaf o’r benthyca hwn yn ariannu adeiladu dalfa newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, yn cynnig datrysiad ar gyfer y cyfleuster heddlu sydd angen ei moderneiddio yn Aberhonddu, ac yn ariannu’r cyfleuster hyfforddi newydd ar gyfer y Cyd-Uned Arfau Saethu. Er mwyn bodloni gofynion buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol a lliniaru'r lleihad mewn arian grant cyfalaf, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolog a'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys cynyddu cyfraniadau refeniw i gyfalaf.

6.14 Mae'r Comisiynydd, fel perchennog yr holl asedau cyfalaf drwy Statud, yn ystyried ei Strategaeth Gyfalaf bob blwyddyn ar y cyd â’r Prif Gwnstabl ac mae hefyd yn asesu ei ofynion benthyca bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/9401/capital-strategy-website.pdf

6.15 Caiff y Rhaglen Gyfalaf ei diwygio i adlewyrchu'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2019/20 a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith parhaus i ailasesu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

6.16 Fel deiliad yr holl Gronfeydd Wrth Gefn drwy Statud, mae'r Comisiynydd yn ystyried ac yn cyhoeddi strategaeth flynyddol ynglŷn â chronfeydd wrth gefn sy'n ategu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'i asesiad o'r amlygiad i risg a mesurau lliniaru. Mae'r strategaeth cronfeydd wrth gefn yn ystyried digonolrwydd cronfeydd cyffredinol wrth gefn ac yn ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r ystyriaethau hyn hefyd yn rhoi sylw i ganllawiau'r Swyddfa Gartref ar Gronfeydd wrth Gefn yr Heddlu. Dangosir y Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn yn:

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/9089/20-21-reserves-strategy.pdf

6.17 Cyflwynodd Heddlu Dyfed-Powys ei drydydd Datganiad Rheoli Heddlu i Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi sy'n rhoi disgrifiad cynhwysfawr o'r prif heriau gweithredol a chymorth busnes y mae Heddlu Dyfed-Powys yn eu hwynebu. Mae hwn yn ystyried gallu ac adnoddau Heddlu Dyfed-Powys yng nghyd-destun ymdrin â'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Yn gryno, mae'r ddogfen yn nodi heriau sy'n adlewyrchu'r meysydd hynny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Risg i raddau helaeth ond mae hefyd yn tynnu sylw at heriau mewn perthynas â phobl sy'n agored i niwed, cam-drin domestig a throseddau rhyw / treisgar fel meysydd lle y rhagwelir y bydd galw'n cynyddu yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, bwriedir cyflwyno'r Datganiad Rheoli Heddlu nesaf yn hydref 2020 a fydd yn caniatáu ar gyfer cysondeb gwell ag ystyriaethau cynllunio ariannol tymor Canolig.

6.18 Mae'r Comisiynydd a Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn wynebu nifer o ymrwymiadau ariannol anhysbys posibl yn y dyfodol y cyfeirir atynt ymhellach yn y nodyn ar rwymedigaethau digwyddiadol a'r nodyn ar bensiynau, gan gynnwys:

- Her Gyfreithiol Pensiwn yr Heddlu – Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd
- Ymchwiliad i Blismona Cudd
- Hawliadau Lwfans Ar Alw Uned Ymdrin Ffynhonnell Benodedig
- Hawliad yn ymwneud â Lwfansau Staff yr Heddlu sy'n ymwneud â materion cydredol

6.19 Mae'r Llywodraeth yn awr wedi cyhoeddi'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant hirddisgwyliedig a fydd yn nodi'r cynlluniau gwario am gyfnod o dair blynedd. Mae oblygiadau ariannol y pandemig Coronafeirws a'i effaith ar yr economi ehangach yn eang, sy'n arwain at ansicrwydd ariannol ychwanegol mewn perthynas â nifer o elfennau ariannu, ac yn wir, mae'r Canghellor eisoes wedi dynodi bod dewisiadau anodd o'n blaenau. Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n parhau i weithio'n agos â'r Swyddfa Gartref a phartneriaid plismona ehangach er mwyn datblygu cyflwyniadau gorfodi'r gyfraith cydlynol sydd wedi'u hanelu at hwyluso ystyriaethau gwario.

6.20 Mae'r rhwymedigaeth pensiwn a ddangosir yn y Fantolen a'r symudiad costau ar gyfer y flwyddyn sy'n gynwysedig yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant hwn yn ystyried goblygiadau posibl dyfarniad McCloud a Sergeant ym mhenderfyniad y Llys Apêl bod Diwygiadau Pensiynau Sector Cyhoeddus 2015 y Llywodraeth yn trin pobl yn wahanol yn anghyfreithlon ar sail oedran, ers 1 Ebrill 2012. Mae hyn yn effeithio ar gynlluniau pensiwn Swyddog a Staff yr Heddlu (Llywodraeth Leol). Er ei bod yn bosibl

y bydd yn cymryd tan 2021 i benderfynu ar ateb terfynol, mae amcangyfrif actiwaraidd o'r effaith ariannol wedi'i gynnwys fel cost gwasanaeth yn y gorffennol. O ran Cynlluniau Pensiwn Llywodraethau Lleol, cynyddwyd Cyfradd Cyfraniad y cyflogwr 1.2% o fis Ebrill 2020 er mwyn ystyried y costau ychwanegol rhagamcanol fel rhan o brisiad pensiynau 2019. O ran Swyddogion yr Heddlu, mae'r broses brisio yn cael ei chychwyn yn 2020 ond ni fydd newidiadau i gyfradd cyfraniadau pensiwn cyflogwyr Swyddogion yr Heddlu yn cael eu gweithredu tan 2023/24.

6.21 Mae'r sefyllfa o ran yr Adolygiad o Gyllid Fformiwla hefyd yn ansicr, fodd bynnag, deellir y gallai'r Swyddfa Gartref ystyried gwneud newidiadau i'r fformiwla ar ôl yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Byddai effaith yr adolygiad diwethaf sydd heb ei weithredu wedi arwain at £8 miliwn yn llai ar gyfer Dyfed-Powys.

6.22 Fel yr amlinellwyd o'r blaen, cafwyd llawer o sylwadau annibynnol dros y blynyddoedd a'r misoedd diwethaf mewn perthynas â chynaliadwyedd yr Heddlu, ariannu, cydnerthedd a mwy o feichiau sy'n amlygu'r sefyllfa fregus y mae Dyfed-Powys, gwasanaeth yr heddlu, y gwasanaethau cyhoeddus a'r wlad fel ei gilydd yn ei hwynebu.

## 7 Ymateb a Goblygiadau Pandemig y Coronafeirws

7.1 Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, yn gynnar yn 2020 gwelwyd yr argyfwng cenedlaethol a ddatblygodd yn sgil pandemig y Coronafeirws. Cafwyd ymateb digynsail i hyn ymhlith y sector cyhoeddus yn gyffredinol ac yn benodol ym maes plismona wrth iddo addasu'n gyflym i orfodi deddfwriaeth newydd y DU a Chymru, gan hefyd gynnal y gwaith o ddarparu gwasanaeth a diogelu ei weithlu.

7.2 Cymerodd Dyfed-Powys ystod o gamau cynnar i sicrhau ei fod yn barod i ymateb ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Roedd y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd yn sylweddol a phellgyrhaeddol i sicrhau bod pob agwedd ar berfformiad gweithredol a sefydliadol a darpariaeth gwasanaethau yn optimaidd ac yn ddynamig i ymateb yn briodol i'r sefyllfa a oedd yn datblygu, gydag iechyd a lles y gweithlu yn gwbl hanfodol. Mae'r strwythurau Trefn Reoli Aur, Arian ac Efydd yn gweithio ar y cyd â Grŵp Trefn Reoli Strategol, Grŵp Trefn Reoli Tactegol a'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth; amlinellir y trefniadau llywodraethu ymhellach yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae grwpiau llywodraethu priodol wedi cyflwyno achosion gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i barhau i hwyluso gwaith goruchwylio a chraffu.

7.3 Mae diogelwch a lles y gweithlu wedi bod yn gwbl hanfodol yn yr ymateb plismona, a defnyddiwyd gwahanol gamau ar gyfer defnyddio'r gweithlu wrth i'r argyfwng ddatblygu. Cymerwyd nifer sylweddol o gamau cychwynnol i sicrhau parhad busnes, cadernid a'r broses o ddarparu gwasanaethau allweddol. Yn eu plith mae rhannu Canolfan Gyswllt yr Heddlu rhwng dau safle, nifer sylweddol o staff nad ydynt ar y rheng flaen yn gweithio gartref, ail-flaenoriaethu a dyrannu TG i rolau hanfodol, cyfuno adnoddau i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ac addasu ffyrdd o weithio ar gyfer swyddogaethau rheng flaen a swyddfa gefn gyda chyfarfodydd mewnol ac allanol yn cael eu cynnal yn electronig a darparu hyfforddiant ar-lein. Mae llawer o staff yn parhau i weithio gartref gyda rhai bellach yn ôl yn y gweithle gyda threfniadau cadw pellter cymdeithasol priodol cadarn ar waith. Mae'r trefniadau hyn wedi cyflymu prosiect gweithio ystwyth yr heddlu.

7.4 Mae effaith y Coronafeirws ar lefelau adnoddau wedi ei fonitro'n ofalus ar draws y sefydliad; Canolfan Gyswllt yr Heddlu yw'r unig ran o'r sefydliad i ddisgyn o statws gwyrdd i ambr am gyfnod cyfyngedig pan gyrhaeddodd nifer y staff a oedd yn hunanynysu uchafbwynt o 14%. Mae'r gostyngiad yma ym mhresenoldeb y gweithlu bellach wedi dychwelyd i lefel gyfartalog o 5%, sydd tua 1% yn uwch na'r cyfartaledd, a braf yw gweld bod y rhain wedi bod yn llawer is na'r cyfartaleddau cenedlaethol ymhlith heddluoedd.

7.5 Mae goresgyn yr heriau y mae pob sector ledled y DU yn eu hwynebu gyda chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) wedi ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu fabwysiadu gweithdrefnau caffael brys i gyrchu cyfarpar o'r fath mewn modd amserol. Hyd yn hyn, mae'r heddlu wedi gallu cynnal lefelau priodol i sicrhau diogelwch y gweithlu. Mae gweithwyr caffael proffesiynol wedi parhau i weithio gydag arweinwyr gwasanaethau i asesu a monitro'r cadwyni cyflenwi a sefyllfa'r cyflenwyr sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau yn llwyddiannus. Bu rhywfaint o bwysau cenedlaethol o fewn y farchnad fforensig ac mae'r rhain wedi'u lliniaru yn ôl yr angen.

7.6 O ran y galw, ac yn unol â'r holl heddluoedd eraill, mae Dyfed-Powys wedi gweld gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn nifer y troseddau y rhoddir gwybod amdanynt. Fodd bynnag, mae adroddiadau am achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi cynyddu'n aruthrol, yn bennaf o ganlyniad i adroddiadau am dorri rheolau'r cyfyngiadau. Hyd yma, mae'r gallu i ymateb i'r adroddiadau hyn yn dda. Mae'r Heddlu hefyd wedi bod yn rhagweithiol wrth ymdrin â materion yn ymwneud â theithio nad yw'n hanfodol gyda phobl sy'n dymuno teithio i fwynhau ardal yr heddlu a'r rhai sy'n dymuno ymweld ag ail gartrefi yn yr ardal. Cafodd ymgyrch benodol ei chynnal hefyd i fynd ati i rybuddio yn erbyn cynulliadau torfol posibl yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol.

7.7 Yn ogystal, mae'r Heddlu, yn unol ag arferion gorau, wedi sefydlu Cell Dysgu ac Adfer Sefydliadol i gynllunio ac i ddelio â chanlyniadau'r pandemig. Bydd hyn yn ymdrin ag unrhyw wersi a ddysgwyd, arferion gwaith i'w cynnal, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer ailddechrau prosiectau strategol ac ystyriaethau lles parhaus ar gyfer staff.

7.8 O ran goblygiadau ariannol cychwynnol, roedd angen i'r Heddlu ymrwymo i gostau ychwanegol sylweddol o ran cael PPE ar gyfer Swyddogion a staff rheng flaen, darparu lifrai ychwanegol, goramser ychwanegol, offer TGCh, glanhau a phrofi. Wrth i'r sefyllfa sefydliadol barhau i ddatblygu, ynghyd â'r costau ychwanegol hyn, mae nifer o feysydd lle mae rhai arbedion yn cael eu gwireddu a'u rhagweld ond mae hefyd rai colledion o ran derbyniadau incwm ar gyfer nifer o weithgareddau a gwasanaethau. Mae pob agwedd ar gostau ac arbedion yn cael eu cofnodi ac, yn wir, adroddir amdanynt yn genedlaethol er mwyn llywio trafodaethau a negodiadau mewn perthynas â chyllid yn y dyfodol.

7.9 Mae nifer o bosibiliadau'n cael eu hystyried ar lefel leol a chenedlaethol, ond nid oes unrhyw arwyddion cadarn gan y Llywodraeth eto ynglŷn â chyllid ychwanegol ar gyfer plismona, er bod rhywfaint o hyblygrwydd wedi'i roi yng nghyswllt y grant penodol ar gyfer Ymgyrch Uplift. O ystyried yr ansicrwydd hwn, ac fel y cyfeirir ato yn y sefyllfa alldro, mae'r Comisiynydd wedi ceisio sefydlu cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar ddiwedd y flwyddyn i helpu i liniaru'r goblygiadau ariannol yn rhannol,

tra bo'r darlun cenedlaethol yn dod yn fwy eglur. Caiff y sefyllfa hon ei hadolygu yn yr hydref, neu wrth i wybodaeth ddod i law.

7.10 O ran prisiadau a ddefnyddir yn y Datganiad o Gyfrifon hwn, mae hefyd yn bwysig nodi effaith y pandemig ar y marchnadoedd ariannol byd-eang, gan yr effeithiwyd ar weithgarwch mewn sawl sector. Ar y dyddiadau prisio, mae gwerthoedd yr Ystâd o'r farn y gallant roi llai o bwys ar dystiolaeth flaenorol o’r farchnad ac felly adroddir y prisiadau ar sail 'ansicrwydd prisio materol'. Maent wedi argymell y dylid adolygu’r eiddo sydd i’w brisio yn rheolaidd.

7.11 Cynhaliwyd Prisiad y Cynlluniau Pensiwn ar gyfer Swyddogion a Staff gan Mercer ac mae hwn yn darparu asesiad arbenigol annibynnol o werth presennol rhwymedigaethau ac asedau pensiwn yn y dyfodol, fel y’u haseswyd ar 31 Mawrth 2020. Adlewyrchir y newidiadau yn y prisiadau dros y flwyddyn yng nghost y gwasanaeth, a adroddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ôl arferion cyfrifyddu priodol.

7.12 Mewn cylchlythyr dyddiedig 31 Mawrth 2020, cadarnhaodd Mercer fod rhagdybiaethau actiwaraidd wedi eu pennu yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn – a olygai fod effaith y cythrwfl yn y farchnad a ddaeth yn sgil y pandemig Covid-19 wedi ei hymgorffori. Ym mis Mawrth 2020, cafwyd gostyngiadau sylweddol mewn marchnadoedd ecwiti sydd wedi effeithio ar werth Asedau a ddelir o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a ariennir. Fel cynllun heb ei ariannu, nid yw hyn yn effeithio ar Gynllun Pensiwn yr Heddlu.

7.13 Yn ystod yr un mis, mae'r gostyngiadau yn y farchnad hefyd wedi ymestyn i elw bondiau corfforaethol gydag elw bondiau AA yn cynyddu tua 0.5% y flwyddyn. Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yn y cyfrifiadau wedi gostwng o 2.5% ar gyfer 2018/19 i 2.3% yn 2019/20 sy'n adlewyrchu amodau'r farchnad fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2020 ac a fydd wedi cynyddu'r rhwymedigaeth ar gyfer cynlluniau pensiwn Swyddogion a Staff yr Heddlu. Cyfeirir at y rhagdybiaethau hyn yn fanylach yn y nodyn pensiwn manwl.

7.14 Mewn cylchlythyr a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Gâr (gweinyddwyr ein pensiwn) ar effaith y Pandemig, adroddwyd bod gwerthoedd asedau ar gyfer ei gynlluniau wedi gostwng tua 14% rhwng Rhagfyr 2019 a Mawrth 2020. Ni fydd effaith ariannol lawn tymor hwy hyn ar gyfraddau cyfraniadau yn cael ei phrofi ar gyllidebau tan y dyddiad prisio nesaf, h.y. 2023. Yn y tymor byr, amcangyfrifir y bydd y gymhareb asedau i gostau wedi gostwng o 100% i rhwng tua 90% a 95% yn seiliedig ar gylchlythyr diweddaraf y Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol.

7.15 Cynhaliodd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sesiwn friffio ddiwedd mis Ebrill ar gyfer aelodau’r Cyd-bwyllgor Archwilio, a oedd yn ymwneud yn benodol â’r ymateb a materion sy'n gysylltiedig â phandemig y Coronafeirws. Rhoddodd hyn drosolwg o'r trefniadau llywodraethu, y cyd-destun cenedlaethol, y risgiau cysylltiedig, goblygiadau ariannol ac ystyriaethau archwilio mewnol ac allanol.

7.16 Bydd gwaith yn parhau i asesu'r goblygiadau ariannol ar gyfer 2020/21 a thu hwnt, ond bydd angen cryn dipyn o amser i grisialu'r sefyllfa o ran y materion a'r effaith leol ond hefyd o fewn y dirwedd economaidd ehangach. Mae ymyrraeth economaidd y Llywodraeth wedi bod yn helaeth ac, o’r herwydd, bydd goblygiadau sylweddol yn ddiamau i gyllid a gwasanaethau cyhoeddus.

7.17 Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd ill dau wedi parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU a Chymru, ac mae'r Comisiynydd hefyd yn gwneud hynny yn ei rôl ganolog fel Cadeirydd Plismona yng Nghymru.

7.18 Bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2020/21 a'i gynlluniau a'i strategaethau cysylltiedig, a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2020, yn cael eu hailystyried gan ystyried y goblygiadau ehangach hyn gan ganolbwyntio'n benodol ar gynaliadwyedd a chadernid ariannol. Mae'r penderfyniad i greu'r gronfa Covid-19 benodol a'r gostyngiad yn y defnydd arfaethedig o gronfeydd refeniw wrth gefn i gefnogi cyllideb 2019/20 yn sicr yn helpu i liniaru rhai o'r goblygiadau ariannol ond mae'n amlwg bellach bod llawer o ansicrwydd a nifer o gymhlethdodau yn gysylltiedig â chyllid y Llywodraeth yn y dyfodol, yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, adolygiad o fformiwla gyllido, effeithiau ar y sylfaen dreth, amodau'r farchnad ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau, y gallu i gyflawni arbedion effeithlonrwydd cynlluniedig, effaith ar brosiectau a mentrau cenedlaethol ynghyd â newidiadau posibl i wasanaethau plismona yn gyffredinol a fydd oll yn gorfod cael eu hystyried yn ofalus.

## 8.0 Sail Gwaith Paratoi a Chyflwyno

8.1 Dyma'r wythfed set o gyfrifon statudol a baratowyd o dan y trefniadau llywodraethu newydd. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel endidau cyfreithiol ar wahân baratoi eu Datganiadau o Gyfrifon eu hunain, gyda'r Comisiynydd yn gyfrifol hefyd am baratoi Cyfrifon y Grŵp, sy'n cynnwys cyfrifon y Comisiynydd.

8.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol baratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol. Ystyrir mai Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth sy'n cynrychioli arferion priodol.

8.3 Mae'r canlynol yn esbonio'r datganiadau sy'n dilyn, eu diben a'r gydberthynas rhyngddynt:

- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol** – mae hwn yn nodi barn yr archwilydd allanol, sef Archwilydd Cyffredinol Cymru, ynghylch p'un a yw cyfrifon y Grŵp yn rhoi 'darlun gwir a theg' o sefyllfa ariannol a gweithrediadau'r Comisiynydd ar gyfer 2019/20;
- **Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon** – mae'r datganiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a'i Brif Swyddog Cyllid;
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** – mae'r datganiad craidd hwn yn crynhoi'r adnoddau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau plismona a gostwng troseddu yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys treuliau o ddydd i ddydd ac incwm cysylltiedig ar sail croniadau, yn ogystal â thrafodion yn mesur gwerth asedau sefydlog a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd a gwerth amcangyfrifedig gwirioneddol buddiannau ymddeol a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn;
- **Mantolen** – mae'r datganiad craidd hwn yn dangos gwerth asedau a rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Prif Gwnstabl fel ag yr oeddent ar ddyddiad y Fantolen.  Y Comisiynydd sy'n berchen ar y tir, yr adeiladau a'r asedau eraill a ddefnyddir gan yr Heddlu;

- **Nodiadau i'r datganiadau ariannol** – mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth ychwanegol sy'n esbonio ymhellach eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y prif ddatganiadau gyda'r nod o helpu'r darllenwyr i ddeall y prif ddatganiadau ariannol yn well ac maent yn nodi'r Polisïau Cyfrifyddu a ddefnyddiwyd fel sail dros baratoi'r datganiadau ariannol fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer;
- **Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu –** datganiad sy'n dangos gwariant, incwm, asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â Phensiynau'r Heddlu yn y flwyddyn. Mae'r cyfrif yn dangos y grant ychwanegol sy'n ddyledus o'r Grŵp i Gyfrif y Gronfa Bensiwn. Wedyn mae'r Swyddfa Gartref yn ad-dalu'r Grŵp am arian a dalwyd i'r cyfrif ac yn tanysgrifennu'r diffyg i bob diben. Byddai'r arfer hwn yn gweithio i'r gwrthwyneb pe bai gan Gyfrif y Gronfa Bensiwn warged ar ddiwedd y flwyddyn;
- Mae **Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd** wedi'i gynnwys o fewn y Datganiad o Gyfrifon hwn sy'n nodi manylion ynglŷn â sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn llywodraethu eu materion. Mae'r Datganiad yn ddogfen statudol ar gyfer pob corfforaeth undyn, ond mae datganiad ar y cyd wedi cael ei lunio ar gyfer 2019/20 sy'n anelu at sicrhau tryloywder a gwella dealltwriaeth y darllenydd, gan ddangos yn glir ble mae trefniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyson a ble maent yn wahanol. Mae'r datganiad yn cynnwys adolygiad blynyddol o ddigonolrwydd y trefniadau llywodraethu, ac mae hefyd yn rhoi sicrwydd ar y systemau rheolaeth fewnol.

## Datganiad o Gyfrifoldebau


Diben y datganiad hwn yw nodi cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon.

Cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl

Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny, sef y Prif Swyddog Cyllid;
- rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Cymeradwyaf y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.



**Prif Gwnstabl Dyfed-Powys** **Dyddiad: 2 Medi 2020**

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi'r Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol fel y'u nodwyd yng Nghod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA/LASAAC (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddoeth;
- cydymffurfio â'r Cod i awdurdodau lleol.
- Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi gwneud y canlynol:
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfredol;
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Ardystiaf fod y Datganiad o Gyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Prif Gwnstabl ar y dyddiad adrodd ac o'i wariant a'i incwm ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.



**Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl** **Dyddiad: 2 Medi 2020**

# Adroddiad archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Gwnstabl Dyfed-Powys

## Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys; a
- Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys Cyfrif y Gronfa, y Datganiad am Asedau Net a nodiadau cysylltiedig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys ar 31 Mawrth 2020 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20.

### Sail y Farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio'n fanylach yn yr adran 'cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol' yn fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Pwysleisio Mater: Ansicrwydd o ran Prisiad Cronfa Bensiwn

Tynnaf sylw at Nodyn 17 o’r datganiadau ariannol, sy’n disgrifio effaith ansicrwydd materol a ddatgelwyd yn adroddiad rheolwr y gronfa bensiwn yn ei adroddiad gwerthuso diwedd flwyddyn ar gyfer y gronfa eiddo y mae’n rheoli yn y DU ar ran Cronfa Bensiwn Dyfed. Mae’r Cyngor wedi datgelu’r ansicrwydd materol hwn ac nid yw fy marn archwilio wedi newid mewn perthynas â’r mater hwn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â phryder parhaus

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu, yn y datganiadau ariannol, unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai godi amheuaeth sylweddol am allu Prif Gwnstabl Dyfed-Powys i barhau i ddefnyddio proses gyfrifyddu sy'n seiliedig ar fusnes gweithredol am ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan roddir awdurdod i gyhoeddi'r datganiadau ariannol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd ar y datganiadau hynny. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

## Adrodd ar ofynion eraill

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ynghylch Prif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys a'u hamgylchedd y gwneuthum eu meithrin yn ystod fy archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn cyflwyno adroddiad i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu cywir wedi'u cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalen 28, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol sydd ei hangen ym marn y swyddog ariannol cyfrifol er mwyn paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

| | |
|---|---|
| Anthony J Barrett | 24 Heol y Gadeirlan |
| Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 3 Medi 2020 | CF11 9LJ |

Cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yw cynnal gwefan Heddlu Dyfed-Powys a sicrhau ei huniondeb; nid yw'r gwaith a wnaed gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno'n gyntaf ar y wefan.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Heddlu Dyfed-Powys sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r adnoddau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau plismona a gostwng troseddu yn ystod y flwyddyn. Mae Datganiad 2018/19 wedi cael ei ailddatgan i adlewyrchu newidiadau a wnaed i Drefniadau Adrodd. Darllenwch Nodyn 2 'Addasiadau Cyfnod Blaenorol' i gael esboniad o'r newidiadau hyn.

| 2018/19 (Wedi'i Ailddatgan) | | | | | 2019/20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Nodyn | Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 |
| 62,236 | 0 | 62,236 | Cyflog Swyddogion yr Heddlu | | 64,472 | 0 | 64,472 |
| 2,469 | 0 | 2,469 | Goramser Swyddogion yr Heddlu | | 2,272 | 0 | 2,272 |
| 14,178 | 0 | 14,178 | Pensiynau Swyddogion yr Heddlu | | 16,362 | 0 | 16,362 |
| 27,706 | 0 | 27,706 | Cyflog Staff yr Heddlu | | 29,398 | 0 | 29,398 |
| 164 | 0 | 164 | Goramser Staff yr Heddlu | | 106 | 0 | 106 |
| 3,473 | 0 | 3,473 | Pensiynau Staff yr Heddlu | | 4,548 | 0 | 4,548 |
| 1,537 | 0 | 1,537 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr | | 1,214 | 0 | 1,214 |
| 100 | 0 | 100 | Costau Safleoedd | | 466 | 0 | 466 |
| 2,035 | 0 | 2,035 | Costau Trafnidiaeth | | 1,916 | 0 | 1,916 |
| 9,435 | 0 | 9,435 | Cyflenwadau a Gwasanaethau | | 10,237 | 0 | 10,237 |
| 2,118 | 0 | 2,118 | Gwasanaethau dan Gontract ac Asiantaeth | | 3,424 | 0 | 3,424 |
| 3,659 | 0 | 3,659 | Costau Cyllido Cyfalaf | | 3,688 | 0 | 3,688 |
| **129,110** | **0** | **129,110** | **Cost Gwasanaethau (cyn McCloud)** | | **138,103** | **0** | **138,103** |
| | | | Effaith Bosibl yr Her Gyfreithiol (McCloud) | | | | |
| 75,453 | 0 | 75,453 | Pensiynau Swyddogion yr Heddlu | **17** | 5,145 | 0 | 5,145 |
| 3,146 | 0 | 3,146 | Pensiynau Staff yr Heddlu | **17** | 537 | 0 | 537 |
| **207,709** | **0** | **207,709** | **Cyfanswm Cost y Gwasanaethau** | | **143,785** | **0** | **143,785** |
| 31,444 | 0 | 31,444 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | **7** | 33,816 | 0 | 33,816 |
| 0 | (239,153) | (239,153) | Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp) | | 0 | (177,601) | (177,601) |
| **239,153** | **(239,153)** | **0** | **Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | **177,601** | **(177,601)** | **0** |
| | | 80,914 | (Enillion)/colledion actiwaraidd ar asedau/ rhwymedigaethau pensiwn | | | | 28,013 |
| | | **(80,914)** | **Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp)** | | | | **(28,013)** |
| | | **0** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **0** |

# Mantolen

| 31 Mawrth 2019 £'000 | | Nodyn | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---:|---|---|---:|
| 0 | Eiddo, offer a chyfarpar | | 0 |
| 0 | Eiddo buddsoddi | | 0 |
| 0 | Asedau anniriaethol | | 0 |
| 0 | Asedau a ddelir i'w gwerthu | | 0 |
| 1,370,871 | Dyledwyr hirdymor | 17 | 1,442,219 |
| **1,370,871** | **Asedau hirdymor** | | **1,442,219** |
| 0 | Buddsoddiadau byrdymor | | 0 |
| 463 | Rhestrau eiddo | | 461 |
| 475 | Dyledwyr byrdymor | 9 | 783 |
| 0 | Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | | 0 |
| (938) | Trosglwyddo o fewn y grŵp | | (1,244) |
| 0 | **Asedau cyfredol** | | 0 |
| 0 | Gorddrafft Banc | | 0 |
| 0 | Benthyca byrdymor | | 0 |
| (10,324) | Credydwyr byrdymor | 10 | (8,562) |
| 0 | Darpariaethau byrdymor | | 0 |
| 10,324 | Trosglwyddo o fewn y grŵp | | 8,562 |
| 0 | **Rhwymedigaethau cyfredol** | | 0 |
| 0 | Credydwyr hirdymor | | 0 |
| 0 | Benthyca hirdymor | | 0 |
| (1,370,871) | Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 17 | (1,442,219) |
| 0 | Darpariaethau hirdymor | | 0 |
| 0 | Derbyniadau grant ymlaen llaw | | 0 |
| **(1,370,871)** | **Rhwymedigaethau hirdymor** | | **(1,442,219)** |
| 0 | **Asedau net** | | 0 |
| 0 | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy | | 0 |
| 0 | Cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy | | 0 |
| 0 | **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn** | | 0 |

## Cronfa Bensiwn yr Heddlu

| Prif Gwnstabl 2018/19 £'000 | Prif Gwnstabl 2018/19 £'000 | Cyfrif y Gronfa | Prif Gwnstabl 2019/20 £'000 | Prif Gwnstabl 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfraniadau derbyniadwy | | |
| (10,520) | | Cyfraniadau'r cyflogwr | (13,337) | |
| (256) | | Incwm Arall | (250) | |
| (5,879) | | Cyfraniadau swyddogion | (5,792) | |
| | **(16,655)** | **Cyfraniadau derbyniadwy** | | **(19,379)** |
| | **(393)** | **Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill** | | **(656)** |
| | | Buddiannau taladwy | | |
| 26,483 | | Pensiynau | 28,050 | |
| 9,443 | | Cyfnewidiadau a buddiannau ymddeol ar ffurf cyfandaliadau | 7,313 | |
| | **35,926** | **Buddiannau Taladwy** | | **35,363** |
| | | Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael | | |
| 39 | | Trosglwyddo i gronfeydd pensiwn eraill | 329 | |
| 12 | | Ad-daliadau cyfraniadau | 25 | |
| 119 | | Taliadau treth Cynllun yn Talu | 535 | |
| | **170** | **Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael** | | **889** |
| | **19,048** | **Swm net sy'n daladwy am y flwyddyn** | | **16,217** |
| | (19,048) | Cyfraniad ychwanegol o Gronfa'r Heddlu (parthed grant y Swyddfa Gartref) | | (16,217) |
| | **0** | **Cyfanswm** | | **0** |

| Prif Gwnstabl 2018/19 £'000 | Datganiad am Asedau Net | Prif Gwnstabl 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| | Asedau Cyfredol | |
| 908 | Dyledwr - balansau net sy'n ddyledus gan gronfa'r Heddlu | 0 |
| **908** | **Asedau Cyfredol** | **0** |
| | Rhwymedigaethau Cyfredol | |
| (908) | Credydwr - buddiannau sy'n daladwy i swyddogion yn ymddeol ddiwedd mis Mawrth a dalwyd ym mis Ebrill | 0 |
| **(908)** | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | **0** |
| **0** | **Asedau Net** | **0** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Polisïau cyfrifyddu

### Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion y Prif Gwnstabl ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2020. Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd), sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20 a Chod Ymarfer Adrodd 2019/20 yr Heddlu yn bennaf, wedi'u hategu gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu gan ailbrisio categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

### Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifyddu ac Amcangyfrifon a Gwallau

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn y dyfodol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd yn y dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn peri addasiad cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fydd eu hangen yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol neu pan fydd y newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynglŷn ag effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y bydd newidiadau i bolisïau cyfrifyddu. Pan fydd newid, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir fel arall) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymaradwy ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi'i gymhwyso erioed.

Caiff gwallau perthnasol a ddarganfyddir yn ffigurau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymaradwy ar gyfer y cyfnod blaenorol.

### Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, ac nid pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud. Yn benodol:

- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'r dyddiad y'u defnyddir cânt eu cario fel rhestrau eiddo ar y Fantolen.
- Cofnodir treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) fel gwariant pan fydd y gwasanaethau yn cael eu derbyn yn hytrach na phan fydd y taliadau yn cael eu gwneud.
- Pan fydd refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad oes unrhyw arian parod wedi cael ei dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn y Fantolen. Pan na chaiff dyledion eu setlo o bosibl, mae balans dyledwyr yn cael ei leihau a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na allai gael ei gasglu o bosibl.

**Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth**

Codir am gostau gorbenion a gwasanaethau cymorth ar segmentau gwasanaethau yn unol â threfniadau'r Prif Gwnstabl ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

**Eitemau Eithriadol**

Pan fydd eitemau o incwm a gwariant yn berthnasol, datgelir eu natur a'r swm ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn dibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y Prif Gwnstabl.

**Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad y caiff y Datganiad o Gyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiadau:

- Y rhai hynny sy'n rhoi tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai hynny sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, datgelir natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig yn y nodiadau.

Nid yw digwyddiadau ar ôl dyddiad awdurdodi cyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o Gyfrifon.

**Offerynnau Ariannol**

<u>Rhwymedigaethau Ariannol</u>

Caiff y rhain eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg a'u cario ar eu cost wedi'i hamorteiddio.

<u>Asedau Ariannol</u>

Mae'r asedau ariannol a ddelir gan y Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn yn asedau ariannol sydd â thaliadau sefydlog neu y gellir eu pennu ac nad ydynt wedi'u rhestru mewn marchnad weithredol.

<u>Trosi arian cyfred tramor</u>

Lle mae'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i drafodiad wedi'i ddynodi mewn arian cyfred tramor, caiff y trafodiad ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar y dyddiad roedd y trafodiad yn weithredol.

**Rhestrau eiddo**

Mae rhestrau eiddo yn cael eu cynnwys yn y fantolen ar bris cost bresennol. Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 2 yn nodi y dylai Rhestrau eiddo gael eu mesur ar gost neu werth gwireddadwy net pa bynnag yw'r isaf. Felly, nid yw'r polisi yn cydymffurfio ag IAS 2 ond nid yw'r gwahaniaeth yn berthnasol.

**Trefniadau Cydweithio – Cyfrifyddu ar gyfer cyfuno trefniadau cydweithio**

Lle mae'r Comisiynydd / Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i drefniadau cydweithredol â Chomisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid eraill, gwnaed asesiad yn erbyn IFRS 11 Trefniadau

Cydweithio i benderfynu ar y broses gyfrifyddu briodol. Mae IFRS 11 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl drefniadau o'r fath yn cael eu dosbarthu naill ai fel Cyd-fentrau neu Gyd-ymgyrchoedd. Mae'r holl drefniadau o'r fath gan y Comisiynydd / Prif Gwnstabl yn cael eu hystyried yn Gyd-ymgyrchoedd lle mae gan y Comisiynydd / Prif Gwnstabl yr hawl i'w cyfran deg o Asedau a Rhwymedigaethau'r Cyd-ymgyrch.

Ceir rhagor o fanylion o dan y nodyn Trefniadau Cydweithio.

**Buddiannau cyflogeion**

Buddiannau sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddiannau byrdymor i gyflogeion yw'r buddiannau hynny a fydd yn cael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddiannau megis cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb oherwydd salwch â thâl, taliadau bonws a buddiannau anariannol (e.e. ceir) i gyflogeion cyfredol ac fe'u cydnabyddir fel traul am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r cyflogeion yn rhoi gwasanaeth. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau gwyliau (gan gynnwys amser i ffwrdd yn lle tâl ac absenoldeb hyblyg) a enillir gan gyflogeion ond nas cymerir cyn diwedd y flwyddyn, y gall cyflogeion eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad ar gyfraddau cyflog sy'n gymwys yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, sef y cyfnod y mae'r cyflogeion yn cymryd y buddiant. Codir y croniad ar Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel y bydd buddiannau gwyliau yn cael eu codi i'r cyfrif refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb oherwydd gwyliau yn digwydd ynddi.

Buddiannau Terfynu

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol.

Pan fydd buddiannau terfynu yn cynnwys pensiynau ychwanegol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol mai'r swm sy'n daladwy gan y Grŵp i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei godi ar falans y Gronfa Gyffredinol, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen neilltuo arian i ac o'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn er mwyn dileu'r dyledion a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau terfynu ar ffurf pensiwn ychwanegol a rhoi dyledion ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw gyfryw symiau sy'n daladwy ond nas telir ar ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Mae swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu yn cael dewis bod yn aelod o un o blith dau gynllun pensiwn ar wahân sy'n berthnasol iddynt:

- Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu, a weinyddir drwy Gronfa Bensiwn i'r Heddlu
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ddau gynllun yn rhoi buddiannau diffiniedig i'w haelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd wrth i gyflogeion weithio i'r Grŵp.

Mae'r cynllun Pensiwn hwn i Swyddogion yr Heddlu "heb ei ariannu" sy'n golygu na chaiff unrhyw asedau buddsoddi eu cronni i dalu pensiynau a buddiannau eraill yn y dyfodol, ac felly ni chaiff unrhyw ddarpariaeth i fodloni'r rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol

ei chynnwys yn y fantolen. Mae rhwymedigaethau Cynllun Llywodraeth Leol y gellir eu priodoli i'r Grŵp wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o daliadau yn y dyfodol a gaiff eu gwneud mewn perthynas â buddiannau ymddeol a enillir hyd yma gan gyflogeion, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant cyflogeion ac ati ac amcanestyniadau o enillion ar gyfer cyflogeion presennol.

Buddiannau yn ôl Disgresiwn

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bwerau cyfyngedig hefyd i dalu buddiannau ymddeol yn ôl disgresiwn yn achos ymddeol yn gynnar. Bydd unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod yn codi o ganlyniad i ddyfarndal i unrhyw aelod o staff yn cronni yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad i wneud y dyfarndaliad a chyfrifir amdanynt drwy ddefnyddio'r un polisïau ag a gymhwysir at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Prydlesau**
**Y Prif Gwnstabl fel Prydlesai (Prydlesau Gweithredu)**

Caiff rhenti a delir o dan brydlesau gweithredu eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul y gwasanaethau sy'n cael budd o'r defnydd o eiddo, offer neu gyfarpar ar brydles. Codir taliadau ar sail llinell syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (h.y. lle mae cyfnod di-rent ar ddechrau'r brydles).

**Treth ar Werth (TAW)**

Mae TAW sy'n daladwy yn cael ei chynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'r Grŵp yn gallu ei hadennill oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Nid yw TAW sy'n dderbyniadwy wedi'i chynnwys mewn incwm.

## 2. Addasiadau Cyfnod Blaenorol

Addasu trefniadau adrodd yr heddlu

Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r Dadansoddiad o'r Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gael ei baratoi ar yr un sail â'r wybodaeth a ddefnyddir gan y rheolwyr ar gyfer gwneud penderfyniadau. Yn ystod 2019/20, gwnaed rhai newidiadau i drefniadau adrodd mewnol y Prif Gwnstabl gydag adroddiadau bellach yn cael eu paratoi ar sail oddrychol yn hytrach nag ar sail 'Cyfarwyddiaeth/Portffolio'. Mae'r newidiadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2019/20 ac mae ffigurau blwyddyn flaenorol 2018/19 wedi'u hailddatgan at ddibenion cymharu.

## 3. Safonau Cyfrifyddu sydd wedi cael eu cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Gwnstabl ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol o dan safon gyfrifyddu newydd sydd wedi cael ei chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto o dan y Cod. Bydd y newidiadau canlynol yn ofynnol o 1 Ebrill 2020:

- diwygiadau i *IAS28 Buddsoddiadau mewn Partneriaethau Cyswllt a Chyd-fentrau:* Buddiannau Hirdymor mewn Partneriaethau Cyswllt a Chyd-fentrau;
- Gwelliannau Blynyddol i *Gylch Safonau IFRS 201502017;*
- Diwygiadau i *IAS19 Buddiannau Cyflogeion*: Diwygio, Cwtogi neu Setlo'r Cynllun*;*

Nid yw effaith y newidiadau uchod ar y Datganiadau Ariannol yn hysbys. Fodd bynnag, yn y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2020/21, caiff effaith y newidiadau ei hasesu ac os bydd angen, caiff y ffigurau cymaradwy eu hailddatgan.

## 4. Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu

Mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch lefelau ariannu yn y dyfodol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys a bydd graddfa ymyriadau economaidd diweddar y Llywodraeth i ddelio â phandemig y Coronafeirws yn sicr yn effeithio'n sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus a'u cyllid. Bydd gwaith yn parhau i asesu'r goblygiadau ariannol ar gyfer 2020/21 a thu hwnt, ond bydd angen cryn dipyn o amser i grisialu'r sefyllfa o ran y materion lleol ond hefyd o fewn y dirwedd economaidd ehangach. Mae'r Prif Gwnstabl wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i roi amcan o asedau y gallai eu gwerth leihau o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau gwasanaethau a ddarperir.

## 5. Rhagdybiaethau a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan y Prif Gwnstabl ynglŷn â'r dyfodol neu eu bod fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Dyma'r eitemau ym Mantolen y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2020 y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os bydd y canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhagdybiaethau |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth pensiynau | Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn cynyddu yn unol â hi, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac enillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Penodir cwmni o actiwarïaid ymgynghorol i roi cyngor arbenigol ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w cymhwyso. | Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol ar y rhwymedigaeth pensiynau net. Er enghraifft, byddai cynnydd o 0.1% yn y tâl a ddyfernir ar gyfer cynllun pensiwn swyddogion yr heddlu yn arwain at gynnydd i £1.369 miliwn yn y rhwymedigaeth pensiwn. |

## 6. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Awdurdodwyd y Datganiad o Gyfrifon drafft i'w gyhoeddi gan y Prif Swyddog Ariannol ar 29 Mai 2020. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen a fyddai'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Prif Gwnstabl ar gyfer 2019/20.

## 7. Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi

Mae'r llinell hon yn cynnwys eitemau corfforaethol o incwm a gwariant sy'n deillio o offerynnau ariannol a thrafodion tebyg sy'n cynnwys llog.

| 2018/19 £'000 | | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| 31,444 | Cost llog pensiynau a'r enillion disgwyliedig ar asedau pensiynau | 33,816 |
| **31,444** | **Cyfanswm** | **33,816** |

## 8. Offerynnau Ariannol

Offeryn Ariannol yw unrhyw gontract sy'n rhoi ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn rhai cyfnewid, megis y rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn offerynnau ariannol.

Rhwymedigaethau Ariannol

Rhwymedigaeth ariannol yw rhwymedigaeth i drosglwyddo buddiannau economaidd a reolir gan y Prif Gwnstabl, a gall fod ar ffurf rhwymedigaeth gytundebol i roi arian parod neu asedau ariannol neu rwymedigaeth i gyfnewid asedau a rhwymedigaeth ariannol ag endid arall sy'n anffafriol o bosibl i'r Prif Gwnstabl.

Mae rhwymedigaethau ariannol nad ydynt yn ddeilliannol a ddelir gan y Prif Gwnstabl yn cynnwys credydwyr a chânt eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio.

Asedau Ariannol

Ased Ariannol yw hawl i fuddiannau economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Prif Gwnstabl sydd ar ffurf arian parod neu offerynnau eraill neu hawl gytundebol i gael arian parod neu ased ariannol arall. Mae'r asedau ariannol a ddelir gan y Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn yn cael eu dal o dan y dosbarthiad canlynol:

Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy (asedau ariannol sydd â thaliadau sefydlog neu y gellir eu pennu ac nad ydynt wedi'u rhestru mewn marchnad weithredol) gan gynnwys:

**Dyledwyr**

Offerynnau Ariannol – Balansau

Dadansoddir yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol yn y Fantolen yn ôl y categorïau canlynol:

| | Hirdymor | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
| Credydwyr | 0 | 0 | (10,324) | (8,562) |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol** | **0** | **0** | **(10,324)** | **(8,562)** |
| Dyledwyr | 0 | 0 | 475 | 783 |
| **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | **0** | **0** | **475** | **783** |

Bydd trosglwyddiad o fewn y grŵp yn digwydd o Gyfrifon y Prif Gwnstabl i gyfrifon y Comisiynydd yn seiliedig ar y sefyllfa asedau cyfredol net gan na all y Prif Gwnstabl ddal balansau arian parod.

Enillion a Cholledion

Nid oes unrhyw enillion na cholledion wedi'u cydnabod yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant mewn perthynas ag offerynnau ariannol.

Gwerthoedd Teg

Mae rhwymedigaethau ariannol hirdymor y Prif Gwnstabl yn cael eu cario ar y Fantolen ar gost wedi'i hamorteiddio.

O dan God Ymarfer 2010 mae'n ofynnol i Werthoedd Teg yr asedau a'r rhwymedigaethau hyn gael eu datgelu at ddibenion cymharu. Diffinnir Gwerth Teg yn Safon Adrodd Ariannol 26 (FRS 26) fel y swm y gellid cyfnewid ased amdano, neu y gellid setlo rhwymedigaeth, rhwng partïon parod gwybodus mewn trafodiad hyd braich. Gwerth teg offeryn ariannol ar adeg ei gydnabod yn gychwynnol yw pris y trafodiad fel arfer.

Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau rhwng lefel 1 a 2 yn ystod y flwyddyn.

Ni fu unrhyw newid yn y dechneg brisio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn.

| **Swm cario 31 Mawrth 2019 £'000** | **Gwerth teg 31 Mawrth 2019 £'000** | | **Swm cario 31 Mawrth 2020 £'000** | **Gwerth teg 31 Mawrth 2020 £'000** |
|---:|---:|---|---:|---:|
| | | Rhwymedigaethau Ariannol | | |
| (10,324) | (10,324) | Credydwyr | (8,562) | (8,562) |
| **(10,324)** | **(10,324)** | **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol** | **(8,562)** | **(8,562)** |
| | | Asedau Ariannol | | |
| 475 | 475 | Dyledwyr | 783 | 783 |
| **475** | **475** | **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | **783** | **783** |

Rhwymedigaethau Ariannol

Ar gyfer credydwyr, defnyddiwyd y gwerth cario fel brasamcan rhesymol o werth teg felly bydd y gwerth teg ar ddyddiad y Fantolen yr un fath â'r swm cario.

Asedau Ariannol

Ar gyfer dyledwyr, defnyddiwyd y gwerth cario fel brasamcan rhesymol o werth teg felly bydd y gwerth teg ar ddyddiad y Fantolen yr un fath â'r swm cario.

## 9. Dyledwyr Byrdymor

| **31 Mawrth 2019 £'000** | | **31 Mawrth 2020 £'000** |
|---:|---|---:|
| 475 | Rhagdaliadau | 674 |
| 0 | Symiau masnach derbyniadwy | 109 |
| **475** | **Cyfanswm** | **783** |

## 10. Credydwyr Byrdymor

| 31 Mawrth 2019 £'000 | | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| 970 | Symiau masnach taladwy | 2,335 |
| 9,354 | Symiau taladwy eraill | 6,227 |
| **10,324** | **Cyfanswm** | **8,562** |

## 11. Trefniadau Cydweithio

Mae gan heddluoedd yng Nghymru hanes llwyddiannus, hir o gydweithio i ddatblygu meysydd plismona arbenigol. Roedd hyn yn cynnwys y rhai o dan gylch gwaith Cyd-bwyllgor Awdurdodau Heddlu Cymru gynt. Caiff cydweithio yn y dyfodol ei sbarduno gan yr angen i fodloni'r Gofyniad Plismona Strategol a chan ganlyniadau'r Asesiad Strategol Rhanbarthol o fygythiadau, risgiau a niwed i ranbarth deheuol Cymru.

Bydd Comisiynydd Heddlu a Throseddu pob heddlu yn gyfrifol am sicrhau bod y Gofyniad Plismona Strategol yn cael ei fodloni. Fel rhan o hyn, bydd y Comisiynydd yn ceisio cydweithio â'r Comisiynwyr a'r heddluoedd eraill i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol posibl. Caiff cytundebau o'r fath eu rheoleiddio gan Adran 22A o Ddeddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Mae'r gwasanaethau cydweithio a'u cyllid yn parhau o dan drefniadau llywodraethu diwygiedig i'r Comisiynwyr a'r heddluoedd. Ystyrir y rhain yn 'Gyllidebau Cyfunol' i bob diben, gyda chytundebau ar gyfer cyfraniadau cyllido yn cael eu gwneud a'u hamrywio o bryd i'w gilydd, a rhai grantiau penodol gan y Llywodraeth. Mae'r cyllidebau cyfunol yn cael eu cynnal gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl De Cymru a Heddlu De Cymru i bob diben ar ran y pedwar heddlu yng Nghymru.

Cyflwynir Incwm a Gwariant ar gyfer prif weithgareddau'r unedau cydweithio isod, ynghyd â'r cyfraniadau ariannol gan bob heddlu sy'n cymryd rhan.

Wedi'i gynnwys yn y polisïau cyfrifyddu o dan drefniadau Cydweithio ceir esboniad o'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer cyd-ymgyrchoedd. Mae IFRS11, Cyfrifyddu ar gyfer Trefniadau Cydweithio, yn ei gwneud yn ofynnol i incwm a gwariant fod yn ddarostyngedig i driniaeth gyfrifyddu wahanol i'r hyn a ysgwyddir mewn gwirionedd. Yn unol â hynny, mae gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi'i gynyddu £1,660k ac mae incwm/grantiau wedi'u cynyddu £1,283k; cynnydd net o £377k mewn gwariant. Mae'r cynnydd net hwn wedi'i wrthdroi yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn heb unrhyw effaith ar falans Cronfa'r Heddlu.

Mae asedau, dyledwyr a chredydwyr mewn perthynas â'r trefniadau wedi parhau i gael eu nodi ym mantolenni heddluoedd ar sail eu perthnasedd.

Noder: Mae cyfraniadau heddluoedd unigol ar gyfer 2018/19 mewn perthynas â'r Cyd-uned Arfau Saethu wedi'u hailddatgan oherwydd bod y gwahaniaeth rhwng heddluoedd yn anghywir yn Natganiad o Gyfrifon 2018/19. *Mae Heddlu Gogledd Cymru yn seilio ei gostau Swyddi Diogelwch Penodol ar incwm a gwariant yn hytrach na dyraniad ar sail poblogaeth Cymru. Felly ni chaiff ei incwm a'i wariant ar gyfer Swyddi Diogelwch penodol eu cynnwys yn y tablau isod. Nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Tasglu Rhanbarthol, sy'n gweithredu yn Heddluoedd y Rhanbarth Deheuol. O ran yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol, mae Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu at Ranbarth Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.

Mae'r Datganiadau o Wariant ac Incwm ar gyfer 2019/20 ar gyfer y prif drefniadau cydweithio fel a ganlyn:

| Dosbarthiad y Gwasanaeth | Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth<br>Plismona Cenedlaethol<br>£'000 | Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol<br>Plismona Cenedlaethol<br>£'000 | Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/ Penodol<br>Plismona Cenedlaethol<br>£'000 | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol<br>Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio<br>£'000 | Tasglu Rhanbarthol<br>Cudd-wybodaeth<br>£'000 | Cyd-Uned Arfau Saethu<br>Ymgyrchoedd Arbenigol<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant ar Gyflogau | 10,366 | 509 | 4,029 | 6,308 | 1,666 | 11,765 | **34,643** |
| Gwariant nad yw'n Ymwneud â Chyflogau | 1,500 | 50 | 224 | 1,278 | 504 | 1,856 | **5,412** |
| **Gwariant Gros** | **11,866** | **559** | **4,253** | **7,586** | **2,170** | **13,621** | **40,055** |
| Incwm Grant Penodol | (11,831) | (559) | (4,253) | (3,764) | 0 | (1,271) | **(21,678)** |
| Incwm | (35) | 0 | 0 | (792) | (22) | (97) | **(946)** |
| **Cyfanswm yr Incwm a Grantiau** | **(11,866)** | **(559)** | **(4,253)** | **(4,556)** | **(22)** | **(1,368)** | **(22,624)** |
| **(Gwarged) neu Ddiffyg i'w ariannu o Gyfraniadau'r Heddlu** | **0** | **0** | **0** | **3,030** | **2,148** | **12,253** | **17,431** |
| Cyfraniadau'r Heddlu (Net) | | | | | | | |
| Dyfed-Powys | 0 | 0 | 0 | (616) | (437) | (3,438) | **(4,491)** |
| Gwent | 0 | 0 | 0 | (787) | (558) | (3,038) | **(4,383)** |
| Gogledd Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Cymru | 0 | 0 | 0 | (1,627) | (1,153) | (5,777) | **(8,557)** |
| **Cyfanswm Cyfraniadau'r Heddlu** | **0** | **0** | **0** | **(3,030)** | **(2,148)** | **(12,253)** | **(17,431)** |

Mae cyfraniad pob Heddlu tuag at Wariant ac Incwm ar gyfer 2019/20 fel a ganlyn:

| Dosbarthiad y Gwasanaeth a'r sail ddosrannu y cytunwyd arni | Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth<br>Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol)<br>£'000 | Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol<br>Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol)<br>£'000 | Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/ Penodol<br>Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol)<br>£'000 | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol<br>Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol)<br>£'000 | Tasglu Rhanbarthol<br>Cudd-wybodaeth (Cyfraniad Ariannol y Cytunwyd arno – darpariaeth leol)<br>£'000 | Cyd-Uned Arfau Saethu<br>Ymgyrchoedd Arbenigol (Cyfraniad Ariannol y Cytunwyd arno – darpariaeth leol)<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 1,959 | 92 | 412 | 1,610 | 441 | 4,235 | 8,749 |
| Gwent | 2,235 | 105 | 470 | 1,838 | 563 | 3,249 | 8,460 |
| Gogledd Cymru* | 2,640 | 124 | 2,313 | 0 | 0 | 0 | 5,077 |
| De Cymru | 5,032 | 237 | 1,058 | 4,137 | 1,165 | 6,138 | 17,767 |
| **Gwariant Gros** | **11,866** | **558** | **4,253** | **7,585** | **2,169** | **13,622** | **40,053** |
| Dyfed-Powys | (1,959) | (92) | (412) | (967) | (4) | (425) | (3,859) |
| Gwent | (2,235) | (105) | (470) | (1,104) | (6) | (326) | (4,246) |
| Gogledd Cymru* | (2,640) | (124) | (2,313) | 0 | 0 | 0 | (5,077) |
| De Cymru | (5,032) | (237) | (1,058) | (2,485) | (12) | (616) | (9,440) |
| **Cyfanswm yr Incwm a Grantiau** | **(11,866)** | **(558)** | **(4,253)** | **(4,556)** | **(22)** | **(1,367)** | **(22,622)** |

Roedd y Datganiadau o Wariant ac Incwm ar gyfer 2018/19 ar gyfer y prif drefniadau cydweithio fel a ganlyn:

| Dosbarthiad y Gwasanaeth | Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth<br>Plismona Cenedlaethol<br>£'000 | Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol<br>Plismona Cenedlaethol<br>£'000 | Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/ Penodol<br>Plismona Cenedlaethol<br>£'000 | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol<br>Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio<br>£'000 | Tasglu Rhanbarthol<br>Cudd-wybodaeth<br>£'000 | Cyd-Uned Arfau Saethu<br>Ymgyrchoedd Arbenigol<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant ar Gyflogau | 7,541 | 428 | 3,805 | 4,855 | 1,720 | 11,480 | **29,829** |
| Gwariant nad yw'n Ymwneud â Chyflogau | 1,644 | 46 | 380 | 2,333 | 575 | 1,656 | **6,634** |
| **Gwariant Gros** | **9,185** | **474** | **4,185** | **7,188** | **2,295** | **13,136** | **36,463** |
| Incwm Grant Penodol | (9,146) | (474) | (4,159) | (3,787) | 0 | (1,167) | **(18,733)** |
| Incwm | (39) | 0 | (26) | (1,512) | (21) | (245) | **(1,843)** |
| **Cyfanswm yr Incwm a Grantiau** | **(9,185)** | **(474)** | **(4,185)** | **(5,299)** | **(21)** | **(1,412)** | **(20,576)** |
| **(Gwarged) neu Ddiffyg i'w ariannu o Gyfraniadau'r Heddlu** | **0** | **0** | **0** | **1,889** | **2,274** | **11,724** | **15,887** |
| Cyfraniadau'r Heddlu (Net) | | | | | | | |
| Dyfed-Powys | 0 | 0 | 0 | (384) | (463) | (3,333) | **(4,180)** |
| Gwent | 0 | 0 | 0 | (491) | (590) | (2,913) | **(3,994)** |
| Gogledd Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Cymru | 0 | 0 | 0 | (1,014) | (1,221) | (5,478) | **(7,713)** |
| **Cyfanswm Cyfraniadau'r Heddlu** | **0** | **0** | **0** | **(1,889)** | **(2,274)** | **(11,724)** | **(15,887)** |

Roedd cyfraniad pob Heddlu tuag at Wariant ac Incwm ar gyfer 2018/19 fel a ganlyn:

| | Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth | Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol | Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/ Penodol | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol | Tasglu Rhanbarthol | Cyd-Uned Arfau Saethu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dosbarthiad y Gwasanaeth a'r sail ddosrannu y cytunwyd arni** | **Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000** | **Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000** | **Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000** | **Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000** | **Cudd-wybodaeth (Cyfraniad Ariannol y Cytunwyd arno – darpariaeth leol) £'000** | **Ymgyrchoedd Arbenigol (Cyfraniad Ariannol y Cytunwyd arno – darpariaeth leol) £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| Dyfed-Powys | 1,519 | 78 | 409 | 1,529 | 467 | 4,084 | **8,086** |
| Gwent | 1,727 | 89 | 465 | 1,739 | 596 | 3,133 | **7,749** |
| Gogledd Cymru* | 2,046 | 106 | 2,262 | 0 | 0 | 0 | **4,414** |
| De Cymru | 3,893 | 201 | 1,049 | 3,920 | 1,232 | 5,919 | **16,214** |
| **Gwariant Gros** | **9,185** | **474** | **4,185** | **7,188** | **2,295** | **13,136** | **36,463** |
| Dyfed-Powys | (1,519) | (78) | (409) | (1,127) | (4) | (439) | **(3,576)** |
| Gwent | (1,727) | (89) | (465) | (1,282) | (6) | (337) | **(3,906)** |
| Gogledd Cymru* | (2,046) | (106) | (2,262) | 0 | 0 | 0 | **(4,414)** |
| De Cymru | (3,893) | (201) | (1,049) | (2,890) | (11) | (636) | **(8,680)** |
| **Cyfanswm yr Incwm a Grantiau** | **(9,185)** | **(474)** | **(4,185)** | **(5,299)** | **(21)** | **(1,412)** | **(20,576)** |

## 12. Cydnabyddiaeth swyddogion

<u>Uwch-gyflogeion</u> – Roedd y gydnabyddiaeth a dalwyd i uwch-gyflogeion y Prif Gwnstabl yn 2019/20 fel a ganlyn:

| | Blwydd yn | O | I | Cyflog cyfwerth ag amser llawn ar 31.03.20 neu'r dyddiad gorffen £ | Cyflog gwirionedd ol, gan gynnwys lwfansau £ | Buddian nau ymarfer ol - ceir prydles (Nodyn 1) £ | Buddianna u ymarferol - treuliau adleoli £ | Cyflog yn Lle Rhybudd / Taliad Ymadael £ | Cyfanswm y gydnabyddi-aeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn £ | Cyfraniadau pensiwn £ | Cyfanswm y gydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl | 2019/20 | 01/04/2019 | 31/03/2020 | **142,896** | 144,817 | 0 | 0 | 0 | **144,817** | 43,848 | **188,665** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro (A) | 2019/20 | 01/04/2019 | 27/04/2019 | **116,718** | 8,754 | 0 | 0 | 0 | **8,754** | 2,714 | **11,468** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro (B) | 2019/20 | 03/04/2019 | 31/08/2019 | **116,718** | 49,029 | 0 | 0 | 0 | **49,029** | 14,875 | **63,904** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | 2019/20 | 01/09/2019 | 31/03/2020 | **119,637** | 71,251 | 0 | 0 | 0 | **71,251** | 21,634 | **92,885** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (A) | 2019/20 | 01/04/2019 | 31/03/2020 | **103,023** | 101,976 | 2,638 | 0 | 0 | **104,614** | 31,612 | **136,226** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (B) | 2019/20 | 08/12/2019 | 31/03/2020 | **103,023** | 33,123 | 5,644 | 0 | 0 | **38,767** | 10,045 | **48,812** |
| Cyfarwyddwr Cyllid/ Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl | 2019/20 | 01/04/2019 | 31/03/2020 | **90,201** | 89,285 | 0 | 0 | 0 | **89,285** | 12,053 | **101,338** |
| **Cyfanswm 2019/20** | | | | | **498,235** | **8,282** | **0** | **0** | **506,517** | **136,781** | **643,298** |

Nodyn 1: Darperir cerbydau ar gyfer y Prif Gwnstabl a'r Dirprwy Brif Gwnstabl ond nid oes yn rhaid talu treth incwm mewn perthynas â'r budd, gan fod y ddau swyddog hyn ar alwad drwy'r amser. Mae hyn yn unol ag Adran 248A o'r Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) sy'n datgan: *"1) This section applies where a) an emergency vehicle is made available to a person employed in an emergency service for the person's private use and b) the terms on which it is made available prohibit its private use otherwise than when the person is on call or engaged in on-call commuting and c) the person does not make private use of it other than in such circumstances, 2) No liability to income tax arises by virtue of Chapter 6 or 10 or Part 3 (taxable benefits: cars, vans etc and residual liability to charge) in respect of the benefit".*

<u>Uwch-gyflogeion</u> – Roedd y gydnabyddiaeth a dalwyd i uwch-gyflogeion y Prif Gwnstabl yn 2018/19 fel a ganlyn:

| | Blwyddyn | O | I | Cyflog sylfaenol cyfwerth ag amser llawn ar 31.03.19 neu'r dyddiad gorffen £ | Cyflog gwirioneddol, gan gynnwys lwfansau £ | Buddiannau ymarferol - ceir prydles (Nodyn 2) £ | Buddiannau ymarferol - treuliau adleoli £ | Cyflog yn Lle Rhybudd / Taliad Ymadael £ | Cyfanswm y gydnabyddi-aeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn £ | Cyfraniadau pensiwn £ | Cyfanswm y gydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl | **2018/19** | 01/04/2018 | 31/03/2019 | **139,410** | 141,645 | 0 | 0 | 0 | **141,645** | 33,462 | **175,107** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | **2018/19** | 01/04/2018 | 05/01/2019 | **116,718** | 94,875 | 0 | 0 | 0 | **94,875** | 9,231 | **104,106** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol – Llywodraeth Cymru | **2018/19** | 01/04/2018 | 31/12/2018 | **113,475** | 86,360 | 2,670 | 0 | 0 | **89,030** | 8,974 | **98,004** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro | **2018/19** | 18/11/2018 | 31/03/2019 | **116,718** | 43,121 | 0 | 0 | 0 | **43,121** | 10,435 | **53,556** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | **2018/19** | 22/04/2018 | 17/11/2018 | **100,509** | 56,807 | 0 | 0 | 0 | **56,807** | 13,747 | **70,554** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (A) | **2018/19** | 18/11/2018 | 31/03/2019 | **100,509** | 37,132 | 1,002 | 0 | 0 | **38,134** | 8,986 | **47,120** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (B) | **2018/19** | 03/04/2018 | 31/03/2019 | **87,327** | 90,625 | 0 | 0 | 0 | **90,625** | 20,782 | **111,407** |
| Cyfarwyddwr Cyllid/ Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl | **2018/19** | 01/04/2018 | 31/03/2019 | **86,106** | 86,420 | 0 | 0 | 0 | **86,420** | 11,667 | **98,087** |
| **Cyfanswm 2018/19** | | | | | **636,985** | **3,672** | **0** | **0** | **640,657** | **117,284** | **757,941** |

Nodyn 1: Nodyn 1: Cafodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ei secondio i Lywodraeth Cymru fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol – Llywodraeth Cymru. Ailgodwyd 50% o'i chostau ar secondiad ar Lywodraeth Cymru.

Nodyn 2: Darperir cerbydau ar gyfer y Prif Gwnstabl a'r Dirprwy Brif Gwnstabl ond nid oes yn rhaid talu treth incwm mewn perthynas â'r budd, gan fod y swyddogion hyn ar alwad drwy'r amser. Mae hyn yn unol ag Adran 248A o'r Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) sy'n datgan: *"1) This section applies where a) an emergency vehicle is made available to a person employed in an emergency service for the person's private use and b) the terms on which it is made available prohibit its private use otherwise than when the person is on call or engaged in on-call commuting and c) the person does not make private use of it other than in such circumstances, 2) No liability to income tax arises by virtue of Chapter 6 or 10 or Part 3 (taxable benefits: cars, vans etc and residual liability to charge) in respect of the benefit".*

Cyflogeion eraill (heb gynnwys uwch swyddogion – y nodir eu manylion uchod)

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion eraill y Prif Gwnstabl a oedd yn cael cydnabyddiaeth o fwy na £60,000 ar gyfer y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

| 2018/19 Nifer y cyflogeion | | 2019/20 Nifer y cyflogeion* |
|---|---|---|
| 10 | £60,000 - £64,999* | 12 |
| 6 | £65,000 - £69,999 | 4 |
| 3 | £70,000 - £74,999* | 3 |
| 3 | £75,000 - £79,999 | 4 |
| 2 | £80,000 - £84,999 | 7 |
| 2 | £85,000 - £89,999 | 0 |
| 1 | £90,000 - £94,999 | 1 |
| 0 | £95,000 - £99,999 | 0 |

Cymhareb Cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl

Mae'r diwygiad i Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn 2014 wedi ychwanegu gofyniad newydd i nodi'r wybodaeth ganlynol am gymhareb y gydnabyddiaeth.

a) cydnabyddiaeth Prif Gwnstabl y corff yn ystod y flwyddyn y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi

b) cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn ganolrifol holl gyflogeion y corff a oedd mewn swydd ar 31 Mawrth 2020;

c) y gymhareb rhwng y swm yn is-baragraff (a) a'r swm yn is-baragraff (b);

Mae cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog sylfaenol, goramser, lwfansau a buddiannau ymarferol.

Cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl ar gyfer 2019/20 oedd £144,817 (ni chafodd y Prif Gwnstabl unrhyw fuddiannau ymarferol yn 2019/20, cyfeiriwch at nodyn 1 o'r tabl Cydnabyddiaeth Swyddogion uchod). Cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn ganolrifol holl gyflogeion y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2020 oedd £35,980. Y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl a chydnabyddiaeth ganolrifol cyflogeion y Prif Gwnstabl oedd 4:02:1 (4:03:1 yn 2018/19).

Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio

Mae'r Cynllun Llywodraethu yn nodi y dylai treuliau Aelodau gael eu rhannu'n gyfartal rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Yn 2019/20, roedd y lwfansau a'r treuliau a dalwyd yn cyfateb i gyfanswm o £5,000 (£3,000 yn 2018/19). Gan nad yw 50% o'r swm hwn yn berthnasol, ni chyfrifwyd am y costau yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl.

## 13. Costau archwilio allanol

Yn 2019/20 aeth y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i gost o £79k mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad o Gyfrifon, ardystio hawliadau grant ac arolygiadau statudol a gwasanaethau a ddarparwyd gan archwilwyr allanol yr Heddlu nad ydynt yn rhai archwilio (2018/19: £79k).

## 14. Partïon cysylltiedig

Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl ddatgelu trafodion perthnasol â phartïon cysylltiedig, h.y. cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Prif Gwnstabl neu'r potensial i'r Prif Gwnstabl eu rheoli neu ddylanwadu arnynt. Drwy ddatgelu'r trafodion hyn gall darllenwyr asesu i ba raddau y gallai'r Prif Gwnstabl fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n ddirwystr â'r Prif Gwnstabl.

Llywodraeth Ganolog

Mae gan lywodraeth ganolog ddylanwad sylweddol ar weithrediadau cyffredinol Heddlu Dyfed-Powys / y Comisiynydd; gan ei bod yn gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae Heddlu Dyfed-Powys / y Comisiynydd yn gweithredu oddi mewn iddo, yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan Heddlu Dyfed-Powys / y Comisiynydd â phartïon eraill. Nodir y grantiau a dderbyniwyd gan adrannau'r llywodraeth yn Nodyn 30 o Ddatganiad o Gyfrifon y Grŵp, y mae gan y rhan fwyaf ohonynt delerau ac amodau caeth.

Endidau y mae'r Prif Gwnstabl yn eu Rheoli neu'n Dylanwadu'n Sylweddol arnynt

Mae'r Prif Gwnstabl a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl yn ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth “Safer Dyfed-Powys Diogel”. Yn 2019/20, ni fu unrhyw drafodion ariannol rhwng y Prif Gwnstabl a Safer Dyfed-Powys Diogel (2018/19: £0). Ceir rhagor o wybodaeth am yr Ymddiriedolaeth yn nodyn 38 o Ddatganiad o Gyfrifon y Grŵp.

Aelodau’r Cyd-bwyllgor Archwilio

Dangosir cyfanswm lwfansau'r Aelodau a dalwyd yn 2019/20 yn nodyn 12.

Nid oes unrhyw un o'r Aelodau, na phartïon sy'n gysylltiedig â hwy, wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol â'r Prif Gwnstabl yn 2019/20.

## 15. Prydlesau

**Prif Gwnstabl fel Prydlesai**

Prydlesau Cyllid

Nid oes gan y Prif Gwnstabl unrhyw Brydlesau Cyllid.

Prydlesau Gweithredu

Mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys yn prydlesu eiddo o berchenogion eiddo eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy, er mwyn darparu swyddfeydd addas ar gyfer plismona gweithredol a chymorth. Mae gan Heddlu Dyfed-Powys brydlesau gweithredu hefyd ar gyfer offer a chyfarpar sy'n cynnwys llungopiwyr.

Yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

| 31 Mawrth 2019 £'000 | | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| 148 | Dim hwyrach na blwyddyn | 155 |
| 544 | Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 487 |
| 1,346 | Yn hwyrach na phum mlynedd | 1,242 |
| **2,038** | **Cyfanswm** | **1,884** |

Y gwariant a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesau hyn oedd:

| 2018/19 £'000 | | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| 187 | Isafswm taliadau prydles | 215 |
| **187** | **Cyfanswm** | **215** |

## 16. Buddiannau terfynu

Nodir nifer y pecynnau ymadael fesul band, ynghyd â chyfanswm cost ymadawiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer 2019/20 a 2018/19 yn y tabl isod:

| Band cost pecyn ymadael | 2018/19 Nifer yr ymadawiadau y cytunwyd arnynt ym mhob band | 2018/19 Cost yr ymadawiad (gan gynnwys cyflog yn lle rhybudd) £'000 | 2019/20 Nifer yr ymadawiadau y cytunwyd arnynt ym mhob band | 2019/20 Cost yr ymadawiad (gan gynnwys cyflog yn lle rhybudd) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| £0 - £20,000 | 2.0 | 39 | 0 | 0 |
| £20,001 - £40,000 | 12.7 | 477 | 0 | 0 |
| £40,001 - £60,000 | 2.7 | 130 | 0 | 0 |
| | **17.4** | **646** | **0** | **0** |

Ymddeoliad Hyblyg

Mae'r Heddlu wedi mabwysiadu'r polisi hwn yn ddiweddar ac yn ystod y flwyddyn, manteisiodd 1 aelod o staff yr heddlu ar yr opsiwn. Oherwydd yr ymddeoliadau hyblyg hyn, mae straen actiwaraidd wedi'i gymhwyso i'r Cynllun Llywodraeth Leol a arweiniodd at godi cost o £27k ar yr Heddlu.

## 17. Cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig

Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Prif Gwnstabl yn gwneud cyfraniad tuag at gost buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy mewn

gwirionedd nes bod cyflogeion yn ymddeol, mae gan y Prif Gwnstabl ymrwymiad i wneud y taliadau y mae angen eu datgelu ar yr adeg y mae cyflogeion yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae'r Prif Gwnstabl yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Sir Caerfyrddin – cynllun CARE (Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd) buddiannau diffiniedig a ariannwyd ydyw, sy'n golygu bod y Prif Gwnstabl a chyflogeion yn talu cyfraniadau i mewn i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi fantoli'r rhwymedigaethau pensiwn â'r asedau buddsoddi. Dylid nodi bod pob aelod o staff yn cael ei gyflogi gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ond mae'r rhan fwyaf o'r staff o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl. Mae costau wedi'u dosrannu i adlewyrchu hyn.
- Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu – cynllun CARE (Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd) buddiannau diffiniedig nas ariannwyd ydyw, ac o ganlyniad nid oes gan y gronfa unrhyw asedau buddsoddi. Caiff buddiannau sy'n daladwy eu hariannu gan gyfraniadau gan gyflogwyr a chyflogeion a thelir unrhyw wahaniaeth rhwng buddiannau sy'n daladwy a chyfraniadau sy'n dderbyniadwy drwy grant ychwanegol gan y Swyddfa Gartref drwy law'r Comisiynydd.

Trafodion sy'n ymwneud â Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Cydnabyddir cost buddiannau ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan gyflogeion, yn hytrach na phan delir y buddiannau ar ffurf pensiynau yn y pen draw.

Caiff y costau hyn eu gwrthdroi o gyfrifon y Prif Gwnstabl i gyfrifon y Comisiynydd gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am ddal unrhyw gronfeydd wrth gefn. Dangosir hyn ar y dudalen nesaf fel trosglwyddiad o fewn y grŵp:

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | |
| Cost gwasanaethau | | | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol | (6,646) | (7,925) | (23,230) | (27,900) |
| Cost gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys McCloud) | (3,278) | (561) | (75,453) | (5,145) |
| Arall | (116) | (96) | 0 | 0 |
| Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | | | | |
| Cost llog net | (868) | (1,159) | (30,577) | (32,657) |
| **Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Warged neu Ddiffyg Darparu Gwasanaethau** | **(10,908)** | **(9,741)** | **(129,260)** | **(65,702)** |
| Buddiant Ôl-gyflogaeth Arall a Godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | |
| Ailfesur y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net sy'n cynnwys: | | | | |
| Enillion ar asedau'r cynllun (heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net) | 4,500 | (11,394) | 0 | 0 |
| (Ennill)/colli profiad | 0 | (13,214) | 0 | 0 |
| Ailfesur enillion a cholledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 0 | 5,538 | 0 | 21,207 |
| Ailfesur enillion a cholledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | (11,290) | (3,249) | (74,124) | (26,902) |
| **Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth Arall a Godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(17,698)** | **(32,060)** | **(203,384)** | **(71,397)** |
| **Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp)** | 17,698 | 32,060 | 203,384 | 71,397 |
| **Cyfanswm y gost net** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn | | | | |
| Gwrthdroi'r taliadau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Diffyg ar gyfer Darparu Gwasanaethau ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn | | | | |
| Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun | 0 | 0 | 0 | 0 |

Proseswyd trosglwyddiad o fewn y grŵp i gyfrifon y Prif Gwnstabl, gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am reoli cronfeydd wrth gefn.

Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a gydnabuwyd yn y Fantolen

Y Prif Gwnstabl sy'n mynd i'r rhan fwyaf o gostau cyflogaeth, felly mae asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â buddiannau ôl-gyflogaeth yn aros yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl.

Y rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig:

| 2019/20 | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol<br>2019/20<br>£'000 | Cynllun Pensiwn yr Heddlu<br>2019/20<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | (211,858) | (1,362,997) | (1,574,855) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 131,637 | 0 | 131,637 |
| **Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig** | **(80,221)** | **(1,362,997)** | **(1,443,218)** |

| 2018/19 | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol<br>2019/20<br>£'000 | Cynllun Pensiwn yr Heddlu<br>2019/20<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | (186,877) | (1,321,002) | (1,507,879) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 136,722 | 0 | 136,722 |
| **Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig** | **(50,155)** | **(1,321,002)** | **(1,371,157)** |

Cyfanswm y rhwymedigaeth a gofnodwyd ar y fantolen yn y cyfrifon hyn yw £1,443.2m. Oherwydd perthnasedd nid yw'r atebolrwydd yn y tabl uchod wedi'i rannu rhwng y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd. Felly, mae'r ffigurau a nodir yn y tabl uchod ar gyfer y Grŵp.

Cysoni'r symudiadau yng Ngwerth teg Asedau'r Cynllun

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2018/19<br>£'000 | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 | 2019/20<br>£'000 |
| **Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun** | **126,534** | **136,722** | **0** | **0** |
| Incwm llog | 3,448 | 3,455 | 0 | 0 |
| Ailfesur ennill / (colled) | | | | |
| Yr enillion ar asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net | 4,500 | (11,394) | 0 | 0 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 3,240 | 3,399 | 29,475 | 29,402 |
| Cyfraniadau gan gyflogeion i'r cynllun | 1,501 | 1,552 | 5,879 | 5,792 |
| Buddiannau a dalwyd | (2,385) | (2,001) | (35,354) | (35,194) |
| Arall (os yw'n gymwys) | (116) | (96) | 0 | 0 |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau** | **136,722** | **131,637** | **0** | **0** |

Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig):

| | Rhwymedigaethau a Ariannwyd: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Rhwymedigaethau nas Ariannwyd: Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2018/19<br>£'000 | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 | 2019/20<br>£'000 |
| **Balans Agoriadol ar 1 Ebrill** | **(161,629)** | **(186,877)** | **(1,147,093)** | **(1,321,002)** |
| Cost gwasanaeth cyfredol | (6,926) | (8,280) | (23,230) | (27,900) |
| Cost llog | (4,352) | (4,666) | (30,577) | (32,657) |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | (1,501) | (1,552) | (5,879) | (5,792) |
| Ailfesur enillion/colledion | | | | |
| Ailfesur enillion / colledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 0 | 5,538 | 0 | 21,207 |
| Ailfesur enillion / colledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | (11,576) | (4,247) | (74,124) | (26,902) |
| Arall (os yw'n gymwys) | 0 | (13,214) | 0 | 0 |
| Cost gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys McCloud) | (3,278) | (561) | (75,453) | (5,145) |
| Colledion / enillion ar gwtogi (lle y bo'n berthnasol) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Buddiannau a Dalwyd | 2,385 | 2,001 | 35,354 | 35,194 |
| **Balans wrth gau ar 31 Mawrth** | **(186,877)** | **(211,858)** | **(1,321,002)** | **(1,362,997)** |

Roedd asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys:

| | Gwerth teg asedau'r Cynllun | |
|---|---|---|
| | 2018/19<br>£'000 | 2019/20<br>£'000 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 820 | 658 |
| Offerynnau ecwiti | 94,475 | 96,372 |
| Bondiau | 22,833 | 18,468 |
| Eiddo | 18,594 | 16,139 |
| **Cyfanswm yr asedau** | **136,722** | **131,637** |

<u>Sail dros amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau</u>

Mae'r rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, lefelau cyflog ac ati.

Mae rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu wedi cael eu hamcangyfrif gan Mercer Human Resource Consulting, sef cwmni annibynnol o actiwarïaid, ac mae amcangyfrifon ar gyfer Cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn seiliedig ar y prisiad tair blynedd diweddaraf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2018.

Y rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yw:

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 |
| Rhagdybiaethau ynglŷn â marwolaethau | | | | |
| Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr presennol | | | | |
| • Dynion | 23.0 | 23.0 | 26.5 | 26.3 |
| • Menywod | 25.7 | 24.9 | 28.4 | 28.4 |
| Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr yn y dyfodol | | | | |
| • Dynion | 25.2 | 24.5 | 28.4 | 28.5 |
| • Menywod | 28.1 | 27.1 | 30.4 | 30.6 |
| Rhagdybiaethau eraill | | | | |
| Cyfradd chwyddiant | 2.2% | 2.1% | 2.2% | 2.1% |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 3.7% | 3.6% | 3.7% | 3.5% |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau | 2.3% | 2.2% | 2.3% | 2.2% |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun | 2.5% | 2.3% | 2.5% | 2.3% |

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau o sensitifrwydd isod wedi'u pennu yn seiliedig ar newidiadau posibl rhesymol yn y rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac sy'n tybio ar gyfer pob

newid bod y rhagdybiaeth a ddadansoddwyd yn newid ond bod yr holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn gydgysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Ni newidiodd y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad o sensitifrwydd isod o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

| Cynllun yr Heddlu Llywodraeth Leol 2019/20 | Effaith ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn y cynllun | |
|---|---|---|
| | Cynnydd yn y rhagdybiaeth £'000 | Lleihad yn y rhagdybiaeth £'000 |
| Hirhoedledd (cynnydd neu leihad o flwyddyn) | 5,495 | |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 4,642 | |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 963 | |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | | 4,542 |

| Cynllun Pensiwn yr Heddlu 2019/20 | Effaith ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn y cynllun | |
|---|---|---|
| | Cynnydd yn y rhagdybiaeth £'000 | Lleihad yn y rhagdybiaeth £'000 |
| Hirhoedledd (cynnydd neu leihad o flwyddyn) | 36,960 | |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 27,497 | |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 5,748 | |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | | 26,902 |

### Cynllun Heddlu Llywodraeth Leol - Effaith ar Lifau Arian Parod

Amcan y cynllun yw sicrhau bod cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl. Mae'r Grŵp wedi cytuno ar strategaeth ag actiwari'r cynllun er mwyn cyflawni lefel ariannu o 100% dros y tair blynedd nesaf. Cwblhawyd y prisiad tair blynedd ar 31 Mawrth 2018 a dangosir manylion cyfraddau cyflogwyr yn y dyfodol isod:

| Blwyddyn | Cyfradd y cyflogwr |
|---|---|
| 2020/21 | 17.8% |
| 2021/22 | 17.8% |
| 2022/23 | 17.8% |

### Her Gyfreithiol Pensiwn yr Heddlu – Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd (McCloud/Sargeant)

Ym mis Mehefin 2019 pasiwyd dyfarniad gan y Goruchaf Lys yn achos McCloud/Sargeant fod y broses amddiffyn wrth bontio yn Niwygiad Rheoliadau Pensiwn y Farnwriaeth a Diffoddwyr Tân yn arwain at wahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran. Yn dilyn hynny, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bod yn derbyn bod y dyfarniad yn berthnasol i bob un o gynlluniau pensiwn y prif wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys Cynlluniau Pensiwn yr Heddlu a Llywodraeth Leol.

Er y gallai gymryd tan 2021 er mwyn penderfynu ar ateb terfynol, mae amcangyfrif actiwaraidd o'r effaith ariannol wedi'i gynnwys fel cost gwasanaeth a roddwyd ac mae'r effaith bosibl ar y rhwymedigaeth pensiynau wedi'i chynnwys yn y Fantolen a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020.

O ran Cynlluniau Pensiwn Llywodraethau Lleol ar gyfer Staff yr Heddlu, fel rhan o'r prisiad bob tair blynedd, cynyddwyd cyfradd cyfraniad y cyflogwr 1.2% o fis Ebrill 2020 er mwyn ystyried y costau ychwanegol rhagamcanol. O ran Cynllun Swyddogion yr Heddlu, mae'r broses brisio yn cael ei chychwyn yn 2020 ond nid oes disgwyl i newidiadau i gyfradd cyfraniadau pensiwn cyflogwyr swyddogion yr heddlu gael eu gweithredu tan 2023/24.

**Effaith Covid-19 ar Bensiynau Staff a Swyddogion yr Heddlu**

Mewn cylchlythyr dyddiedig 31 Mawrth 2020, cadarnhaodd Mercer fod rhagdybiaethau actiwaraidd wedi eu pennu yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn – a olygai fod effaith y cythrwfl yn y farchnad a ddaeth yn sgil y pandemig Covid-19 wedi ei hymgorffori yn eu hasesiad. Ym mis Mawrth 2020, cafwyd gostyngiadau sylweddol mewn marchnadoedd ecwiti sydd wedi effeithio ar werth asedau a ddelir o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a ariennir. Fel cynllun heb ei ariannu, nid yw hyn yn effeithio ar Gynllun Pensiwn yr Heddlu.

Yn ystod yr un mis, mae'r gostyngiadau yn y farchnad hefyd wedi ymestyn i elw bondiau corfforaethol gydag elw bondiau AA yn cynyddu tua 0.5% y flwyddyn. Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yn y cyfrifiadau wedi gostwng o 2.5% ar gyfer 2018/19 i 2.3% yn 2019/20 sy'n adlewyrchu amodau'r farchnad fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2020 ac a fydd wedi cynyddu'r rhwymedigaeth ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Swyddogion a Staff yr Heddlu.

Mewn cylchlythyr a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Gâr (gweinyddwyr ein pensiwn) ar effaith y pandemig, adroddwyd bod gwerthoedd asedau ar gyfer ei gynlluniau wedi gostwng tua 14% rhwng Rhagfyr 2019 a Mawrth 2020. Ni fydd effaith ariannol lawn tymor hwy hyn ar gyfraddau cyfraniadau yn cael ei phrofi ar gyllidebau tan y dyddiad prisio nesaf, h.y. 2023. Yn y tymor byr, amcangyfrifir y bydd y gymhareb asedau i gostau wedi gostwng o 100% i rhwng tua 90% a 95% yn seiliedig ar gylchlythyr diweddaraf y Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol.

Mae'r Coronafeirws (COVID-19), a ddatganwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd fel "Pandemig Byd-eang" ar 11 Mawrth 2020, wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol a marchnadoedd eiddo ar draws y byd. Oherwydd yr amodau marchnad hyn, mae ansicrwydd prisio perthnasol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad gwerthuso diwedd flwyddyn ar gyfer cronfa fuddsoddi eiddo cyfunol Cronfa Bensiwn Dyfed. Y geiriad penodol yn yr adroddiad yw "Ar 31 Mawrth 2020, mae Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig wedi cynghori bod ansicrwydd prisio perthnasol ar hyn o bryd o ran Cronfeydd Ystâd Real y DU oherwydd amodau'r farchnad." Cyfanswm gwerth y gronfa hon ar 31 Mawrth 2020 yw £296.3 miliwn. Rhan Heddlu Dyfed-Powys o'r gronfa hon yw £16.3 miliwn (5.5%).

## 18. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Ymchwiliad i Blismona Cudd

Diben yr ymchwiliad hwn yw ymchwilio i ymgyrchoedd cudd a gynhaliwyd gan heddluoedd yng Nghymru a Lloegr ers 1968 a chyflwyno adroddiad arno. Mae'r ymchwiliad yn ystyried y cyfraniad y mae plismona cudd wedi'i wneud i fynd i'r afael â throseddu, sut roedd/mae yn cael ei oruchwylio a'i reoleiddio, a'i effaith ar yr unigolion dan sylw – swyddogion yr heddlu ac eraill a ddaeth i gysylltiad â hwy.

Mae atebolrwydd wedi'i sefydlu a, gyda 11 o Heddluoedd eraill, mae cyfreithwyr allanol wedi'u penodi i gynrychioli swyddog(ion) cyfredol. Cytunwyd y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn talu 5% o gostau paratoi cyffredinol y cwmni cyfreithiol, ac adlewyrchwyd y rhain yn y cyfrifon. Ymdriniwyd ag unrhyw faterion cyfreithiol eraill yn ymwneud â Heddlu Dyfed-Powys yn fewnol.

Ar hyn o bryd, mae gwaith yr ymchwiliad ar gam rhy gynnar eto i ragweld yn gywir gostau pellach ac felly ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn Natganiadau Cyfrifyddu 2019/20.

Hawliadau Lwfans Ar Alw Uned Ymdrin Ffynhonnell Benodedig

Mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys, ynghyd â Phrif Gwnstabliaid eraill, yn wynebu hawliadau "Lwfans Ar Alw" o dan Reoliad 34 o Atodiad U i Reoliadau'r Heddlu 2003. Mae'r hawlwyr yn swyddogion yr heddlu cyfredol a/neu wedi ymddeol ac yn aelodau o "Uned Ymdrin Ffynhonnell Benodedig (Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol)". Dywed yr hawlwyr fod eu rolau yn gofyn iddynt ateb ffonau symudol a delio â'r sawl sydd am roi cudd-wybodaeth i'r heddlu. Hefyd, dywedant iddynt oruchwylio ymdrinwyr ffynonellau a bod y tasgau hyn wedi gofyn iddynt fonitro eu ffonau bob dydd.

Ar y cam hwn, ni phennwyd atebolrwydd ac felly ni fyddai'n briodol gwneud unrhyw ddarpariaeth yn Natganiadau Cyfrifyddu 2019/20. Hefyd ni ellir darparu amcangyfrif rhesymol o atebolrwydd ar y cam hwn.

Lwfansau Cydredol

Ym mis Tachwedd 2019, derbyniodd y Prif Gwnstabl nifer o hawliadau gan staff yr heddlu mewn perthynas â cheisiadau am oriau anghymdeithasol a lwfansau nos i gael eu talu ar yr un pryd â chyflog goramser.

Caiff staff eu cynrychioli gan UNISON yn y mater hwn ac ni ddaethpwyd i gytundeb ffurfiol ar fodolaeth y cyfryw hawl. Nid oes unrhyw rwymedigaeth wedi'i sefydlu ac ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn Natganiadau Cyfrifyddu 2019/20.

Achos Evans ac Ashcroft – Didyniadau Pensiwn yn ymwneud ag Anafiadau

Ym mis Hydref 2018, dyfarnodd y Llys Apêl o blaid Evans ac Ashcroft mewn achos a oedd yn ymwneud â didyniadau yn erbyn pensiynau yn gysylltiedig â dyfarniadau anafiadau ar ddyletswydd. Gallai canlyniad o'r fath gynyddu rhwymedigaethau pensiwn. Nid yw'r heddlu yn gwneud unrhyw daliadau pensiwn lle y gallai didyniad o'r fath fod wedi'i gymhwyso, ac felly ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y datganiadau hyn.

## 19. Natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol

Risg Credyd

**Symiau Masnach Derbyniadwy**

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi amlygiad posibl mwyaf y Prif Gwnstabl i risg credyd, yn seiliedig ar y profiad a gafwyd dros y pum blwyddyn ariannol ddiwethaf ar lefel diffyg talu ymhlith dyledwyr masnach, wedi'i addasu ar gyfer amodau presennol y farchnad. Yn unol â gofynion y Cod Ymarfer, dim ond manylion dyledwyr sydd wedi codi o ganlyniad i weithgareddau masnachu mae'r datgeliad isod yn eu cynnwys. Nid yw balansau na thrafodion sy'n deillio o swyddogaethau statudol (h.y. treth a thaliadau ardrethi annomestig cenedlaethol) wedi'u cynnwys yn y nodyn datgelu hwn, gan nad ydynt wedi codi o ganlyniad i weithgareddau masnachu cytundebol.

Cyfrifir Darpariaeth Drwg-ddyledion ar lefel Grŵp gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn dal darpariaethau. Felly er gwybodaeth yn unig y rhoddir y ffigurau hyn.

| Dyledwyr Gros y Grŵp £'000 | Darpariaeth Drwg-ddyledion ar gyfer y Grŵp 2019/20 £'000 | Darpariaeth Drwg-ddyledion ar gyfer 2019/20 fel % o Ddyledwyr Masnach y Grŵp |
|---:|---:|---:|
| 1,771 | 231 | 13.0 |

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd 2019-20

### Cyflwyniad a Chwmpas Cyfrifoldebau

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei weinyddu yn unol â'r gyfraith, i'r safonau priodol a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd effeithiol, effeithlon a darbodus. Mae dyletswydd arnynt hefyd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff eu swyddogaethau eu cyflawni.

Wrth gyflawni eu cyfrifoldeb cyffredinol, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu materion a hwyluso eu swyddogaethau, sy'n cynnwys sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal drwy gydol y flwyddyn a bod trefniadau ar waith i reoli risg.

Mae'r Datganiad hwn yn egluro sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n adlewyrchu egwyddorion canllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) *Delivering Good Governance: Guidance Notes for Policing Bodies in England and Wales 2016 Edition.* Mae hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), mewn perthynas â'r datganiad rheolaeth fewnol a chyhoeddi'r datganiad llywodraethu blynyddol. Mae'r dull gweithredu a ddilynwyd eleni yn wahanol i'r un blaenorol yn yr ystyr bod y ddogfen hon yn amlinellu canfyddiadau gwerthuso i drefniadau llywodraethu a chaiff ei hategu gan fatrics tystiolaeth sy'n nodi sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn arddangos yr egwyddorion a'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig â llywodraethu da.

### Egwyddorion Llywodraethu Da

Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y cyd http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/9265/corporate-governance-framework-2020-21.pdf yn nodi'r systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a fydd yn sail i'r ffordd yr aiff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys ati i lywodraethu eu gweithgareddau, ar y cyd ac ar wahân. Mae'r Fframwaith yn galluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl i fonitro cyflawniadau yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu ac ystyried p'un a ydynt wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol, gan gynnwys gwerth am arian.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw a'i nod yw rheoli risg i lefel resymol a rhagweladwy. Ni all atal pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni nodau ac amcanion y sefydliad, gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe caent eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government, sy'n berthnasol i gyrff plismona, yn nodi'r saith egwyddor sy'n sail i drefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig yn cael eu diffinio a'u cyflawni. Mae'r Datganiad hwn yn rhoi asesiad yn erbyn pob un o'r egwyddorion hynny.

**Ymateb Dyfed-Powys i Bandemig y Coronafeirws**

Wrth awduro'r Datganiad hwn, roedd y pandemig COVID-19 byd-eang wedi cyrraedd y DU. Ar adeg ysgrifennu'r datganiad hwn, mae effaith pandemig y coronafeirws ar blismona yn Nyfed-Powys yn aneglur. Fodd bynnag, mae elfen o sicrwydd y bydd goblygiadau sylweddol o ran costau i sicrhau bod gwasanaethau plismona yn parhau i gael eu darparu'n lleol. Ymhellach, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y gwasanaeth a ddarparwn yn bodloni disgwyliadau rhesymol y cyhoedd yn ogystal â gorfodi deddfwriaeth Cymru a Phrydain – sy'n prysur ddatblygu – i lywodraethu masnach, manwerthu a diwydiant yn ogystal â symudiad cyffredinol y cyhoedd.

**<u>Llywodraethu</u>**

Mae strwythur llywodraethu Aur, Arian ac Efydd wedi'i roi ar waith sy'n sicrhau deialog â'r strwythurau rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r strwythurau Trefn Reoli Aur, Arian ac Efydd yn gweithio ar y cyd â Grŵp Trefn Reoli Strategol, Grŵp Trefn Reoli Tactegol a'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. Cefnogir y strwythur lleol gan nifer o is-grwpiau a chelloedd sy'n sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio, bod risg yn cael ei rheoli, bod lles yn cael ei gefnogi a'n bod yn dysgu o'r sefyllfa. Mae'r strwythur a grëwyd o fewn Dyfed-Powys yn llywio strwythur Cymru Gyfan sy'n cefnogi Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, ystafell friffio'r Cabinet a sefydliadau eraill megis Canolfan Gydgysylltu Genedlaethol yr Heddlu (NPoCC). Mae strwythur Cymru'n llywio strwythurau Aur ac Arian Cenedlaethol y mae'r Swyddfa Gartref yn ganolog iddynt.

Caiff penderfyniadau a chamau a wneir o fewn y strwythurau llywodraethu lleol fel y'u hamlinellir uchod eu cofnodi a'u harbed ar safle SharePoint penodol. Caiff yr adran gyllid ei chynrychioli ar grwpiau gweithredol Aur ac Arian er mwyn monitro cyllidebau a hwyluso prosesau adrodd ac uwchgyfeirio priodol (os yw'n briodol) i Grŵp y Prif Swyddogion a'r Bwrdd Plismona.

Yn ogystal, mae'r heddlu, yn unol â'r arferion gorau, wedi sefydlu Celloedd Dysgu ac Adfer Sefydliadol i gynllunio ac i ddelio ag effeithiau'r pandemig. Bydd hyn yn cwmpasu unrhyw wersi a ddysgwyd, arferion gwaith sydd i'w cynnal, gwaith blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer ailddechrau prosiectau strategol ac ystyriaethau parhaus o ran lles staff. Mae pob cyfarfod llywodraethu yn elwa o bresenoldeb (rhithwir) gan bersonél o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n galluogi tryloywder, atebolrwydd a chraffu yn ogystal â ffocws manwl ar wasanaethu'r cyhoedd.

Mae popeth a nodir uchod wedi golygu bod llawer o'r cyfarfodydd o fewn strwythur llywodraethu "Gweithredol yr Heddlu" i bob pwrpas wedi cael eu gohirio o ganlyniad i angen yr heddlu i ymateb i'r pandemig. Mae nifer fach o gyfarfodydd allweddol fel y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, y Grŵp Ystadau Strategol a Chyllid, Effeithlonrwydd a Dyfodol wedi parhau i gwrdd er mwyn sicrhau bod penderfyniadau tyngedfennol sy'n ymwneud â busnes fel arfer yn cael eu rheoli. At hynny, mae unrhyw faterion eraill y mae angen rhoi sylw iddynt ar frys wedi'u sianelu drwy gyfarfodydd Grŵp y Prif Swyddogion i sicrhau bod awdurdodiad a/neu gymeradwyaeth briodol ar gael. Rhan o rôl yr heddlu, yn ogystal â'r GIG a sectorau cyhoeddus allweddol eraill, yw ymateb i ddigwyddiadau mawr y datblygwyd profion a chynlluniau ar eu cyfer dros amser. Roedd yr angen i weithredu gweithdrefnau gweithredol cymhleth ar frys er mwyn galluogi ymateb brys cenedlaethol yn golygu bod adnoddau'r heddlu a'i bartneriaid yn canolbwyntio'n llwyr ar sicrhau gwaith llywodraethu da a oedd yn cefnogi ein hymagwedd tuag at y Pandemig.

Mae cydymffurfiaeth â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol wedi'i chynnal ac ychydig iawn o newidiadau sydd eu hangen. Yr unig newid o bwys oedd cynorthwyo'r Heddlu i oresgyn yr heriau yr oedd pob sector ledled y DU yn eu hwynebu wrth gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu

Personol (PPE). Yn dilyn adroddiad i'r Bwrdd Plismona, penderfynwyd y byddai'r heddlu yn mabwysiadu gweithdrefn archebu brys mewn perthynas â PPE ac yn gweithredu'r Hysbysiad Polisi Caffael 02/20 (PPN) mewn perthynas â darpariaethau brys yn cynnwys dyfarniad uniongyrchol ac awdurdodiad caffael ôl-weithredol ar gyfer nifer cyfyngedig o gyflenwadau. Ar y cyfan, prynwyd cyflenwadau PPE drwy fframweithiau presennol y sector cyhoeddus. Mae'r Heddlu wedi bod yn dilyn y dull Cenedlaethol o weithredu o ran hyn, gan gefnogi cyflenwyr er enghraifft drwy wneud taliadau cyflymach ar anfonebau sy'n ddyledus e.e. drwy BACS neu EFT mewn rhai achosion sydd wedi golygu talu cyn derbyn i gefnogi rhai sectorau a gwarantu cyflenwadau PPE. Mae hyn yn unol â'r PPN.

**Ymgysylltu â'r Cyhoedd**

Wrth wraidd plismona a chyfiawnder troseddol y mae'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, y dioddefwyr yr ydym yn eu cefnogi a'r troseddwyr yr ydym yn dod â hwy o flaen eu gwell. Fodd bynnag, mae'n anochel fod y modd yr ydym yn ymgysylltu â phobl wedi gorfod newid er mwyn sicrhau y cedwir at ofynion ymbellhau cymdeithasol lle bynnag y bo modd. Cymerodd yr Heddlu ymagwedd a oedd, i'r graddau y bo'n bosibl, yn ceisio perswadio pobl i ufuddhau i ganllawiau ymbellhau cymdeithasol a pheidio â theithio'n ddiangen. Gellir crynhoi dull gweithredu Heddlu Dyfed-Powys fel hyn:

- Ymgysylltu â'r cyhoedd
- Esbonio pam mae gwasgaru'n hanfodol i leihau lledaeniad y feirws
- Annog pobl i wasgaru a mynd adref
- Gorfodi lle bo angen

At hynny, pan fyddant ar batrôl neu mewn ceir gyda chriw dwbl, mae'n ofynnol i swyddogion ufuddhau i ganllawiau ymbellhau cymdeithasol eu hunain neu wisgo cyfarpar priodol i liniaru'r risg y bydd y feirws yn ymledu.

Er mwyn galluogi'r CHTh i ddwyn yr heddlu i gyfrif ar ran y cyhoedd, mae'n bwysig iddo wrando ar, a deall y materion y mae cymunedau ac unigolion yn eu hwynebu yn y cyfnod digyffelyb hwn. Felly, mae'r CHTh wedi cynnal 'Diwrnod Ymgysylltu Cymunedol Rhithwir' ar gyfer ardal Sir Benfro. Caiff hyn ei ailadrodd bob tair wythnos mewn gwahanol siroedd er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn cael y cyfle i rannu eu barn yn uniongyrchol â'r CHTh.

Mae'r Heddlu a'r SCHTh wedi parhau i ymateb i'r holl ohebiaeth a'r cwynion a dderbyniwyd. Yn dilyn gweithredu Deddf Coronafeirws 2020, derbyniodd Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys nifer sylweddol o gwynion yn ymwneud â'r Coronafeirws. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn arwain at gynnydd cyffredinol mewn cwynion, gan fod lleihad mewn cwynion nad ydynt yn ymwneud â'r coronafeirws yn gwrthbwyso cyfanswm nifer y cwynion a gafwyd. Defnyddir cynnwys yr ohebiaeth a dderbynnir yn yr SCHTh i lywio ymgysylltiad y CHTh a'r cyhoedd a phartneriaid ac mae'n cael ei fwydo i Dîm y Prif Swyddogion pan fo'n briodol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion wrth iddynt godi.

**Rheoli Risgiau**

Mae'r parodrwydd i dderbyn risg, y mae risgiau Corfforaethol yn cael eu hasesu yn ei erbyn, wedi'i osod yn 'Agored' ar hyn o bryd.  Nid yw hyn wedi newid ers dyfodiad y Pandemig. Caiff risgiau gwybodaeth ar y Gofrestr Risg Gwybodaeth eu hasesu o fewn parodrwydd mwy 'gofalus' i dderbyn risg. Rheolir risgiau sy'n gysylltiedig â phandemig y coronafeirws o fewn cofrestr risg

newydd ar wahân, sef 'Ymgyrch Talla'. Caiff y risgiau hyn eu hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf asesu BRAG.

Mae risgiau'n deillio o'r Pandemig bob dydd. Ymdrinnir â'r risgiau hyn ar lefel Aur, Arian a'r 7 is-grŵp. Gellid mynd i'r afael ag unrhyw rai o'r risgiau hyn mewn oriau neu ddyddiau yn unig, ac mae gweithgareddau i'w datrys, eu lliniaru a'u rheoli yn cael eu cofnodi o fewn gweithredoedd y Grwpiau. Cofnodir y risgiau mwyaf sylweddol yn y gofrestr risg ar gyfer 'Ymgyrch Talla'.

Mae un risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol mewn perthynas â'r pandemig coronafeirws sy'n ystyried "rheoli risgiau ac ansicrwydd sy'n ymwneud â'r coronafeirws (COVID-19) a'r risg ganlyniadol i argaeledd adnoddau plismona sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau plismona yn unol â blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throseddu". Cafodd y risg hon ei lliniaru drwy sefydlu Grŵp Aur Coronafeirws a gadeiriwyd gan Brif Swyddog.

Yn y lle cyntaf. gweithiodd yr Heddlu gydag Iechyd Cyhoeddus ac asiantaethau eraill i gynorthwyo i liniaru effaith pandemig y coronafeirws ar gymunedau Dyfed-Powys. Sefydlwyd yr amcanion strategol canlynol:

- Lleihau'r risg i'r cyhoedd drwy helpu Iechyd Cyhoeddus i ffrwyno lledaeniad y feirws a chefnogi'r gwaith o olrhain cysylltiadau;
- Lle bo'n ymarferol, sicrhau diogelwch ein staff drwy ddarparu cyngor a PPE priodol lle bo angen;
- Sicrhau bod cynlluniau parhad busnes ar waith i alluogi'r heddlu i barhau i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd;
- Tawelu meddwl y cyhoedd drwy gefnogi canllawiau Iechyd Cyhoeddus a negeseuon Iechyd Cyhoeddus;
- Sicrhau bod tensiwn, gwybodaeth a chudd-wybodaeth mewn perthynas â chymunedau yn cael eu rheoli'n effeithiol drwy strwythurau sy'n bodoli eisoes;
- Cefnogi asiantaethau partner Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a chymunedau Dyfed Powys i liniaru effeithiau'r feirws.

Mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar risgiau Corfforaethol eraill, fodd bynnag mae'r rhain yn cael eu rheoli'n ofalus. Darperir y swyddogaeth lywodraethu gan Fwrdd Gweithredol yr Heddlu a'r Bwrdd Plismona, a cheir gwaith craffu ehangach gan y Cyd-bwyllgor Archwilio.

**Parhad Busnes**

Mae diogelwch a llesiant y gweithlu wedi bod yn hollbwysig yn yr ymateb plismona. Mae pandemig COVID-19 wedi ei gwneud yn ofynnol i'r gweithlu ymateb mewn ffordd ystwyth, hyblyg ac ymatebol. Mae cynlluniau parhad busnes wedi'u profi ac mae rhai wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod gwasanaethau plismona'n parhau i gael eu darparu yn Nyfed-Powys. Mae llawer o'r gweithlu mewn swyddogaethau swyddfa gefn yn gweithio gartref gyda dim ond ychydig yn gweithio mewn swyddfeydd sy'n galluogi ymbellhau cymdeithasol. Mae camau wedi'u cymryd i sicrhau parhad busnes, cadernid a gallu i ddarparu gwasanaeth hanfodol. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys rhannu Canolfan Gyswllt yr Heddlu rhwng dau safle, ailflaenoriaethu a dyrannu offer TG i rolau hanfodol, a chyfuno adnoddau i ateb y newid yn y galw.

Er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus, bu angen data o fewn amserlenni â llawer tynnach nag o'r blaen. Er mwyn diwallu'r angen hwn, mae dadansoddwyr o Adran Cudd-wybodaeth yr Heddlu, Perfformiad a Galw a Gwelliant Parhaus wedi cael eu cyfuno (mewn modd

rhithwir) er mwyn gallu darparu data amser real i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ac ymateb. Mae dangosfyrddau wedi'u creu ac mae senarios amrywiol wedi'u modelu i alluogi paratoi os yw'r heddlu'n profi lefelau uchel o alw neu ofyn am weithwyr.

Mae pob un o'r uchod wedi cyflymu prosiect gweithio ystwyth yr Heddlu gan y nodwyd nifer o fanteision o alluogi cynifer o bersonél i weithio gartref. Mae'r Prif Swyddogion a'r Comisiynydd yn gweithio gyda'i gilydd i bennu Gweledigaeth a strategaeth ategol sy'n hwyluso mwy o ddefnydd o weithio gartref a gweithio ystwyth ac yn elwa, hefyd, o well cynhyrchiant ar lefel unigol a sefydliadol.

Ystyriodd y Bwrdd Plismona adroddiad yn amlinellu effaith ariannol debygol pandemig y coronafeirws ym mis Ebrill 2020 a thynnodd hyn sylw at gynnydd posibl mewn costau uniongyrchol, rhai arbedion a cholledion o ran incwm. Mae'r sefyllfa o ran cyllid ychwanegol gan y Llywodraeth yn dal i fod yn aneglur ar Lefel Genedlaethol ar hyn o bryd, fodd bynnag mae'r Heddlu yn adrodd ei gostau ychwanegol i'r Swyddfa Gartref yn fisol. Yn lleol, neilltuwyd cronfa wrth gefn i fodloni goblygiadau llif arian posibl tra bod y sefyllfa o ran ariannu ar lefel Genedlaethol yn dod yn gliriach. Fel yr amlinellwyd yn adroddiad naratif y Datganiad o Gyfrifon, bydd yr Heddlu a'r SCHTh yn gwerthuso effaith tymor hwy'r pandemig ar setliadau/cyllidebau yn y dyfodol, gofynion PPE parhaus ac incwm dros y misoedd nesaf ac mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ddiweddaru'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r gyllideb ar gyfer 2021/22.

**Galw ac Ymateb**

O ran y galw, yn unol â'r holl heddluoedd eraill, mae Dyfed-Powys wedi gweld gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn nifer y troseddau y rhoddir gwybod amdanynt. Fodd bynnag, mae adroddiadau am achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi cynyddu'n gyflym, yn bennaf o ganlyniad i adroddiadau o dorri rheolau’r cyfyngiadau symud. Hyd yma, mae ein gallu i ymateb i'r adroddiadau hyn yn dda, yn enwedig o ystyried y lefelau isel o dynnu gweithwyr o'n gweithlu. Adroddir ar y broses barhaus o fonitro'r sefyllfa drwy amrywiaeth o lwyfannau er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal cydnerthedd i ymdrin â'r galw. Wrth i gyfyngiadau symud gael eu llacio, rhagwelir y bydd y galw ar yr heddlu’n dychwelyd i’r lefelau a gofnodwyd yn flaenorol. O ystyried daearyddiaeth Dyfed-Powys a'r diwydiant twristiaeth sydd wedi ffynnu yn y blynyddoedd diwethaf, rhagwelir hefyd y bydd hyn yn galw am reolaeth ac ymateb gofalus, gan weithio ar y cyd â phartneriaid i gwrdd â'r cynnydd disgwyliedig yn y galw wrth i'r diwydiant ailagor yng Nghymru.

**Cynllunio Strategol**

Rhoddir manylion am ymagwedd yr Heddlu tuag at Ddatganiad Rheoli'r Heddlu isod. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y gwaith cynllunio strategol a'r Dyletswyddau cysylltiedig yn cael eu bodloni o fewn yr amserlenni a bennwyd yn wreiddiol. Er clod i natur ystwyth, hyblygrwydd ac ymrwymiad llawer o'n gweithlu, cyflawnwyd gwaith adrodd a chynllunio ariannol, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, i gyd o fewn y targedau a bennwyd cyn y pandemig. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r angen i'r Heddlu ymateb ar frys i argyfwng y pandemig, ni fydd Datganiad Rheoli'r Heddlu ar gael i'r AHGTAEM tan yr Hydref eleni. Caiff hyn ei dderbyn yn llwyr gan yr AHGTAEM ac mae hyn yn gyson â'r rhan fwyaf o Heddluoedd yn genedlaethol.

**Sicrwydd**

Yn anochel, effeithiodd y gofyniad i gadw pellter cymdeithasol yn y gweithle ar waith archwilio mewnol gan i staff gael eu hanfon i weithio gartref a chan i ymwelwyr gael eu cadw oddi ar y

safleoedd. Yr ymateb cyntaf ym mis Mawrth oedd canolbwyntio ar barhad busnes, ac o'r herwydd, gohiriwyd gwaith archwilio. Fodd bynnag, daeth hwn yn drefniant gweddol fyrdymor, ac erbyn diwedd Mai, roedd gwaith ymgysylltu ag archwilwyr mewnol wedi ailddechrau. Ers hynny mae archwiliadau wedi eu cynnal o bell gan ddefnyddio dulliau rhannu sgrin, galwadau ffôn a Skype a chyfnewid dogfennau drwy e-bost. Roedd rhaglen 19/20 wedi'i chwblhau i raddau helaeth adeg dechrau’r cyfyngiadau ac er bod ymateb i gamau terfynol adroddiadau archwilio wedi cymryd ychydig yn fwy o amser na'r blynyddoedd blaenorol, fe'i cwblhawyd ddechrau mis Gorffennaf.

Cafodd y rhaglen 2021 ei haildrefnu ym mis Mai er mwyn targedu'r meysydd busnes hynny sydd yn y sefyllfa orau ar gyfer archwiliad o bell ac mae dau archwiliad eisoes wedi'u gwneud, gyda thrydydd un ar y gweill. Mae’r heddlu i gyd, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r archwilwyr mewnol wedi addasu'n gyflym i ofynion gweithio o bell ac nid ydynt yn rhagweld unrhyw effaith andwyol ar gyflawni oherwydd amodau archwilio amgen.

Ataliwyd gweithgarwch arolygu AHGTAEM hefyd yn dilyn yr angen i bob Heddlu flaenoriaethu ei ymateb i'r pandemig a sefydlu trefniadau i fynd i'r afael â'r digwyddiad mawr. Yn ddiweddar, hysbyswyd Prif Swyddogion gan AHGTAEM y bydd gweithgarwch Archwilio yn ailddechrau yn Hydref 2020 ac mae’r Arolygiaeth yn ymgynghori â Heddluoedd i sicrhau y deellir y dulliau arfaethedig.

**A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith**

Mae'r ddwy Gorfforaeth Undyn yn gweithio mewn ffordd agored a thryloyw, ac mae ganddynt brosesau ar waith i gefnogi egwyddor graidd moeseg ac uniondeb sy'n unol â Chod Moeseg y Coleg Plismona. Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl bolisïau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r gyfraith yn ogystal â safonau moesegol priodol a safonau ymddygiad proffesiynol. Cyhoeddir datganiadau o fuddiannau a chofrestrau rhoddion a lletygarwch ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ac mae gweithdrefnau ar waith i gofnodi unrhyw wrthdaro buddiannau lle bo angen.

Yn ôl adolygiad o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a dilysrwydd yr heddlu (adolygiad PEEL) a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (yr Arolygiaeth) yn 2018, mae Dyfed-Powys yn 'Dda' yn annog penderfyniadau moesegol, ac mae arweinwyr yn hyrwyddo Cod Moeseg yr Heddlu ac yn gosod cywair moesegol. Caiff hyfforddiant ei ddarparu i arweinwyr sy'n cynnwys dilemâu moesegol.

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl bolisi chwythu'r chwiban yn ogystal â pholisi a phroses Tegwch yn y Gwaith sydd newydd gael eu rhoi ar waith ac sy'n hygyrch iawn. Mae ganddynt hefyd raglen profion cyffuriau ar hap i warchod rhag achosion o gamddefnyddio sylweddau.

Mae'r Pwyllgor Moeseg sy'n cyfarfod yn chwarterol yn cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Heddlu ac mae ganddo gadeirydd annibynnol o'r byd academaidd. Mae'r Pwyllgor yn cael atgyfeiriadau gan y gweithlu drwy fewnrwyd yr Heddlu, a gellir gwneud atgyfeiriadau o'r fath yn ddienw. Ar ôl i atgyfeiriad ddod i law, mae'r Pwyllgor yn penderfynu a yw'n fater moesegol ai peidio. Os yw'n fater moesegol, mae'r Pwyllgor yn comisiynu gwaith ymchwil pellach ac yn cael cyngor cyfreithiol, lle bo angen, er mwyn penderfynu sut i ymateb a chaiff yr atgyfeiriad ei uwchgyfeirio i Fwrdd Pobl yr Heddlu os tybir bod hynny'n briodol.

Fodd bynnag, yn gyffredinol, asesodd yr Arolygiaeth fod 'Angen Gwella' dilysrwydd Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r meysydd i'w gwella yn cynnwys y canlynol:

- Y gallu a'r capasiti cyfyngedig i swyddogaethau gwrthlygredd fonitro pob system yn effeithiol ac yn gyflawn er mwyn nodi achosion o dorri rheolau a chamddefnydd yn rhagweithiol.
- Angen gwella mynediad at weithdrefnau tegwch yn y gwaith a thryloywder y gweithdrefnau hynny.
- Yr angen i sefydlu prosesau i nodi unrhyw anghymesuredd o ran recriwtio, cadw a dilyniant y gweithlu ynghyd â phrosesau dyrchafu teg a hygyrch.

Mae'r argymhellion wedi'u monitro'n ofalus drwy Fwrdd Llywodraethu'r Arolygiaeth o fewn strwythur llywodraethu'r Heddlu. Yn wir, er mwyn sicrhau bod digon o bwyslais yn cael ei roi ar ddatblygu meysydd i'w gwella fel y'u hadroddwyd gan yr Arolygiaeth, cafodd y cyfarfod ei ddyrchafu o fewn y strwythur i fod yn gyfarfod Bwrdd a gadeiriwyd gan y Dirprwy Brif Gwnstabl. Mae meysydd i'w gwella'n cael eu haseinio i unigolion i'w datblygu ac mae adroddiadau o'r fath yn cael eu rhoi i'r cyfarfod llywodraethu perthnasol sy'n berchen ar y maes busnes hwnnw. Unwaith y cânt eu cymeradwyo, caiff y rhain eu hadrodd i Fwrdd Llywodraethu'r Arolygiaeth i'w hystyried.

Nodwyd Dyfed-Powys fel Heddlu peilot ar gyfer y gyfran gyntaf o archwiliadau PEEL yn 2020; serch hynny, mae hyn wedi'i ohirio o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Gobeithir y bydd graddau'r Heddlu wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf yn 2018 gan fod llawer o waith wedi'i wneud i sbarduno cynnydd.

**B. Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd gynhwysfawr**

Mae ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd yn un o gyfrifoldebau statudol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac mae'n rhaid iddynt ofyn am farn y gymuned er mwyn pontio'r bwlch rhwng plismona a'r cyhoedd. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn yn llywio'r blaenoriaethau plismona lleol a bennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu fel y nodir yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar gyfer 2017-2021, y caiff y Prif Gwnstabl ei ddwyn i gyfrif amdano.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd am waith a chyflawniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drwy eu priod wefannau, y cyfryngau cymdeithasol ac adroddiadau newyddion lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi Adroddiad Blynyddol, cylchlythyrau deufisol y Comisiynydd, papurau a chofnodion cyfarfodydd cyhoeddus, yn ogystal â chofnodion o unrhyw benderfyniadau a wneir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Ymgynghorir â'r cyhoedd yn barhaus er mwyn llywio penderfyniadau a chefnogi gweithgarwch craffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Cynhelir ymgynghoriadau penodol mewn perthynas â phenderfyniadau penodol, fel yr ymgynghoriad cyhoeddus ar braesept y dreth gyngor, ac i graffu ar weithgarwch yr Heddlu, megis y defnydd o rym a'r ffordd y mae'n ymdrin â'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon. Mae Panel yr Heddlu a Throseddu yn craffu ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac mae'r Panel hwn yn cynnwys aelodau o awdurdodau lleol sydd hefyd yn ymgynghori â'u cymunedau lleol ac yn cynnig adborth i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Dau o brif gyfrifoldebau Panel yr Heddlu a Throseddu yw adolygu lefel y praesept a ddymunir yn

ogystal â chymeradwyo penodiad y Prif Gwnstabl a rolau statudol o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae 'Cysylltu â Chymunedau' yn un o flaenoriaethu'r Cynllun Heddlu a Throseddu ac er bod tystiolaeth o arfer da, ceir hanes o beidio â chydgysylltu gweithgarwch yr Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ddigonol. Aethpwyd i'r afael â hyn drwy sefydlu "Grŵp Cysylltu â Chymunedau" o fewn y strwythur llywodraethu. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cadeirio ar y cyd gan Bennaeth Staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Dirprwy Brif Gwnstabl yr Heddlu. Mae cwmpas a chylch gwaith y Grŵp wedi'u nodi o fewn Cylch Gorchwyl. Rhagwelir y bydd y cyfarfodydd yn hwyluso aliniad strategaethau ymgysylltu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a rhai'r Prif Gwnstabl.

**C. Pennu canlyniadau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy**

Y Cynllun Heddlu a Throseddu yw'r cynllun corfforaethol pum mlynedd a bennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac a gaiff ei roi ar waith gan y Prif Gwnstabl. I gefnogi hyn, datblygodd y Prif Gwnstabl Gynllun Cyflenwi a rhoddir adroddiadau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Cyflenwi hwn. Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am weithgarwch drwy'r wefan a thrwy weithgareddau ymgysylltu amrywiol, fel y daflen ar y dreth gyngor a gaiff ei hanfon i bob cartref yn ardal Dyfed-Powys.

Fodd bynnag, yn ôl arolygiad PEEL Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, mae cynllunio i'r dyfodol yn faes lle mae angen i'r Heddlu wella. Mae angen i'r Heddlu gael dealltwriaeth well o alw a'r hyn sy'n effeithio arno, fel y gall ddefnyddio ei adnoddau'n effeithlon a chynllunio i'r dyfodol yn effeithiol. I'r perwyl hwnnw, mae'r Heddlu wedi diwygio ei ddull o lunio Datganiad Rheoli'r Heddlu (DRhH) ar gyfer 2020 er mwyn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion a wnaed gan yr Arolygiaeth. Mae'r dull newydd ar gyfer y DRhH wedi sefydlu dull canoledig o gydgysylltu'r ddogfen, sef cynllun strategol yr Heddlu ar gyfer y flwyddyn nesaf, lle rhagwelir y galw disgwyliedig ar gyfer y 4 blynedd nesaf. Mae'r dadansoddiad o ddata'r galw – y data cyfredol a rhagfynegol – yn cael ei gynnal yn ganolog ac mae'n ofynnol i arweinwyr busnes gymhwyso barn broffesiynol ac arbenigedd i'r sylfaen dystiolaeth. Mae'r broses yn cael ei goruchwylio gan Brif Arolygydd o fewn Adran Gwella Busnes yr Heddlu. Rhagwelir y bydd y dull a ddilynir eleni yn sicrhau gwaith cynllunio strategol mwy effeithiol sy'n llywio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Ystadau a'r gwaith o gynllunio Adnoddau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Bydd y gwendidau a nodir drwy'r broses hon yn cael eu monitro drwy strwythur llywodraethu'r heddlu ac adroddir ar gynnydd mewn perthynas â phob un yn rheolaidd.

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth ei Mawrhydi ddwy strategaeth, gyda'r cyntaf yn ceisio mynd i'r afael â thrais difrifol ac yna strategaeth bellach i fynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig. Disodlodd y Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig strategaeth 2013 a oedd wedi cyflwyno'r fframwaith cyflawni ar gyfer Atal (Prevent), Amddiffyn (Protect), Ymlid (Pursue), Paratoi (Prepare) (4xP). Er mwyn bodloni gofynion y strategaethau, lansiodd Heddlu Dyfed-Powys ei Strategaeth Trais Difrifol a Throseddu Trefnedig 2019-21, o'r enw "Prosiect Diogel". Mae'r strategaeth amlasiantaeth yn amlinellu'r ymdrechion i fynd i'r afael â thrais difrifol a throseddu trefnedig fel system unedig, gydlynol. Nod y strategaeth yw mynd i'r afael â Thrais Difrifol a Throseddu Trefnedig sy'n effeithio ar gymunedau Dyfed a Phowys, ynghyd â lleihau'r achosion, drwy gydweithio i sicrhau canlyniadau gwell i'n dinasyddion. Un o elfennau allweddol y strategaeth hon yw sicrhau fframwaith ar gyfer cysylltedd rhwng arweinyddiaeth strategol, ymyrraeth a

darpariaeth leol. Mae'r Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ddatblygu Byrddau Partneriaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig yn eu hardal i arwain gwaith amlasiantaethol i rwystro a lleihau niwed grwpiau troseddol cyfundrefnol. Yn Nyfed-Powys, sefydlwyd Byrddau Trais Difrifol a Throseddu Trefnedig (SVOC) ar lefel Heddlu a lefel leol.

**D. Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau arfaethedig.**

Caiff cynlluniau adnoddau manwl eu llunio'n flynyddol a'u cyhoeddi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r rhain yn asesu'r adnoddau sydd eu hangen ar sail tybiaethau priodol er mwyn galluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl i flaenoriaethu galw croes am wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys Rhaglen Gyfalaf 10 mlynedd sy'n cynnwys buddsoddiadau strategol mewn ystadau, fflyd a TG.

Mae'r trefniadau llywodraethu a gyflwynwyd yn ystod 2019/20 yn cefnogi camau i wneud penderfyniadau cadarn er mwyn cyflawni'r canlyniadau gofynnol. Mae’r strwythur yn dwyn ynghyd nifer o gyfarfodydd gwahanol ac yn cynnig llwybr adrodd clir ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu. Cawsai trefniadau llywodraethu eu harwain yn bennaf gan Brif Swyddogion, ond drwy leihau nifer y cyfarfodydd, mae cyfrifoldebau penderfynu wedi cael eu datganoli mewn llawer o gyfarfodydd fel y gellir cymryd camau hyblyg ac ymatebol a sicrhau canlyniadau gwell. Caiff atebolrwydd ei gefnogi gan y strwythur a'r prosesau llywodraethu sydd ar waith. Mae systemau monitro perfformiad yn cael eu hadolygu o hyd er mwyn gallu gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

O fewn y strwythur, caiff risgiau eu rheoli a'u trin yn ystod cyfarfodydd fel y nodir yn y Cofrestrau Risgiau Corfforaethol a Dynamig; argymhellion sy'n deillio o arolygiadau thematig ac ad hoc gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi; ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o Ddatganiad Rheoli'r Heddlu, dogfen flynyddol sy'n edrych i'r dyfodol.

Mae dysgu gwersi yn hollbwysig er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau parhaus eu gwneud fel y gellir darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol sy'n ddynamig ac yn ymateb i anghenion cymunedau. Mae adolygiad o'r Pwyllgor Cod Moeseg wedi arwain at ddull symlach o ymdrin â'r modd yr eir i’r afael ag adroddiadau am achosion o gyfyng-gyngor moesegol posibl. Mae hyn wedi arwain at gyfeirio llawer o adroddiadau at fecanwaith mwy priodol i alluogi'r Pwyllgor i ganolbwyntio ar achosion o gyfyng-gyngor moesegol yn unig, yn hytrach nag anfodlonrwydd mwy cyffredinol.

Defnyddir proses achosion busnes ffurfiol i ystyried prosiectau ac mae byrddau prosiect ar gael hefyd sy'n monitro'r ffordd y caiff mentrau a chynlluniau y cytunwyd arnynt eu rhoi ar waith a'u cyflawni.

Mae cynnydd amlwg wedi cael ei wneud i ystyried cyfleoedd i gydweithio ag eraill er mwyn gwella effeithlonrwydd a darparu gwasanaeth gwell a mwy cadarn. Fodd bynnag, mae pryderon wedi'u mynegi mewn perthynas â threfniadau llywodraethu sy'n ymwneud â rhywfaint o weithgarwch cydweithio rhanbarthol yr heddlu ac mae gwaith yn mynd rhagddo drwy astudiaeth Gwerth am Arian Swyddfa Archwilio Cymru sy'n canolbwyntio ar y maes hwn. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Archwilio ac ymdrinnir ag unrhyw gamau sy'n codi yn y cyfarfodydd priodol o fewn y strwythur llywodraethu. At hynny, er mwyn parhau i ganolbwyntio'n

briodol ar sefydlu trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol da ar gyfer yr holl drefniadau cydweithio, cymeradwywyd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn unol â hynny. Yn olaf, daeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn Gadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan yn 2019 a chyda hynny, cyflwynodd bwysigrwydd canolbwyntio ar waith llywodraethu da yn y maes cydweithio.

Mae Bwrdd Comisiynu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, sy'n cynnwys aelod o Banel yr Heddlu a Throseddu, aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio a chynrychiolwyr o gynlluniau gwirfoddoli'r Comisiynydd, wedi ymsefydlu yn ystod y flwyddyn ac mae'n chwarae rhan bwysig wrth ganolbwyntio ar graffu ar wasanaethau a dwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif. Fodd bynnag, hyd yma nid yw'r Bwrdd wedi cymryd llawer o ran mewn dyfarnu cyllid grant na'r broses o dendro am wasanaethau – mater a amlygwyd gan weithgarwch Archwilio Mewnol ac yr eir i'r afael ag ef yn ystod y misoedd nesaf. Cafwyd mwy o weithgarwch i werthuso gwasanaethau a gomisiynir yn ystod 2019/20 ac mae cynllun ar waith i fynd â hyn ymhellach yn 2020/21, ond ar hyn o bryd, nid yw'r broses hon yn un sydd wedi'i hymgorffori'n llawn sy'n sicrhau bod dealltwriaeth glir o effaith gwasanaethau o'r fath a'r enillion a wneir ar fuddsoddiadau.

Yn fwyaf diweddar, mae'r Heddlu wedi cael ymarfer caffael ar gyfer System Rheoli Cofnodion (RMS) newydd i fynd i'r afael â gwendidau yn ei seilwaith TG mewnol. Rhoddwyd ystyriaeth i gynaliadwyedd y systemau a nodwyd cyfleoedd i gydweithio, er nad ydynt wedi'u datblygu eto. Rhagwelir y bydd angen 18 mis i 2 flynedd i newid y seilwaith presennol ag RMS newydd cyn cyflwyno'r system. Adroddir ar gynnydd o fewn strwythur llywodraethu'r heddlu ac o ystyried y goblygiadau ariannol sylweddol, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n gyfrifol yn gyffredinol am awdurdodi.

Er mwyn gwella ymateb yr Heddlu i adroddiadau am Gam-drin Domestig, sy'n faes a nodwyd gan yr Arolygiaeth fel un sydd angen ei wella, lansiwyd Desg Fregusrwydd ar 1 Ebrill 2019. Mae'r ddesg wedi'i lleoli yng Nghanolfan Reoli'r Heddlu, a chaiff ei gwasanaethu gan bum heddwas a dau aelod o staff cymorth sy'n gweithio 24/7. Gwelwyd cynnydd aruthrol o ran nodi Digwyddiadau Cam-drin Domestig ynghyd â gwelliant sylweddol o ran cofnodi troseddau'n gywir a thrwy hynny gwellwyd cywirdeb data ar y troseddau. Mae'r dull hwn wedi sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hadnabod, eu diogelu a'u cyfeirio'n briodol i dderbyn y cymorth angenrheidiol. Hefyd, sicrhaodd fod gan y sefydliad ddealltwriaeth well o'r galw o ran Cam-drin Domestig, a gyfrannodd at ein hymateb.

Yn deillio o'r cynnydd uchod mewn troseddau a nodwyd, oedd nifer yr atgyfeiriadau i'r Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) (+150%) a oedd yn peryglu'r gwasanaeth a ddarperid i ddioddefwyr. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, lansiwyd Uned Asesu Risg Eilaidd (SRAU) ar 25 Tachwedd 2019 yn unol â Diwrnod y Rhuban Gwyn, gyda phedwar asesydd Risg, dau swyddog gweinyddol a Chydlynydd MARAC. Mae'r SRAU yn cynnal asesiad risg eilaidd, amlasiantaeth ar yr holl achosion o Gam-drin Domestig o fewn cyfnod o 24-48 awr a bydd yn sicrhau bod atgyfeiriadau at MARAC yn briodol ac yn prosesu ceisiadau Cyfraith Claire yn amserol. Cyflawnir hyn drwy 'Drafodaethau Dyddiol' amlasiantaeth a gynhelir ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener ar adegau penodol yn ardaloedd pedwar Awdurdod Lleol Dyfed a Phowys.

## E. Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion ynddo

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi diffinio strwythurau a rolau o fewn y sefydliadau er mwyn sicrhau arweinyddiaeth effeithiol. Caiff hyn ei gefnogi gan y

Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol sy'n nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau ac sy'n hollbwysig er mwyn cyflawni'r strategaeth a'r cynlluniau sydd ar waith.

Cyflwynwyd y Proffil Asesu Datblygiad yn lle'r system berfformiad flaenorol nad oedd yn diwallu anghenion y sefydliad mwyach. Fe'i treialwyd yn 2018 am ran o'r flwyddyn a chafodd ei lansio'n ffurfiol ym mis Ebrill 2019. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod llawer o unigolion wedi ymgysylltu â'r broses newydd, a rhagwelir y bydd y gyfradd gwblhau yn uwch na 85% o'r gweithlu. Mae hyn yn welliant sylweddol ar ymgysylltu â systemau a phrosesau blaenorol. Bydd nifer fach o ddiwygiadau'n cael eu gwneud i'r Proffil Asesu Datblygiad yn barod ar gyfer Ebrill 2020 er mwyn gwella ei alluoedd ymhellach. Fe'i defnyddiwyd mewn pedwar bwrdd dyrchafu yn yr Heddlu hyd yn hyn ac mae cynlluniau i adeiladu ar hyn ymhellach. Mae sefydlu proses effeithlon ac effeithiol i unigolion gofnodi eu tystiolaeth o waith ac i'r Heddlu allu defnyddio hyn yn fudd sefydliadol a dim ond gwella y bydd hyn dros amser gyda swyddogaeth a gwerth ychwanegol.

Mae Rhaglen Arweinyddiaeth Weddnewidiol y Sefydliad wedi parhau i gefnogi newid mewn diwylliant tuag at arddull hyfforddi a gwelliant parhaus o fewn yr Heddlu a swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.  Drwy barhau i roi'r rhaglen hon ar waith, bydd pob swyddog ar reng arolygydd neu uwch a staff yr heddlu sydd ar lefel gyfatebol yn cael hyfforddiant i wreiddio ethos arweinyddiaeth weddnewidiol ymhellach.

Drwy ddadansoddi galw'n well, cynllunio’r gweithlu'n strategol a rhagweld y dyfodol, bydd modd recriwtio a hyfforddi staff fel bod capasiti'r Heddlu'n parhau i fod yn briodol ac yn gynaliadwy i ateb y galw yn y dyfodol. Mae'r dull ar gyfer Datganiad Rheoli’r Heddlu’n cefnogi hyn ymhellach ac yn dwyn ynghyd yr asesiad o alw, gwaith cynllunio'r gweithlu, gwaith pennu cyllidebau a'r strategaeth ystadau er mwyn sicrhau cynllunio strategol cadarn.

Yn 2019/20, mae Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu wedi parhau i berfformio'n dda o ran ymdrin â chwynion, yn enwedig o ran prydlondeb. Mae hyn yn dilyn patrwm o welliant parhaus dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. O ran yr amser a gymerir i gofnodi achosion o gwynion a chau achosion drwy brosesau datrys lleol ac ymchwilio lleol, mae'r data diweddaraf gan y Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu yn dangos bod perfformiad yr Heddlu yn well na chyfartaleddau’r Heddlu Mwyaf Tebyg a’r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'n werth nodi, ar 1 Chwefror 2020, bod Diwygiadau Cam 3 i drefn gwyno a chamymddwyn yr heddlu o dan Ddeddf Plismona a Throseddu 2017, wedi dod i rym. Yn ogystal â symleiddio'r system gwynion, mae'r newidiadau'n golygu y bydd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fwy o rôl i gynyddu annibyniaeth a gwella'r broses o ymdrin â chwynion. O 1 Chwefror 2020, os yw cwyn wedi'i chofnodi o dan Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a bod unigolyn yn anhapus â chanlyniad ei gŵyn neu’r modd yr ymdriniwyd â hi, gall gyflwyno cais am adolygiad i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw canlyniad y gŵyn neu’r modd yr ymdriniwyd â hi yn rhesymol ac yn gymesur. Er mwyn helpu i gynnal adolygiadau o'r fath, ar y cyd â Gogledd Cymru a Gwent, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi cyflogi cwmni allanol i ystyried unrhyw adolygiadau yn y lle cyntaf, ac a fydd wedyn yn gwneud argymhellion i'w hystyried. At hynny, ac yn olaf, mae fframwaith perfformiad cwbl newydd gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yn y broses o gael ei ddatblygu.

Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn cynnal cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn gyda swyddog cyswllt yr IOPC ac yn ystod y rheini caiff Heddlu Dyfed-Powys ei ddwyn i gyfrif am berfformiad o

ran delio â chwynion ac ymddygiad. Yn 2019/20 ni chafwyd unrhyw argymhellion sylweddol gan yr IOPC.

### F. Rheoli Risgiau a Pherfformiad drwy Reolaeth Fewnol Gadarn a Threfniadau Rheoli Ariannol Cyhoeddus Cadarn

Mae diwylliant rheoli risg wedi'i wreiddio ar bob lefel yn y ddau sefydliad, ac mae prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u monitro drwy gofrestrau risgiau corfforaethol a dynamig. Mae risgiau yn eitem sefydlog ar agendâu pob bwrdd yn yr Heddlu, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd gan Fwrdd Gweithredol yr Heddlu a'r Bwrdd Plismona. Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn goruchwylio trefniadau rheoli risg ac yn rhoi cyngor ac arweiniad yn rheolaidd.

Mae trefniadau sicrwydd Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys y tair llinell o amddiffyn. Y cyntaf yw cyfrifoldeb goruchwyliol; yr ail yw prosesau hapsamplu a gwiriadau sicrhau ansawdd a gynhelir gan reolwyr a'r gwasanaeth archwilio mewnol; a'r trydydd yw sicrwydd annibynnol drwy brosesau craffu yn y byrddau llywodraethu, swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a'r tîm archwilio allanol ac arolygiaethau eraill.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a'i nod yw rheoli risg i lefel resymol a rhagweladwy. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Caiff canfyddiadau'r adolygiad blynyddol o'r system rheolaeth fewnol eu hystyried gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, a chânt eu hadolygu'n annibynnol gan y Cyd-bwyllgor Archwilio.

Mae hyfforddiant arwain ar reoli ariannol wedi'i ddarparu i'r holl reolwyr nad ydynt yn rheolwyr cyllid i wella'r trefniadau ar gyfer rheoli cyllidebau'n gadarn, gan sicrhau y caiff penderfyniadau cost effeithiol eu gwneud ar y lefel fwyaf lleol. Roedd y cam gweithredu yn rhan o becyn o fesurau i wella arferion rheoli ariannol ar draws yr Heddlu. Gwerthuswyd hyfforddiant allanol ond barnwyd nad oedd yn gost-effeithiol. Yn hytrach, crëwyd rhaglen fewnol a oedd yn golygu cyflwyniad 2.5 awr mewn ystafell ddosbarth. Rhwng mis Mai a mis Medi 2019, mae'r Uwcharolygwyr, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol, uwch reolwyr dethol, gan gynnwys personél o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Arolygwyr dethol wedi cael eu hyfforddi. Y manteision a wireddir yw na wnaeth yr Heddlu orwario eleni. Hyd at Chwefror 2020, cafodd y gyllideb goramser, a oedd yn ffynhonnell llawer o'r gorwariant blaenorol, ei thanwario'n sylweddol a'i rheoli. Gellid dadlau bod y dull hwn, ar y cyd ag adroddiadau cyllidebol misol newydd, wedi caniatáu mwy o reolaeth dros gostau a rheolaeth fwy effeithiol ar y gyllideb.

Mae trefniadau llywodraethu yn helpu i fonitro perfformiad a rheolaeth ariannol mewn ffordd amserol a phenodol ar wahanol lefelau yn y sefydliadau. Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yn gyhoeddus am berfformiad yr Heddlu yng nghyfarfodydd chwarterol Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, lle mae'n cynnig her adeiladol ac yn annog trafodaeth am berfformiad gweithredol.

Fodd bynnag, o ganlyniad i bandemig y coronafeirws, mae cyfarfodydd llywodraethu "busnes fel arfer" yr heddlu wedi cael eu hatal gan i strwythur llywodraethu i gefnogi ymateb yr heddlu i'r pandemig gael ei sefydlu. Cafodd y cyfarfodydd busnes fel arfer eu gohirio neu eu haildrefnu ac yn wir cafodd llawer eu canslo oherwydd nad oedd gwir angen eu cynnal. Serch hynny, rhoddodd hyn gyfle i adolygu'r trefniadau llywodraethu er mwyn dod â mwy o synergedd i strwythur

llywodraethu (pandemig) Ymgyrch Talla, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd a chyfathrebu rhwng cyfarfodydd pan fyddant yn ailgychwyn.

Caiff data adnoddau dynol a data ariannol eu hadrodd i gyfarfodydd misol y Bwrdd Plismona lle gall Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sicrhau bod perfformiad y sefydliad yn foddhaol, a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif lle mae angen gwella.

Yn ychwanegol at y trefniadau hyn, mae Panel yr Heddlu a Throseddu yn dwyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gyfrif bob chwarter am y ffordd y mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Mae'r Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi gweithio'n agos i sicrhau bod y cynhyrchion a ddatblygir i wasanaethu pob un o Fyrddau'r Comisiynydd yn addas at y diben ac yn rhoi digon o wybodaeth iddo ef a'r Prif Gwnstabl i ddeall perfformiad sefydliadol a gweithredol yr Heddlu.

Yn fwyaf diweddar, mae'r heddlu wedi wynebu ôl-groniad o waith Diogelu Data. Mae hyn yn peri pryder gan fod rhai o'r ceisiadau am wybodaeth yn amodol ar amserlenni deddfwriaethol, mae rhai yn gysylltiedig â materion diogelu, mae rhai yn destun cyfarwyddyd gan lysoedd fel CAFCASS a Gorchmynion Llys ac ati. Mae'r ôl-groniad wedi codi o ganlyniad i nifer o ffactorau. Er mwyn lliniaru'r sefyllfa, mae cynllun gweithredu wedi'i sefydlu.  Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys adolygu prosesau ac ystyried a fyddai'n fwy priodol ymdrin â rhai ceisiadau mewn mannau eraill. Caiff y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r Cynllun hwn ei rhoi i'r Bwrdd Plismona'n rheolaidd.

At hynny, fel rhan o'r rhaglen Archwilio Mewnol, derbyniwyd dau adroddiad yn ystod y cyfnod a gafodd sicrwydd Cyfyngedig. Roedd y rhain yn ymwneud ag Adroddiadau a Rheoli Cwynion a Sicrwydd Data – MOPI a PNI. Mae'r argymhelliad ar gyfer Adrodd Cwynion yn cynrychioli diffyg dogfennaeth i ddangos tystiolaeth o brosesau a gweithdrefnau, yn ogystal â diffyg sicrwydd ansawdd mewnol parhaus. Roedd yr argymhellion o ran sicrwydd data yn canolbwyntio ar faint o ddata MOPI sydd i'w gael a'r dyblygu a'r anghysonderau a nodwyd ynddo. Mae camau unioni sylweddol ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion sy'n hysbys ac a nodwyd. Un o'r atebion i ddelio ag achos sylfaenol yr argymhelliad yw system rheoli cofnodion y bydd RMS, unwaith y bydd ar waith, yn mynd i'r afael â hi. Mae'r holl argymhellion wedi'u derbyn ac mae arferion wedi gwella. Bydd y Grŵp Llywodraethu Archwilio yn parhau i fonitro a chraffu ar gynnydd.

Er bod trefniadau wedi'u sefydlu i fonitro perfformiad, nodwyd hyn yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol diwethaf a hefyd drwy weithgarwch arolygu'r Arolygiaeth bod lle i wella ein dealltwriaeth o fuddiannau busnes. Er mwyn dwyn ynghyd yr enghreifftiau o arferion da mewn cynlluniau gwireddu busnes ac ymgorffori'r rhain drwy'r sefydliad cyfan, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar wybodaeth gywir a chadarn, mae Swyddog Buddiannau Busnes wedi'i benodi. Dechreuodd yr unigolyn yn ei swydd ym mis Mawrth 2020 a rhagwelir y bydd hyn yn sicrhau bod dull cydgysylltiedig o wireddu buddiannau yn cael ei fabwysiadu ar draws yr Heddlu.

## G. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod penderfynwyr sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn atebol iddynt drwy'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn y ddau sefydliad. Mae gwefannau'r ddau ohonynt yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid, yn unol â'r ddeddfwriaeth. Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae'r

Comisiynydd wedi cael Nod Ansawdd Tryloywder gan Comparing Police and Crime Commissioners (CoPaCC), sef sefydliad cenedlaethol sy'n monitro trefniadau llywodraethu heddluoedd i gydnabod hyd a lled y wybodaeth a geir ar y wefan.

Caiff penderfyniadau a wneir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu eu cyhoeddi ar ei wefan mewn ffordd amserol ac fe'u cyflwynir yn gyhoeddus i Banel yr Heddlu a Throseddu fel y gall graffu arnynt bob chwarter.

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn rhoi cyngor ar y rhaglen flynyddol o waith archwilio mewnol ac yn llunio adroddiad blynyddol sy'n crynhoi prif ganfyddiadau a chanlyniadau'r holl waith archwilio. Caiff argymhellion o ran gwella gwasanaethau eu rhoi ar waith a chyflwynir adroddiadau arnynt i'r Pwyllgor, ond mae pryderon o hyd ynghylch pa mor gyflym y caiff camau gweithredu eu cymryd. Mae trefniadau wedi bod ar waith i grŵp ar y cyd o fewn y strwythur llywodraethu fonitro canfyddiadau gweithgarwch Archwilio Mewnol. Fodd bynnag, gan mai cylch gwaith y cyfarfod oedd goruchwylio gwaith archwilio/sicrhau ansawdd busnes fel arfer hefyd, mae cwmpas a chylch gwaith y Grŵp wedi'u hadolygu. Cylch gwaith y Grŵp Llywodraethu Archwilio newydd fydd monitro cynnydd yn erbyn Argymhellion Archwilio Mewnol yn ystod y 12 mis cyntaf yn unig. Yn dilyn hyn, bydd cwmpas y Grŵp yn cael ei adolygu eto, a phe bai angen ymestyn y cylch gwaith i edrych ar brosesau sicrhau ansawdd mewnol eraill, bydd yn cael ei ystyried. Mae'r Grŵp yn parhau i fod yn gyfarfod a gadeirir ar y cyd gan Bennaeth Staff Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol o fewn yr Heddlu. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at fwy o atebolrwydd wrth i gamau gael eu cymryd.

Mae gweithgarwch arolygu ac archwilio gan gyrff craffu allanol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru a’r Arolygiaeth, yn parhau i sbarduno gwelliannau o ran busnes. Caiff argymhellion eu hystyried a'u rhoi ar waith lle y bo'n briodol. Caiff allbynnau’r Arolygiaeth eu monitro drwy grŵp llywodraethu’r Arolygiaeth sy'n cael ei Gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl. Mae nifer o argymhellion wedi cael eu cyflawni gan yr Arolygiaeth yn dilyn defnyddio’r dull hwn.

Yn olaf, mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi dod â gwerth ychwanegol wrth gyflawni eu cyfrifoldeb o graffu annibynnol a rhoi barn ar adroddiadau a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, Argymhellion yr Arolygiaeth ac ar Nodi a Rheoli Risgiau.

**Adolygu Effeithiolrwydd**

Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd, o leiaf bob blwyddyn, yn gyfrifol am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd eu fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio gan waith y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, uwch-reolwyr o fewn y sefydliadau sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a hefyd gan sylwadau a wneir gan yr archwilydd allanol ac asiantaethau ac arolygiaethau adolygu eraill. Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn bennaf gyfrifol am adolygu trefniadau llywodraethu, gyda chamau gweithredu yn cael eu hadolygu gan y Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio yn aelod o'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Cyfarfu'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn coladu tystiolaeth ac asesu cynnydd yn erbyn matrics tystiolaeth a gynlluniwyd i ddangos cydymffurfiaeth Gwasanaethau Plismona â'r Egwyddorion Craidd. Y matrics hwn yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

Yn y cyfarfod diweddaraf ym mis Chwefror 2020, cyfarfu'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol i adolygu trefniadau llywodraethu ac yn ystod y cyfarfod hwn penderfynwyd y dylid gosod

amseroldeb datblygu argymhellion Archwilio Mewnol o fewn cylch gwaith y Grŵp Llywodraethu Archwilio.

Yn unol â'r rheoliadau, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi adolygu effeithiolrwydd y gwasanaeth archwilio mewnol. Mae'r gwasanaeth wedi cydymffurfio â holl Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

Prif rôl Archwilwyr Mewnol yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ynglŷn ag effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau. I'r perwyl hwn, mae'r Archwilydd Mewnol yn cyflwyno barn flynyddol ar effeithiolrwydd y rheolaethau a adolygwyd gan y tîm archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. Mae'r farn flynyddol hon, a nodir yn adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol, yn un o'r ffynonellau allweddol o dystiolaeth sy'n ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20 fel a ganlyn:

*Mae TIAA yn fodlon bod gwaith archwilio mewnol digonol wedi'i wneud i'm galluogi i ddod i gasgliad cadarnhaol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl. Yn fy marn i, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl brosesau trefnu, rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith i reoli'r gwaith o gyflawni eu hamcanion ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn.*

*Seilir y farn hon ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn unig ac nid yw'n farn ar bob elfen o'r prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu na'r hyfywedd ariannol parhaus nac eich gallu i fodloni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys ei gael o'i wahanol ffynonellau sicrwydd.*

Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru farnau archwilio diamod o ran cyfrifon 2018/19 i'r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl ac roedd yn fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau gofal, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau. Bydd SAC yn cynnal archwiliad o'r Datganiadau yn ystod y misoedd nesaf a darperir y farn gyffredinol unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'r gofyniad statudol newydd i gau cyfrifon yn derfynol erbyn diwedd mis Gorffennaf. Mae'r dyddiad cau cynharach hwn wedi cael effaith fawr ar yr amserlenni ar gyfer llunio'r datganiad o gyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol, ond gwnaed paratoadau digonol ar gyfer hyn a llwyddwyd i'w bodloni.

Isod, ceir crynodeb o'r camau sydd wedi'u cwblhau neu eu cyflawni, fel y’u rhestrwyd yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2017/18, 2018/19 a 2019/20:

| | Camau Gweithredu 17/18 | Cynnydd |
|---|---|---|
| 1.2 | Cwblhau'r Meysydd i'w Gwella Hanesyddol a oedd wedi'u cynnwys yn arolygiadau Effeithlonrwydd Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL) Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi er mwyn gwella graddio ym mhob un o'r pedwar maes. | Cwblhawyd: Yr 17 o argymhellion hanesyddol yr heddlu sy'n ymwneud â pholisi cudd. Ni ellir cyflawni'r rhain hyd nes y cynhelir arolygiad ROCU pellach. Nid yw'r un o'r rhain yn peri risg i'r heddlu. Mae Bwrdd Llywodraethu Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi, a gadeirir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl, yn cynnal gwaith craffu a goruchwylio manwl ar holl argymhellion yr Arolygiaeth, sy'n lliniaru'r gofyniad i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn gadw'r rhain fel cam gweithredu. |
| 1.3 | Pennu a chyhoeddi cynllun o'n prosesau a'n systemau archwilio a'n profion cydymffurfiaeth ein hunain. Cysylltu'r cynllun gweithredu llywodraethu corfforaethol â'r gofrestr risg. | Cyflawni (cyfunwyd 1.3, 2.1 a 3.9 yn y camau Nesaf isod): Mae adolygiad o'r Grŵp Llywodraethu Archwilio a gadeirir ar y cyd wedi arwain at ddistyllu Cylch Gorchwyl y Grŵp i ganolbwyntio'n llwyr ar gynnydd yn erbyn Argymhellion Archwilio Mewnol. Ar ôl 12 mis, caiff cwmpas y Grŵp ei ailystyried i ymgorffori risg ac archwiliad a chydymffurfiaeth ehangach os tybir bod hynny'n briodol. |
| | **Camau Gweithredu 2018/19** | |
| 2.1 | Sefydlu ac ymgorffori'n gyson systemau archwilio a sicrhau ansawdd er mwyn gwella ansawdd data a gwella dull Heddlu Dyfed-Powys o reoli gwybodaeth. | Cyflawni (cyfunwyd 1.3, 2.1 a 3.9 yn y camau Nesaf isod): Mae Niche RMS yn cael ei gaffael gan yr Heddlu a bydd hyn yn dod ag ansawdd data gwell ar draws systemau'r heddlu. Bydd prosesau i sicrhau ansawdd yn rhan o'r broses o gyflwyno Niche ac fe'u hystyrir ar adeg briodol.<br><br>Mae dull systematig o baru enwol yn mynd rhagddo i wella ansawdd data a pharatoi ar gyfer mudo i Niche RMS.<br><br>Bydd y Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Grŵp Llywodraethu Archwilio yn dod ag atebolrwydd penodol i Argymhellion Archwilio Mewnol. |
| 2.2 | Gwella trefniadau rheoli ariannol er mwyn sicrhau bod pwysau ariannol yn cael eu nodi'n gynnar er mwyn hwyluso cynlluniau lliniaru cadarn. | Cwblhawyd: Mae'r Grŵp Cyllid Aur wedi'i ddadsefydlu ac mae pob cyfrifoldeb bellach yn perthyn i'r Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a Dyfodol o fewn y strwythur llywodraethu sefydliadol. Cwblhawyd yr holl gamau gweithredu a oedd yn deillio o'r Grŵp Aur. Bydd Datganiad Rheoli'r Heddlu'n cefnogi ymhellach allu'r sefydliad i nodi pwysau o ran galw ar gyfle cynharach, |

| | | |
|---|---|---|
| | | gan wella'r gallu i wneud rhagolygon ariannol ar gyfer hyn. |
| 2.3 | Cynnal adolygiad o strwythurau llywodraethu er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a phrosesau atebolrwydd a chyfathrebu cadarn. | Cwblhau: yn dilyn mewnbwn i Fwrdd Gweithredol yr Heddlu lle daethpwyd i gytundeb ar y diwygiadau sydd i'w gwneud i'r strwythur llywodraethu yn dilyn adolygiad manwl, mae'r rhain wedi cael eu gweithredu a byddant bellach yn destun adolygiad parhaus fel rhan o'r busnes arferol. |
| 2.4 | Sefydlu ac ymgorffori systemau sicrwydd er mwyn ategu a chefnogi gweithgarwch archwilio a sicrwydd Heddlu Dyfed-Powys, gan sicrhau y creffir ar berfformiad mewn modd annibynnol, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd | Cwblhawyd: Mae ymarferion craffu manwl a phaneli craffu wedi'u sefydlu. Defnyddir adborth gan y cyhoedd i roi ffocws i themâu craffu yn y dyfodol. Mae fframwaith craffu manylach wedi cynyddu'r amrywiaeth o systemau sicrwydd sydd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, sy'n ymwneud â rhanddeiliaid ehangach, yn cynnwys y cyhoedd. |
| | **Camau Gweithredu 19/20** | |
| 3.7 | Sefydlu'r Proffil Asesu Datblygiad (PAD) o fewn y sefydliad | Cwblhawyd – Roedd blwyddyn adrodd y PAD cyfredol i fod i ddod i ben ar 31 Mawrth 2020, ond fe'i hestynnwyd oherwydd pwysau gweithredol yn deillio o COVID-19. Mae llawer o unigolion wedi ymgysylltu â'r broses newydd. Adroddwyd mai 84% oedd y gyfradd gwblhau ar gyfer y cam adolygu dros dro. Bydd PAD yn parhau am y flwyddyn rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, gyda rhai mân ddiwygiadau a gwelliannau. |
| 3.9 | Amseroldeb gweithredu argymhellion archwilio mewnol | Cyflawni (cyfunwyd 1.3, 2.1 a 3.9 yn y camau Nesaf isod): Mae adolygiad o'r Grŵp Llywodraethu Archwilio a gadeirir ar y cyd wedi arwain at ddistyllu Cylch Gorchwyl y Grŵp i ganolbwyntio'n llwyr ar gynnydd yn erbyn Argymhellion Archwilio Mewnol. Ar ôl 12 mis, caiff cwmpas y Grŵp ei ailystyried i ymgorffori risg ac archwiliad a chydymffurfiaeth ehangach os tybir bod hynny'n briodol. |
| 3.11 | Purdah ar gyfer etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu – rheoli perthnasoedd a sicrhau tegwch. | Cwblhawyd: Mae etholiadau'r CHTh wedi'u gohirio tan 2021, gan liniaru'r gofyniad i gadw hyn fel cam gweithredu ar gyfer 19/20. |

Isod, ceir crynodeb o'r camau sy'n parhau i fynd rhagddynt yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2017/18, 2018/19 a 2019/20:

| | **Camau Gweithredu 17/18** | **Cynnydd** |
|---|---|---|
| 1.1 | Ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy ar gyfer pob datblygiad allweddol fel rhan o broses drws ffrynt newydd ar gyfer syniadau, achosion busnes a gwaith cynllunio yn y dyfodol | Yn mynd rhagddo: Fel rhan o'r adolygiad o drefniadau llywodraethu, sefydlwyd Grŵp Newid a Thrawsnewid i gyfuno cylch gwaith nifer o gyfarfodydd llywodraethu blaenorol. Disgwylir y bydd y grŵp hwn yn gweithredu fel y drws ffrynt ar gyfer pob syniad newydd sy'n cyflwyno newidiadau o ran prosesu, arloesi neu gydweithio. Mae'r Grŵp yn ei ddyddiau cynnar ac mae disgwyl y bydd, dros gyfnod 2020/21, yn gweithio ar y cyd ag allbynnau Datganiad Rheoli'r Heddlu er mwyn gwella effeithlonrwydd ein sefydliadau. |
| | **Camau Gweithredu 19/20** | |
| 3.1 | Y gallu a'r capasiti i fynd i'r afael â llygredigaeth yn effeithiol a monitro systemau'n gyflawn er mwyn nodi achosion o dorri rheolau a chamddefnydd yn rhagweithiol. | Yn mynd rhagddo: Datblygwyd cynllun gweithredu i ysgogi gwelliant. Mae llawer o gamau wedi'u cwblhau. I gydnabod y lefel o alw a oedd ar yr Uned Gwrth Lygredigaeth, cytunodd Grŵp y Prif Swyddogion i recriwtio i'r Uned. Bydd hyn yn cynnwys un neu ddau aelod o staff/swyddogion yr heddlu. At hynny, mae defnydd cynyddol o'r system atgyfeirio mewnol "Bad Apple" yn dangos hyder cynyddol yn y system. Yn olaf, mae gwaith partneriaeth gwell gydag asiantaethau allanol wedi sicrhau dulliau gwell o nodi a mynd i'r afael â chamddefnyddio. |
| 3.2 | Hygyrchedd a thryloywder nifer o brosesau adnoddau dynol | Yn mynd rhagddo: Bydd templed polisi heddlu newydd yn cysoni cynnwys polisi ag amcanion sefydliadol, a fydd yn ei dro yn arwain at ddull cyson o wneud penderfyniadau. Mae gwaith ar y gweill i ddiweddaru'r holl bolisïau presennol ac i greu dogfennau canllaw newydd i gyd-fynd â'r polisïau. Rhagwelir y bydd yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2020. |
| 3.3 | Cydlynu gweithgarwch ymgysylltu rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Heddlu | Yn mynd rhagddo: Mae'r strwythur llywodraethu wedi cael ei ddiwygio ac mae wedi cyflwyno Bwrdd Cysylltu â Chymunedau sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan yr Heddlu a'r SCHTh. Fel rhan o gylch gwaith y Grŵp, bydd yn ceisio nodi'r holl bwyntiau cyffwrdd presennol ar gyfer cyswllt cymunedol â'r heddlu a'u datblygu ymhellach i gael dull cydlynol o ymgysylltu â'r gymuned. |
| 3.4 | Gwella dealltwriaeth o'r galw presennol ac yn y dyfodol i ategu gwaith cynllunio yn y | Yn mynd rhagddo: Cymerwyd dull diwygiedig ar gyfer Datganiad Rheoli'r Heddlu er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r galw presennol a disgwyliedig ar ein |

| | | |
|---|---|---|
| | dyfodol a llywio strategaeth sefydliadol | sefydliad. Bydd y sylfaen dystiolaeth hon a'r dadansoddiad yn cael eu cyfuno â barn broffesiynol i ffurfio'r sail ar gyfer adnodd cynllunio strategol cadarnach a fydd yn llywio gwaith cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu. |
| 3.5 | Dull mwy strwythuredig a chyson o ddysgu o ddatrys problemau, camgymeriadau a gwersi a ddysgwyd. | Yn mynd rhagddo: Sefydlwyd Grŵp Llywio Datrys Problemau i gynyddu atebolrwydd am gynlluniau problemus. Penodwyd Cydlynydd Plismona Problem-gyfeiriedig (POP). Mae llwyfannau i raeadru'r dysgu wedi cael eu creu. Mae POP ar dudalen yn cael ei ddatblygu er mwyn rhannu arferion. Mae ARDAL yn gallu storio mentrau atal troseddu sydd wedi cael eu defnyddio a'u gwerthuso. Mae hyfforddiant datrys problemau ar y cyd yn cael ei drefnu gyda phartneriaid. Mae 28 o Bwyntiau Cyswllt Sengl ar gyfer Datrys Problemau ar draws ardal yr heddlu. |
| 3.6 | Gwaith llywodraethu a rheolaeth ariannol ar gyfer trefniadau cydweithio. | Yn mynd rhagddo: Bydd arolwg SAC yn adrodd i Grŵp Plismona Cymru Gyfan ym mis Mawrth ac yna'n cael ei ystyried gan y Cyd-bwyllgor Archwilio.<br><br>Mae angen ailedrych ar drefniadau llywodraethu ariannol. Mae angen gwella adroddiadau amserol ac ariannol. |
| 3.8 | Gwell dealltwriaeth o fuddiannau busnes | Yn mynd rhagddo: Mae Swyddog Buddiannau Busnes wedi'i benodi a chychwynnodd yn ei swydd ar 9 Mawrth 2020. Ar ôl cyfnod o ymsefydlu, rhagwelir y bydd y rôl hon yn sicrhau y caiff buddiannau busnes eu cydgysylltu, eu nodi a'u cofnodi'n ganolog, yn arbennig mewn perthynas â Datganiad Rheoli'r Heddlu a chynlluniau strategol. |
| 3.10 | Gwerthuso gwasanaethau a gomisiynir | Yn mynd rhagddo: Mae cynlluniau ar waith i gynnal gwaith gwerthuso pellach yn ystod 2020/21, ac mae angen i hyn ddod yn broses sydd wedi'i sefydlu'n llwyr, sy'n sicrhau bod dealltwriaeth glir o effaith a buddion buddsoddi gwasanaethau o'r fath. Mae hyn yn ategu ymhellach y gwaith a wnaed drwy Fwrdd Comisiynu'r SCHTh sy'n darparu lefel uwch o graffu ar wasanaethau a gomisiynir. |

**Y camau nesaf**

| | Camau Gweithredu 20/21 | Perchennog |
|---|---|---|
| 4.1 | Monitro ymateb gweithredol i bandemig y coronafeirws yn lleol gyda ffocws penodol ar yr effaith ar gyflenwi gwasanaethau a’r costau cysylltiedig. | Prif Gwnstabl Cynorthwyol |
| 4.2 | Sefydlu a monitro cynllun adfer er mwyn nodi dulliau newydd a gwell ar gyfer darparu gwasanaethau'n sefydliadol ac yn weithredol ac er mwyn deall y gwersi a ddysgwyd o'n hymateb i bandemig y coronafeirws. | Prif Gwnstabl Cynorthwyol |
| 4.3 | Monitro strategaeth a’r dull a gymerwyd i ailgyflwyno a gweithredu prosiectau strategol cyfredol a newydd fel y pennwyd yn y Cynllun Cyfalaf | Yr Adran Gyllid/Prif Swyddog Cyllid |
| 4.4 | Nodi’r broses y mae’r Adran Gwella Busnes a Rheoli Gwybodaeth yn ei defnyddio i gyflawni ei swyddogaethau archwilio sydd â’r nod o ysgogi gwelliant o ran uniondeb data. Sicrhau, lle nodir bylchau gan archwiliadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi, gweithgarwch craffu dwys yr Heddlu a Datganiad Rheoli’r Heddlu, bod y rhain yn cael eu monitro ac yr ymdrinnir â hwy gan ddefnyddio’r dulliau priodol. | Prif Uwch-arolygydd Gwella Busnes a Rheoli Gwybodaeth |
| 4.5 | Cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu, gan sicrhau synergedd rhwng y strwythur llywodraethu “busnes fel arfer” a strwythur llywodraethu Ymgyrch Talla yn ogystal â chreu cymaint o gyfleoedd â phosibl i sicrhau mwy o effeithlonrwydd, llif cyfathrebu ac awdurdodiad yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. | Dirprwy Brif Gwnstabl |
| 4.6 | Purdah ar gyfer etholiadau 2021 y Comisiynydd Heddlu a Throseddu – rheoli perthnasoedd a sicrhau tegwch. | COS, SCHTh |

**Barn**


Ni all unrhyw ddatganiad rheolaeth fewnol roi sicrwydd absoliwt yn erbyn colled berthnasol; bwriad y datganiad hwn yw rhoi sicrwydd rhesymol.

Ar ôl adolygu'r ffynonellau sicrwydd a nodir yn y datganiad hwn, rydym yn fodlon bod trefniadau llywodraethu boddhaol ar waith gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl, gan gynnwys systemau priodol ym maes rheolaeth fewnol a rheoli risgiau sy'n helpu i sicrhau y caiff swyddogaethau eu cyflawni'n effeithiol.

**Casgliad**

Mae'r adolygiad o drefniadau llywodraethu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl dros y flwyddyn ddiwethaf wedi nodi nifer o feysydd o fewn Gwasanaethau Plismona a fyddai, o'u cyflawni, yn dangos gwell atebolrwydd, tryloywder a threfniadau gweithio effeithiol, yn ogystal ag atgyfnerthu ymhellach y trefniadau llywodraethu sydd ar waith.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ymrwymedig i broses o wella trefniadau llywodraethu'n barhaus a byddant yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd. Nodir y rhain o fewn y camau a restrwyd uchod a byddant yn parhau i gael eu monitro drwy gydol 2020/21 gan eu bod yn parhau i fod yn ddilys ac o bwys. Bydd y camau a gaiff eu cymryd a'u rhoi ar waith yn cael eu monitro fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
|  **Llofnodwyd** |  **Llofnodwyd** |
| **Dafydd Llywelyn** | **Mark Collins** |
| **Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** | **Prif Gwnstabl** |
| **Dyddiad: 2 Medi 2020** | **Dyddiad: 2 Medi 2020** |

| | | |
|---|---|---|
|  **Llofnodwyd** |  **Llofnodwyd** |  **Llofnodwyd** |
| **Edwin Harries** | **Beverley Peatling** | **Carys Morgans** |
| **Cyfarwyddwr Cyllid** | **Prif Swyddog Ariannol,**<br>**Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** | **Pennaeth Staff a Swyddog Monitro** |
| **Dyddiad: 2 Medi 2020** | **Dyddiad: 2 Medi 2020** | **Dyddiad: 2 Medi 2020** |